Ffermio Bro:

Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig

Cyfraddau Talu a Manylebau Technegol
Tranche 1 (Ebrill 2026)
Tranche 2 (Medi 2026)

Bydd cyfraddau talu safonol Ffermio Bro yn parhau i gyd-fynd â chyfraddau talu cynlluniau eraill gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer i adolygu cyfraddau talu presennol a datblygu rhai newydd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae'r ddogfen hon yn nodi tranche cychwynnol ('Tranche 1') a thranche ychwanegol ('Tranche 2') o rai o'r eitemau mwyaf cyffredin, lle mae'r cyfraddau eisoes wedi'u hadolygu a'u cyhoeddi.

Contents

Camfa Ysgol 5
Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren 6
Cilbyst a Gât Mochyn o Bren 8
Camfa Bren 10
Gât Mochyn Daear 11
Pibelli Cyflenwi Dŵr 12
Gât Ddŵr 13
Cafnau Dŵr 15
Ffens Postyn a Rheilen 16
Ffens Postyn a Weiren 18
Gatiau Caeau (Pren Caled) 20
Gatiau Caeau (Pren Meddal) 21
Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir 22
Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn) 24
Coed a Llwyni – Trawsblannu 28
Coed a Llwyni – Coed Chwip 31
Plannu Llafnau 34
Llewys Coed Rhag Cwningod 36
Plannu Perth/Gwrych Newydd 37
Bondocio Perthi/Gwrychoedd a Chau Bylchau 39
Plygu Perth/Gwrych 41
Trawsddraeniau 43
Gosod Cwrbin 45
Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd 46
Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw) 47
Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw) 48
Plannu Perth/Gwrych Newydd ar Gyfer Pryfed Peillio 50
Adfer Wal Gerrig Sych 52
Adfer Clawdd Cod yr Eitem: L030 55
Adfer Clawdd Cerrig 57
Adfer Ffens Lechi 59
Weiren Ar Ben Wal Gerrig 60

Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard 61
Cynnal Bwlch Cae â Rwbel 63
Ffens Postyn a Weiar gyda Netin 64
Opsiwn Atodol ar gyfer Netin Ffensys Cwningod 66
Gwlypdir Mewn Ffos 68
Gwaith Peiriannu Meddal ar Lannau Afonydd 71
Adfer Pwll 78
Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn neu Law 82
Rheoli Rhedyn (Dau Doriad y Flwyddyn â Pheiriant) 83
Gwyndynnydd cymysg 84
Bocsys nythu tylluanod gwynion 86
Blychau ystlumod 89
Arolwg ystlumod 92
Blychau nythu adar 94
Creu pyllau dŵr tymhorol 97
Ffensys ceirw 100
Gatiau ceirw 103
Carthu Ffosydd 105
Blwch pathewod 107
Geodecstilau 110
Gwair gwyrdd 114
Gosod wyneb caled 116
Rheoli Grug: Llosgi 119
Rheoli Grug: Torri 123
Rheoli Grug: Torri a gwaredu 125
Llewys rhwyll coed unigol: >1.2m 127
Llewys rhwyll coed unigol: >1.8m 128
Bylchau cae newydd 129
Coed perllan: impio ac impio blagur 130
Coed perllan: adfer trwy docio 136
Gwâl dyfrgwn 138
Parcdir: gatiau haearn 142
Parcdir: ffensys rheiliau haearn 144
Creu pyllau 145
Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa 151
Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa 154
Clirio prysgwydd/coed: â llaw 158
Clirio prysgwydd/coed: â pheiriant 161
Trapiau gwaddodion 163
Rhwystr diferion 166
Llewys coed gwrth-gwningod: bioddiraddiadwy 170
Gât safonol (metel) 171
Pantiau 172
Llifddor bren 174
Cysgod coed: 60cm gyda phostyn 177
Cysgod coed: 60cm gyda phostyn: bioddiraddiadwy 179
Trin coed (y dydd) 181
Clwt-chwynnu 183
Adolygiad o'r Eitemau 185

Rhif y Fersiwn: 2

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2025

ISBN: 978-1-83745-232-3

Camfa Ysgol
Cod yr Eitem: L001

Cyfradd Talu: £259.45

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Camfa Ysgol'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae camfeydd ysgol yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i fynd dros waliau a chloddiau.

Rhaid cadw at y canlynol


- Adeiladwch y gamfa ysgol o bren meddal wedi'i drin dan bwysau neu o bren caled.
- Defnyddiwch ddarnau o bren heb fod yn llai na'r rhai yn y diagram. Gallwch naill ai rebadu'r stepiau yn y ffrâm A neu eu cynnal â darnau ychwanegol o bren. Gosodwch draed y ddwy ysgol yn ddiogel trwy gladdu bonion y ffrâm A yn ddigon dwfn yn y ddaear a'u hangori gan ddefnyddio cynheiliaid.
- Os ydy'r wal neu'r clawdd yn un llydan, efallai y bydd angen llwyfan ar dop yr ysgol.
- Gofalwch fod y gamfa'n cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.

Peidiwch â:

- Adeiladu camfeydd ysgol ar hawliau tramwy cyhoeddus heb ganiatâd Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio concrit i sicrhau'r cynheiliaid pren yn y ddaear.
- Lleihau maint y wal neu'r clawdd er mwyn i'r ysgol allu rhychwantu'r ffin. Adeiladwch lwyfan ar dop y gamfa os oes angen.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Yr arfer gorau yw claddau pennau'r Ffrâm A o leiaf 30 cm yn y pridd i angori'r gamfa



Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren
Cod yr Eitem: L002

Cyfradd Talu: £301.39

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.


Mae gatiau ceffyl yn caniatáu mynediad i gerddwyr a merlotwyr.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Adeiladwch y Cilbyst a'r Gât Ceffyl o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.
- Rhaid i'r gatiau fod o leiaf 1.5m o led a 1.3m o uchder. Gofalwch fod digon o le ar un ochr y gât i'r ceffyl sefyll tra bod y gât yn cael ei hagor.
- Gallwch brynu gât barod neu gallwch adeiladu gât â darnau o bren o'r meintiau canlynol:
    - Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm o leiaf.
    - Defnyddiwch reiliau (asennau a chlefydau) â chroestoriad o 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r asen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.
- Dylech hongian y gât fel y mae'r diagram yn ei ddangos er mwyn ichi allu ei hagor o ddau gyfeiriad.
- Rhowch gliciedau sy'n gadael ichi agor y gât heb orfod dod oddi ar eich ceffyl.
- Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst fel a ganlyn;
    - Y cilbost hongian – diamedr o 15cm fan leiaf
    - Y cilbost cau – diamedr o 12cm fan leiaf
    - Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.

Peidiwch â:
- Adeiladu cilbyst a gatiau ceffyl ar hawliau tramwy cyhoeddus heb ganiatâd Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio concrit i sicrhau'r cynheiliaid pren yn y ddaear, gan y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Defnyddiwch glicied 'estyn' neu 'ffrwyn' er mwyn ichi allu agor y gât heb orfod ddod oddi ar eich ceffyl.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi bachyn uchaf y gât ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i'w sefydlogi.

Enghraifft o gât ceffyl o bren



Cilbyst a Gât Mochyn o Bren
Cod yr Eitem: L003

Cyfradd Talu: £362.00 yr un

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Mochyn o Bren'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae gatiau mochyn yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Adeiladwch y gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.
- Ni fydd stoc yn gallu mynd trwyddi sut bynnag mae hi, ond bydd pobl yn gallu cerdded trwyddi'n rhwydd.
- Gofalwch ei bod yn rhwystr effeithiol rhag beicwyr a cheffylau.
- Gallwch brynu gât barod neu adeiladu gât. Rhaid i'r gât;
    - Fod o leiaf 1.2m o led a 1.2m o uchder.
    - Rhaid i silindr 1m ar ei phen allu pasio trwy'r gât. Gofalwch nad yw 'gwddf' y gât mochyn (y lle culaf pan fyddwch yn cerdded trwyddi) yn llai na 1m o led.
- Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst a'r rheiliau (asennau a chleddyfau) fel a ganlyn;
    - Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm fan leiaf.
    - Defnyddiwch reiliau â chroestoriad
    - 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r asen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.
    - Dylai'r cilbost hongian fod â diamedr
    - 15cm fan leiaf.
    - Dylai'r cilbost cau fod â diamedr o 12cm fan leiaf.
    - Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.
- Gosodwch fachau'r gât fel eu bod yn ymestyn 3cm o'r cilbost. Bydd hynny'n gwneud i'r gât gau yn erbyn un o'r cilbyst ochrol pan fyddwch yn ei gollwng.
- Gofalwch ei bod yn cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.


Peidiwch â:

- Defnyddio concrit i sicrhau'r pyst yn y ddaear am y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.
- Rhoi weiren bigog ar y gât mochyn.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Iddi fod yn fwy fyth o rwystr i stoc, gosodwch glicied sy'n cau ei hun.
- Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi'r bachyn uchaf ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.
- Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i'w sefydlog.

Enghraifft o gât mochyn pren



Camfa Bren
Cod yr Eitem: L004

Cyfradd Talu: £125.01 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Camfeydd Pren'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Mae camfeydd pren yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.


Rhaid cadw at y canlynol:

- Adeiladu camfa o bren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled.
- Gallwch brynu camfa barod neu gallwch adeiladu camfa. Ar gyfer camfeydd cul a llydan, rhaid cadw at y dimensiynau canlynol;
    - Dylai'r stepen fod 200 mm o led
    - Dylai'r canllaw fod â diamedr neu wyneb o 70 – 100mm fan leiaf
    - Dylai cilbyst fod rhwng y fertigol a 1:3
    - Ni ddylai fod mwy na 1:30 o oleddf ar unrhyw ran o unrhyw stepen.
- Os ydy'r gamfa ar lethr, gallwch roi trydedd stepen ar yr ochr isaf. Dylai fod ddwywaith lled stepen gyffredin ac ni ddylai fod yn uwch na 300mm.
- Gofalwch fod y gamfa'n cydymffurfio â BS5709:2006 fel y'i diwygiwyd. Rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.


Peidiwch â:

- Gadael i'r stepen ei hun gyffwrdd â rheiliau'r gamfa rhag creu effaith si-so, gan wneud y gamfa'n beryglus.
- Peidiwch â defnyddio'r pyst fel pyst tynnu ar gyfer ffensys.

Enghraifft o gamfa lydan



Enghraifft o gamfa gul



Gât Mochyn Daear
Cod yr Eitem: L005


Cyfradd Talu: £41.10 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Mochyn Daear'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Mae moch daear fel rheol yn dilyn yr un llwybrau wrth symud o amgylch eu tiriogaeth. Wrth ffensio i reoli ardal benodol mae angen ystyried llwybrau arferol y moch daear. Gellir defnyddio gatiau moch daear i ganiatáu i foch daear groesi ffiniau atal stoc heb niweidio'r ffens.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Gosodwch gât moch daear sydd â'r un dimensiynau â'r rheini yn y diagram isod.
- Rhaid gosod y gatiau yn union ar lwybrau moch daear sydd eisoes yn bodoli, er mwyn annog moch daear i ddefnyddio'r gât.
- Claddwch y ffens bob ochr i'r gât at ddyfnder priodol yn y pridd i rwystro'r moch daear rhag tyrchu o gwmpas y gât.
- Dylech drin y pren â hylif cadw priodol diwenwyn, diarogl.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Yr arfer gorau yw claddu'r ffens at ddyfnder o 15cm fan leiaf bob ochr i'r gât.
- Dylech drin y pren â hylif cadw priodol diwenwyn, diarogl.

Enghraifft o gât moch daear



Pibelli Cyflenwi Dŵr
Cod yr Eitem: L006

Cyfradd Talu: £1.39/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Pibell Cyflenwi Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Gellir defnyddio pibelli dŵr i gario dŵr i gafnau yfed os yw'r da byw'n cael eu rhwystro rhan defnyddio ffynonellau dŵr eraill gan weithgareddau Ffermio Bro.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Rhaid i'r pibelli fod o bolyethylen glas dwysedd canolig gyda diamedr allanol o 2.5 cm fan leiaf.
- Defnyddiwch gymalau dwrglos o bres neu blastig.
- Rhaid claddu pibelli at ddyfnder digonol i sicrhau nad yw gweithgareddau ar y wyneb yn eu difrodi.
- Rhaid adfer tir wedi'i dyrchu fel ei fod fel y tir o'i gwmpas ar ôl gorffen gosod y pibelli.
- Rhaid gwarchod unrhyw bibelli sydd uwchlaw'r ddaear rhag anifeiliaid a rhew.
- Pan fydd pibell yn croesi ffos agored neu drac, rhaid gosod giârd o diwb dur neu bibell lawes dros y bibell, a'i gosod at ddigon o ddyfnder islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos. Wrth groesi trac fferm, gofalwch fod y bibell wedi'i diogelu'n ddigonol o dan y trac.
- Rhaid rheoli'r cyflenwad dŵr â falfiau ynysu/ tapiau cau ar bwynt y cyflenwad ac wrth bob cafn. Rhaid gwarchod y falfiau ynysu/tapiau cau rhag rhew a difrod gan stoc, a rhaid iddynt fod yn hawdd cyrraedd atynt. Lle bo angen claddu falfiau/tapiau cau, rhaid iddynt fod o leiaf 60cm o dan y pridd a dylai fod modd cyrraedd atynt drwy siambr archwilio dan glawr.
- Rhaid i bibell ddŵr ddarparu digon o ddŵr yfed oer i ail-lenwi'r holl gafnau dŵr ar ei hyd yn barhaus drwy'r flwyddyn mewn 10 munud.
- Rhaid i bob gwaith cyflenwi dŵr gydymffurfio â Chodau Ymarfer Safonau Prydeinig cyfredol BS6572, fel y'i diwygiwyd.

Peidiwch â:
- Difrodi gwasanaethau eraill megis cyflenwad dŵr, gwastraff, nwy, trydan a ffôn.

Gofynion a chyngor yn ogystal â'r manylebau uchod:
- Ystyriwch osod draeniau caeau a'r falfiau yn yr un lle er mwyn ichi allu cael atyn nhw'n rhwydd.
- Ystyriwch amrywiaeth o ffactorau wrth bennu diamedr y pibelli, gan gynnwys: pwysedd dŵr, capasiti dŵr, llif cyfnewidiol, hyd y bibell a newid o ran uchder, faint o ddŵr sydd ei angen, y nifer o gafnau, y nifer a'r math o stoc sy'n defnyddio pob cafn.
- Lle bydd cymalau wedi'u claddu dan ddaear, cynghorir eich bod yn marcio eu lleoliad, ar byst ffensiau er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â chynnal a chadw yn y dyfodol.
- Rhaid claddu pibelli o leiaf 60cm o ddyfnder, ac yn ddyfnach os rhagwelir aredig dwfn neu aredig yr isbridd yn y dyfodol.
- Gellir gosod pibelli drwy dorri ffosydd, gydag aradr wadd neu aradr isbridd, gan ddibynnu ar y math o bridd a'r peiriannau sydd ar gael.
- Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan ffos yw ei gosod 60cm islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos. Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan drac fferm yw gosod y bibell ar wely 7.5cm o dywod a'i gorchuddio â 10cm arall o dywod cyn ôl-lenwi ar ei ben

Gât Ddŵr
Cod yr Eitem: L007

Cyfradd Talu: £337.81 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Ddŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Mae angen gatiau dŵr i reoli stoc pan fydd ffens yn croesi afon a nant. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol os ydy lefel y dŵr yn amrywio'n fawr yn ystod y flwyddyn.


Rhaid cadw at y canlynol:

- Adeiladwch gât sy'n cynnwys cyfres o byst pren crog wedi'u cysylltu wrth ddarn o gebl neu reilen bren gron sy'n cael ei hongian yn llorweddol rhwng pyst cynnal. Rhaid adeiladu pob gât fel ei bod yn addas ar gyfer proffil y nant unigol.
- Rhwng y gât ddŵr a'r ffens, cysylltwch ddarnau byr o reilen bren neu netin wrth byst cynnal sydd wedi'u gosod mewn mannau addas.
- Bydd y pyst crog wedi'u gwneud o bren wedi'i lifio a heb ei drin ac â chroestoriad o 5cm sgwâr fan leiaf. Rhaid eu drilio a dirwyn y cebl neu weiren y ffens drwyddynt a gosod darnau gwahanu 15cm o hyd o bibell blastig rhyngddynt. Bydd bwlch felly o 15cm rhwng pob postyn crog.
- Os ydy gyli'r nant dros 1.5m o ddyfnder, bydd angen pyst crog 7cm sgwâr o faint o leiaf. Rhowch y post crog i hongiant ar bolyn crwn o bren gan ddefnyddio dolenni o weiar i'w cysylltu.


Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Wrth ddewis croesfan addas i osod y gât, bydd angen i wely'r nant fod yn galed a dylai fod yn rhwydd mynd o un lan i'r llall. Bydd y gwaith adeiladu a'r gwaith cynnal a chadw yn haws o ddewis croesfan addas.
- Trwy hongian y gât ar wahân i'r brif ffens, mater rhwydd fydd codi'r gât pan fydd llifogydd mawr heb ddifrodi'r brif ffens. Ni fydd llawer o ddifrod i'r gât a gallwch ei thrwsio a'i rhoi yn ei hôl.
- Mae'n well creu gatiau mawr mewn darnau. O wneud hynny, mae'n llai tebygol y caiff y gât gyfan ei hysgubo i ffwrdd gan lif mawr.
- Byddai'n ddoeth ichi garthu bôn y gât o dro i dro. Mae cymysgedd o ddail a changhennau'n gallu crynhoi wrth fôn y gât gan roi pwysau ar y weiars a'r polion a difrodi'r gât.
- Dylech hongian gatiau ar ongl, gyda gwaelod y gât yn gorwedd ar wely'r nant ar waered y nant. Bydd hyn yn rhwystro da byw rhag pasio o dan y gât pan fydd llif y nant yn isel.

Enghreifftiau o Gatiau Dŵ r



Enghreifftiau o Gatiau Dŵr



Cafnau Dŵr
Cod yr Eitem: L008

Cyfradd Talu: £224.00 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cafnau Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Defnyddir cafnau dŵr i roi dŵr yfed i dda byw lle bo gweithgareddau Glastir yn eu rhwystro rhag mynd at gyflenwad dŵr arall.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio, plastig neu goncrit.
- Gosodwch gafn sydd o leiaf 1.8m o hyd. Bydd naill ai wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr neu bydd dŵr yn llifo'n rheolaidd iddo o 'fowser', fel bod y stoc yn y cae yn cael digon o ddŵr i ateb eu gofynion. Bydd y taliad safonol yn cynnwys costau ffitiadau fel tap pelen ac ati.
- Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u dylunio at y gwaith.
- Rhaid gofalu nad yw'r cafnau'n sarnu na'n gollwng dŵr. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl am osod sylfaen.
- Gofalwch fod y cafn dŵr yn bodloni Cod Ymarfer y Safonau Prydeinig.

Peidiwch â:
- Ei osod wrth fwlch cae neu ger llwybr.
- Ar dir gwlyb gan y bydd perygl i'r stoc ei stablad (stwnsio'r pridd).

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Peidiwch â gosod cafnau dŵr unrhyw le sy'n bwysig oherwydd ei blanhigion neu ei anifeiliaid gwyllt.
- Ceisiwch ofalu nad yw'r cafn yn cael effaith andwyol ar y dirwedd trwy ei gosod wrth ymyl cae a dewiswch ddeunydd na fydd yn eich taro'n chwith wrth ichi edrych arno fel rhan o'r dirwedd o'i gwmpas.
- Gosodwch gafn sy'n ddigon mawr i gyflenwi digon o ddŵr i'r anifeiliaid fydd yn yfed ohono.

Ffens Postyn a Rheilen
Cod yr Eitem: L009

Cyfradd Talu: £12.54/m


Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Rheilen'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Defnyddir ffens postyn a rheilen fel arfer lle byddai'n addas yn y dirwedd, ar barcdir neu i reoli stoc ar lan dyfroedd.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan bwysau.
- Defnyddiwch byst sydd o leiaf 1.8m o hyd ag iddynt groestoriad o 12.5cm x 7.5cm fan leiaf.
- Defnyddiwch byst sgwâr neu hirsgwar.
- Ni ddylai fod mwy na 2m rhwng postyn canol a'r postyn nesaf ato (1.8m fel arfer, gan mai hyd rheilen safonol yw 3.6m).
- Rhaid gosod y pyst yn ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid i wyneb y postyn fod yn sgwâr â llinell y ffens. Os byddwch yn llifio brig y pyst ar ôl eu gosod, rhaid trin yr arwynebau â hylif cadw priodol o'r un lliw â gweddill y pren.
- Rhaid gosod o leiaf tair rhes o reiliau pren 3.8cm x 8.7cm, gyda'r hoelion wedi'u hoelio ar ongl iddynt. Gallwch ychwanegu rhesi o reiliau yn ôl y gofyn.
- Rhaid hoelio'r rheiliau ar ochr y stoc o'r pyst rhag i'r stoc allu gwthio'r rheiliau oddi ar y pyst.
- Pan fydd dwy reilen yn cwrdd ar un postyn, yna dylai'r rheiliau ar y rhes oddi tani gwrdd ar y postyn nesaf ac felly yn y blaen, fel y gwelwch yn y diagram.
- Gofalwch fod yna o leiaf 1m rhwng y llawr a thop y rheilen uchaf.

Peidiwch â:
- Defnyddio coed a llwyni fel pyst ffensio neu byst tynnu na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.
- Defnyddio concrit os medrwch gan ei fod yn pydru'r pyst ar lefel y pridd.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Yr arfer gorau yw gosod o leiaf 70cm o bob postyn yn y pridd a rhoi'r postyn yn sownd trwy gywasgu pridd a cherrig yn y twll.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

Ffens Postyn a Rheilen



Yn addas i'w ddefnyddio gyda cheffylau a gwartheg

Ffens Postyn a Weiren
Cod yr Eitem: L010

Cyfradd Talu: £5.81/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiren'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan bwysau.
- Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau galfaneiddio i gyd fod yn newydd.
- Rhaid bod gan y ffens postyn a weiren o leiaf dri llinyn o weiar, a hwnnw'n naill ai'n weiren ddur mwyn wedi'i alfaneiddio (4mm o drwch) neu weiren bigog llinyn dwbl tro (2.5mm o drwch). Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.
- Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Rhaid gosod y pyst tynnu'n ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.
- Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwthio allan.
- Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i lifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.
- Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst.
- Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr.
- Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.


Peidiwch â:

- Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 1m o dan ddaear i'w sefydlogi.
- Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.



Gatiau Caeau (Pren Caled)
Cod yr Eitem: L011

Cyfradd Talu: £466.22 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gatiau caeau – pren caled'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.


Rhaid cadw at y canlynol:

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi'u gwneud o bren caled, yn unol â'r dimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd.
- Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Peidiwch â:

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.
- Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Enghraifft o Gât Cae o Bren Caled



Gatiau Caeau (Pren Meddal)
Cod yr Eitem: L012

Cyfradd Talu: £225.92 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gatiau caeau – pren meddal'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.


Rhaid cadw at y canlynol:

- Gosodwch gatiau caeau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.
- Defnyddiwch gatiau caeau sydd wedi'u gwneud o bren meddal wedi'i drin dan bwysedd, yn unol â'r dimensiynau yn y diagram isod.
- Defnyddiwch gatiau caeau o bren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd.
- Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.
- Gosodwch bob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Peidiwch â:

- Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.
- Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Enghraifft o Gât Cae o Bren Meddal



Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir
Cod yr Eitem: L013

Cyfradd Talu: £94.40 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Rhaid cadw at y canlynol:


- Gosodwch giardiau sy'n ddigon mawr ac wedi'u dylunio'n briodol i amddiffyn coed rhag unrhyw dda byw allai ddod ar y tir.
- Rhaid i unrhyw gardiau rhag stoc sydd wedi'u gwneud o reiliau pren fod o leiaf
- 1.2 metr o uchder ac wedi'u gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau.) Dylai diamedr pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren sydd â diamedr o o leiaf 10cm x 5cm ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin galfanedig
- o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau galfanedig. Dim ond mewn
- parcdiroedd lle mai defaid yw'r unig dda byw y mae 'clos' trionglog yn dderbyniol.
- Mae'n rhaid defnyddio pren meddal wedi'I drin dan wasgedd neu bren caled.
- Rhaid i unrhyw bren, netin a styffylau fod o ddeunyddiau newydd.
- Os ydych am ddefnyddio giardiau metel traddodiadol yn hytrach na rhai pren, gofalwch eu bod yn ddigon mawr i amddiffyn y goeden rhag da byw.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Bydd y dewis o gardiau rhag stoc ar goed parcdir yn dibynnu ar y canlynol:
    - Maint y goeden sydd i'w hamddiffyn.
    - Y math o niwed a ddisgwylir e.e. brigdorri, tynnu rhisgl, rhwbio.
    - Y math o anifail sydd fwyaf tebygol o achosi niwed.
    - Yr adeg pan fydd y goeden mewn perygl o gael ei niweidio.
    - Golwg y giard. (UKWAS General Forest Practice 24 – Consider the impact of fencing on landscape).
- Defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch weiar netin o'i amgylch i atal da byw rhag dod i mewn. Bydd y rheiliau llorweddol yn atal y pyst rhag cael eu llacio. Mae'n bosibl y caiff y parcdir ei ddefnyddio gan amrywiaeth o dda byw felly rhaid i'r giardau fod yn ddigon cryf I ymdrin â'r sefyllfa waethaf posibl a allai godi. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst tuag allan. Bydd hynny yn ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le.
- Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y ffens am fod hyn yn annhebygol o atal anifeiliaid rhag pwyso drosodd, a bydd yn anos ichi fynd i mewn i'r 'clos' i drin y goeden. At hynny gall weiren bigog eich anafu chi a'ch da byw.
- At hynny gellir gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu.
- Dim ond mewn parcdiroedd lle mai defaid yw'r unig dda byw y mae 'clos' trionglog yn dderbyniol. Dylai 'clos' or' fath fod o leiaf 1m o'r goeden ac o leiaf 0.8m o led ar bob un o'r tair ochr. Mae'n bwysig cofio y bydd angen efallai lledu'r giard wrth i'r goeden dyfu.
- Mathau traddodiadol o giardiau yw'r rhain a chânt eu defnyddio mewn hen barcdiroedd. Mae'n bwysig eich bod yn eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r goeden yn tyfu i mewn i'r gwaith metel ac anffurfio. Câi giardiau o'r fath eu gwneud o haearn gyr yn wreiddiol ond erbyn hyn maent ar gael mewn dur meddal.


Enghraifft o Giardiau Rhag Stoc

1. Giard Postyn a Rheilen






a) Yn addas i'w ddefnyddio gyda defaid




b) Yn addas i'w ddefnyddio gyda cheffylau a gwartheg


3. Mathau Metel Traddodiadol





2. Giard Coed Trionglog





Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)
Cod yr Eitem: L014

Cyfradd Talu: £2.21 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Nid oes angen amddiffyn coed a llwyni newydd eu plannu oni bai bod perygl i anifeiliaid neu beiriannau eu niweidio. Y ffordd rataf o amddiffyn grwpiau o goed a llwyni rhag peiriannau neu anifeiliaid mawr yw trwy godi ffens o'u hamgylch a gosod llewys coed sbeiral i'w hamddiffyn rhag cwningod ac ysgyfarnogod.

Defnyddiwch gysgod coed unigol a physt lle byddai ffens hir yn hyll e.e. mewn parcdir.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Gosodwch bostyn yn fertigol i'r pridd wrth ymyl pob coeden newydd ei phlannu. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored.
- Rhaid cysylltu pob cysgod coed â phostyn gan ddefnyddio weiren neu glipiau plastig.
- Gofalwch nad yw'r postyn yn dalach na'r cysgod.

Peidiwch â:
- Gadael i chwyn dyfu y tu mewn y cysgodion.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Mae cysgodion coed i amddiffyn coed ifanc yn diwbiau plastig lled dryloyw hyd at 2m o uchder gyda diamedr o hyd at 12cm. Maen nhw wedi'u gwneud o bolypropylene. ymyl ddwbl.
- Fe ddylai'r cysgod gynnal ac amddiffyn y goeden am tua 5–10 mlynedd cyn pydru.
- Er eu bod ar gael mewn amrywiaeth o liwiau, nid oes gwahaniaeth rhyngddynt o ran eu heffaith ar dyfiant y coed. Wrth blannu o dan goed sydd wedi cydio, lle bydd llai o oleuni, mae hi fel arfer yn well defnyddio tiwbiau tryloyw clir.
- Mae angen i'r cysgod fod yn uwch nag uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod i 2m ar gyfer iyrchod. Gall defaid bori hyd at 1.2m–1.5m o uchder.
- Mae'n hanfodol cael gwared â chwyn o amgylch y goeden ac yn y tiwb gan fod chwyn yn cystadlu am faeth a goleuni. Rhaid chwynnu o amgylch coed mewn cysgod coed yn ystod 2-3 blynedd gyntaf eu bywydau. Rhaid tynnu'r chwyn sy'n tyfu y tu mewn i'r cysgod coed hefyd. Gellir gwneud hyn drwy godi'r cysgod ychydig a thynnu'r chwyn yn ofalus allan o'r tiwb â llaw.
- Os oes planhigion wedi dod yn rhydd neu wedi'u codi'n rhannol gan wynt a rhew, dylech eu sathru yn ofalus yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y gwaith ffensio, y llewys coed, pyst a chlymau coed (cofiwch eu llacio rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a rhwystro coed rhag tyfu trwy gysgodion coed a rhwystro'r cysgodion rhag eu crafu.

Coed – Hirgyff
Cod yr Eitem: L015

Cyfradd Talu: £24.35 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Coed – Hirgyff' (dim ffensio). Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â buddiannau i natur a'r dirwedd. Trwy dyfu coed, codir carbon deuocsid o'r atmosffer (mae hynny'n cael effaith bositif ar hinsawdd sy'n newid) a chodir llawer o ddŵr gan leihau swm y ddŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Plannwch blanhigion cryf, o leiaf 1.8m o daldra.
- Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.
- Rhaid defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac o ddewis, o stoc Planhigion Iach i sicrhau bioddiogelwch

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd oherwydd clefyd y coed ynn (Hymenoscyphus fraxinea).
- Gadael i beiriannau nac anifeiliaid pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt) niweidio'r coed.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gallwch sefydlu coed bob yn un neu mewn perth (gwrych) newydd, yn ddelfrydol bob yn 50m – 100m.
- Rhaid amddiffyn coed hirgyff rhag eu brigbori trwy ddefnyddio cysgod coed (gweler L014 Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn) a rhaid plannu'r goeden o fewn y berth rydych newydd ei chreu.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffynfa rhag llifogydd. Gofalwch hefyd fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd, neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd, a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.
- Mae'r tymor plannu'n rhedeg fel arfer o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: Hydref i Fis Rhagfyr a mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.
- Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Ar fannau agored sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

- Archebwch gymaint ag y medrwch ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siwr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr ddod â'r planhigion ichi cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa sydd wedi ennill ei phlwyf gan y bydd ganddi enw da i'w chadw a dylai'r costau cludiant fod yn is. Hefyd, dim ond am ychydig y bydd y planhigion allan o'r pridd.
- Os medrwch, prynwch blanhigion sydd wedi'u tyfu o hadau a thoriadau lleol gan y gwnân nhw'n well o dan amodau lleol ac maen nhw'n fwy gwerthfawr i anifeiliaid gwyllt na phlanhigion o bell.
- Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn ichi allu gwneud yn siwr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er na fydd oerfel yn debygol o'u niweidio, gall haul cynnes ac unrhyw beth all eu sychu fel gwynt wneud difrod mawr a'u lladd.
- Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys mamaliaid bach.
- Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld ar ddiwedd y nodiadau plannu coed. Mae arfau mwy arbenigol ar gael os ydych yn plannu llawer o goed.
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw coed i sicrhau eu bod yn goroesi ac yn tyfu'n iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. O roi mwlts ar y pridd, efallai na fydd angen dyfrhau mor aml.
- Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd eu chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod hefyd). Bydd mwlts trwchus o sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth neu defnyddiwch shîten bolythene ddu (500-gauge) a'i rhoi'n sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwch y borfa ac unrhyw dyfiant arall sy'n tyfu uwchben y gwreiddiau.
- Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Codwch chwyn â llaw neu defnyddiwch chwynladdwr i ladd porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen. Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label.
- Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn giardiau coed.

Am restr lawn o goed brodorol Cymru, darllenwch *Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs* gan Forest Research (parthau 303 a 304).


Coed a Llwyni Brodorol addas a gynigir ar gyfer eu Plannu			
Aethnen	Bedwen (Llwyd ac Arian)	Celynnen	Coeden Geirios (adar a du)
Collen	Crabas	Criafolen	Derwen (ddi-goes a choesiog)
Draenen ddu	Draenen Wen	Ffawydden	Gwernen
Gwifwrnwydden y Gors	Helygen	Masarnen fach	Pinwydden yr Alban
Pisgwydden (dail mawrion a dail bach)	Piswydden	Poplysen Ddu	Poplysen wen

Rhosyn gwyllt	Ysgawen	Ywen	

Y pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw


1. Plannu mewn Twll

Ar gyfer planhigion mawr neu sydd â gwreiddiau swmpus.




2. Plannu dan dywarchen

Ar gyfer safleoedd gwlyb â phridd




3. Plannu mewn hollt

Ar gyfer planhigion llai â gwreiddiau tynn



4. Plannu ar dwmpath



Coed a Llwyni – Trawsblannu
Cod yr Eitem: L016

Cyfradd Talu: £2.03 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Coed – Trawsblannu'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â buddiannau i natur a'r dirwedd. Trwy dyfu coed, codir carbon deuocsid o'r atmosffer (mae hynny'n cael effaith bositif ar hinsawdd sy'n newid) a chodir llawer o ddŵr gan leihau swm y dŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio i afonydd.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Plannwch blanhigion cryf, o leiaf 50cm o daldra.
- Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.
- Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac o ddewis, o stoc Planhigion Iach at ddibenion bioddiogelwch.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd oherwydd clefyd y coed ynn (Hymenoscyphus fraxinea).
- Gadael i beiriannau nac anifeiliaid pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt) niweidio'r coed.


Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gallwch blannu coed bob yn un neu mewn grwpiau
- Os ydych yn plannu coed mewn grwpiau, rhaid eu plannu yn unol â dwysedd o 400 i 2500 o goed yr hectar. Mewn unrhyw gae, peidiwch â phlannu grŵp o goed mewn llain sy'n lletach na 10m o led. Cymerir y terfyn o 10m o linell y ffens ar y map i ffin y cae ar y map. Gall gynnwys ffin cae sy'n bod eisoes, fel perth/gwrych, felly efallai y bydd yn rhaid cynnwys hwnnw yn y 10m o led.. Rhaid amddiffyn y coed rhag cwningod trwy ddefnyddio llewys neu diwbiau coed a rhaid codi ffens o gwmpas y llain i amddiffyn y coed rhag da byw.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffynfa rhag llifogydd. Gofalwch hefyd fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd, neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd, a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Mae coed i'w trawsblannu yn blanhigion cryf 1-2 blwydd oed gyda chyfran dda'n wreiddiau o'u cymharu â'r egin. Bydd hynny'n eu helpu i oroesi, yn enwedig mewn pridd llwm ac ar safle agored. Byddant yn fwy na'r coed chwip ymhen rhai blynyddoedd gan gynhyrchu coed iachach a mwy siapus.
- Rhaid eu hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid.
- Rhaid wrth gryn ofal arnynt yn y blynyddoedd cyntaf. Maen nhw dipyn rhatach na choed chwip a hirgyff a gallwch brynu lawer ar y tro.

- Lle y bo'n bosibl, ni ddylai unrhyw goed na llwyni gael eu plannu o fewn 15 metr i byllau. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y coed yn bwrw cysgod dros arwyneb y pwll wrth iddynt dyfu. Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.
- Mae'r tymor plannu'n rhedeg fel arfer o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: Hydref i Fis Rhagfyr a mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.
- Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Ar fannau agored sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.
- Archebwch gymaint ag y medrwch ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr ddod â'r planhigion ichi cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa sydd wedi ennill ei phlwyf gan y dylai'r costau cludiant fod yn is. Hefyd, dim ond am ychydig y bydd y planhigion allan o'r pridd.
- Os medrwch, prynwch blanhigion sydd wedi'u tyfu o hadau a thoriadau lleol gan y gwnân nhw'n well o dan amodau lleol ac mae'n fwy gwerthfawr i anifeiliaid gwyllt na phlanhigion o bell.
- Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn ichi allu gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er na fydd oerfel yn debygol o'u niweidio, gall haul cynnes ac unrhyw beth all eu sychu fel gwynt wneud difrod mawr a'u lladd.
- Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, yn enwedig mamaliaid bach.
- Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld yn y nodyn hwn. Mae arfau mwy arbenigol ar gael os ydych yn plannu llawer o goed.
- Defnyddiwch giardiau coed a physt unigol os byddai ffens yn rhy ddrud neu'n rhy hyll, fel o gwmpas coed unigol gwasgarog ar dir parc, neu lle gallai peiriannau eu niweidio.
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw coed i sicrhau eu bod yn goroesi ac yn tyfu'n iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. O roi mwlts ar y pridd, efallai na fydd angen dyfrhau mor aml.
- Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd eu chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod hefyd). Bydd mwlts trwchus o sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth neu defnyddiwch shîten bolythene ddu (500-gauge) a'i rhoi'n sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwch y borfa ac unrhyw dyfiant arall sy'n tyfu uwchben y gwreiddiau.
- Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Codwch chwyn â llaw neu defnyddiwch chwynladdwr i ladd porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen. Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label.
- Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn giardiau coed.

Coed a Llwyni Brodorol addas a gynigir ar gyfer eu Plannu			
Aethnen	Bedwen (Llwyd ac Arian)	Celynnen	Coeden Geirios (adar a du)

Collen	Crabas	Criafolen	Derwen (ddi-goes a choesiog)
Draenen ddu	Draenen Wen	Ffawydden	Gwernen
Gwifwrnwydden y Gors	Helygen	Masarnen fach	Pinwydden yr Alban
Pisgwydden (dail mawrion a dail bach)	Piswydden	Poplysen Ddu	Poplysen wen
Rhosyn gwyllt	Ysgawen	Ywen	

Am restr o goed brodorol Cymru, darllenwch Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs *gan Forest Research (parthau 303 a 304 sy'n berthnasol).*



Coed a Llwyni – Coed Chwip
Cod yr Eitem: L017

Cyfradd Talu: £6.32 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Coed a Llwyni – Coed Chwip'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â buddiannau i natur a'r dirwedd. Trwy dyfu coed, codir carbon deuocsid o'r atmosffer (mae hynny'n cael effaith bositif ar hinsawdd sy'n newid) a chodir llawer o ddŵr gan leihau swm y dŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Plannwch blanhigion cryf, o leiaf 1m o daldra.
- Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.
- Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac o ddewis, o stoc Planhigion Iach at ddibenion bioddiogelwch.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd oherwydd clefyd y coed ynn (chalara fraxinea).
- Gadael i beiriannau nac anifeiliaid pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt) niweidio'r coed).

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gallwch sefydlu coed bob yn un neu mewn grwpiau.
- Os ydych yn plannu coed mewn grwpiau, rhaid plannu 400 i 2500 o goed fesul hectar. Mewn unrhyw gae, peidiwch â phlannu grŵp o goed mewn llain sy'n lletach na 10m o led. Cymerir y terfyn o 10m o linell y ffens ar y map i ffin y cae ar y map. Gall gynnwys ffin cae sy'n bod eisoes, fel perth/gwrych, felly efallai y bydd yn rhaid cynnwys hwnnw yn y 10m o led. Rhaid amddiffyn y coed rhag cwningod trwy ddefnyddio llewys neu diwbiau coed a rhaid codi ffens o gwmpas y llain i amddiffyn y coed rhag da byw.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffynfa rhag llifogydd. Gofalwch hefyd fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd, neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd, a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.
- Os ydy gweithgareddau Ffermio Bro yn cynnwys gosod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau'ch bod yn cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Defnyddir coed chwip i blannu coed unigol ac fel coed perthi – coed 1m neu fwy o daldra ond heb fawr o ganghennau. Dylid eu defnyddio ambell waith o dan amgylchiadau arbennig.
- Er eu bod yn ddrutach a gwannach na choed i'w trawsblannu, maen nhw'n rhatach ac yn cydio'n rhwyddach na choed hirgyff (standards).
- Er eu bod yn ddigon byr fel nad oes angen pyst a rhwymau i'w cynnal, maen nhw'n ddigon tal fel bod yr egin yn rhy uchel i ysgyfarnogod eu cyrraedd ac maen nhw'n haws eu hamddiffyn rhag cwningod. Nid yw hi mor angenrheidiol chwynnu o'u cwmpas ond bydd angen eu hamddiffyn rhag anifeiliaid mwy a pheiriannau.

- Lle y bo'n bosibl, ni ddylai unrhyw goed na llwyni gael eu plannu o fewn 15 metr i
- byllau. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y coed yn bwrw cysgod dros arwyneb y pwll wrth iddynt dyfu. Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.
- Mae'r tymor plannu'n rhedeg fel arfer o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: Hydref i Fis Rhagfyr a mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.
- Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Ar fannau agored sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.
- Archebwch gymaint ag y medrwch ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr ddod â'r planhigion ichi cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa sydd wedi ennill ei phlwyf gan y bydd ganddi enw da i'w chadw a dylai'r costau cludiant fod yn is. Hefyd, dim ond am ychydig y bydd y planhigion allan o'r pridd.
- Os medrwch, prynwch blanhigion sydd wedi'u tyfu o hadau a thoriadau lleol gan, y gwnân nhw'n well o dan amodau lleol ac maen nhw'n fwy gwerthfawr i anifeiliaid gwyllt na phlanhigion o bell.
- Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn ichi allu gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er na fydd oerfel yn debygol o'u niweidio, gall haul cynnes ac unrhyw beth all eu sychu fel gwynt wneud difrod mawr a'u lladd.
- Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys mamaliaid bach.
- Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld ar ddiwedd y nodiadau plannu coed. Mae arfau mwy arbenigol ar gael os ydych yn plannu llawer o goed.
- Defnyddiwch giardiau coed a physt unigol os byddai ffens yn rhy ddrud neu'n rhy hyll, fel o gwmpas coed unigol gwasgarog ar dir parc, neu lle gallai peiriannau eu niweidio.
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw coed i sicrhau eu bod yn goroesi ac yn tyfu'n iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. O roi mwlts ar y pridd, efallai na fydd angen dyfrhau mor aml.
- Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd eu chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod hefyd). Bydd mwlts trwchus o sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth neu defnyddiwch shîten bolythene ddu (500-gauge) a'i rhoi'n sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwch y borfa ac unrhyw dyfiant arall sy'n tyfu uwchben y gwreiddiau.
- Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Codwch chwyn â llaw neu defnyddiwch chwynladdwr i ladd porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen.
- Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label.
- Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn giardiau coed.

Coed a Llwyni Brodorol addas a gynigir ar gyfer eu Plannu


Aethnen	Bedwen (Llwyd ac Arian)	Celynnen	Coeden Geirios (adar a du)
Collen	Crabas	Criafolen	Derwen (ddi-goes a choesiog)
Draenen ddu	Draenen Wen	Ffawydden	Gwernen
Gwifwrnwydden y Gors	Helygen	Masarnen fach	Pinwydden yr Alban
Pisgwydden (dail mawrion a dail bach)	Piswydden	Poplysen Ddu	Poplysen wen
Rhosyn gwyllt	Ysgawen	Ywen	

Am restr o goed brodorol Cymru, darllenwch Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs *gan Forest Research (parthau 303 a 304 sy'n berthnasol)*

Y pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw


1. Plannu mewn Twll

Ar gyfer planhigion mawr neu sydd â gwreiddiau swmpus.




2. Plannu dan dywarchen

Ar gyfer safleoedd gwlyb â phridd




3. Plannu mewn hollt

Ar gyfer planhigion llai â gwreiddiau tynn



4. Plannu ar dwmpath



Plannu Llafnau
Cod yr Eitem: L018

Cyfradd Talu: £6.94 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Plannu llafnau (plannu heb ffens)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Datblygwyd y dull arloesol hwn gan elusen leol annibynnol o'r enw 'Bugeiliaid y Coed'. Mae'n efelychu'r ffordd y mae coed sydd wedi hunan-hau yn gwreiddio'n naturiol ar ffermdir pori.

Gallwch 'lafn blannu' coed dros un metr o uchder yn berpendicwlar i dir serth (yn hytrach na phwyntio i fyny) fel na fydd modd i ddefaid na gwartheg sy'n pori gyrraedd y prif flagur. Mae i goed o'r fath broffil 'siâp tro' a gallwch eu gweld yn tyfu yn y rhan fwyaf o gymoedd Cymru.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Plannwch blanhigion cryf, o leiaf 1m o uchder.
- Plannwch nhw ar ongl berpendicwlar i rediad tir serth.
- Plannwch rywogaethau brodorol yn unig, fel y rhai yn y tabl isod.
- Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac o ddewis, o stoc Planhigion Iach at ddibenion bioddiogelwch.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd oherwydd clefyd y coed ynn (chalarafraxinea).

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gallwch blannu coed yng nghanol eithin.
- Mae tir serth a thoredig lle mae rhedyn yn tyfu yn ddelfrydol i 'Lafn Blannu' coed.
- Mae dulliau eraill o blannu heb ffens yn cynnwys plannu coed 1.5 – 2 m.
- Lle y bo'n bosibl, ni ddylai unrhyw goed na llwyni gael eu plannu o fewn 15 metr i byllau. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y coed yn bwrw cysgod dros arwyneb y pwll wrth iddynt dyfu. Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.
- Mae'r tymor plannu'n rhedeg fel arfer o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol,
- mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: Hydref i Fis Rhagfyr a mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.
- Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Ar fannau agored sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.
- Archebwch gymaint ag y medrwch ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr ddod â'r planhigion ichi cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa sydd wedi ennill ei phlwyf gan y bydd ganddi enw da i'w chadw a dylai'r costau cludiant fod yn is. Hefyd, dim ond am ychydig y bydd y planhigion allan o'r pridd.
- Os medrwch, prynwch blanhigion sydd wedi'u tyfu o hadau a thoriadau lleol gan y gwnân nhw'n well o dan amodau lleol ac maen nhw'n fwy gwerthfawr i anifeiliaid gwyllt na phlanhigion o bell.
- Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn ichi allu gwneud yn siwr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael

niwed neu sychu. Er na fydd oerfel yn debygol o'u niweidio, gall haul cynnes ac unrhyw beth all eu sychu fel gwynt y dwyrain wneud difrod mawr a'u lladd.


- Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys cwningod ac ysgyfarnogod.

Coed a Llwyni Brodorol addas a gynigir ar gyfer eu Plannu			
Aethnen	Bedwen (Llwyd ac Arian)	Celynnen	Coeden Geirios (adar a du)
Collen	Crabas	Criafolen	Derwen (ddi-goes a choesiog)
Draenen ddu	Draenen Wen	Ffawydden	Gwernen
Gwifwrnwydden y Gors	Helygen	Masarnen fach	Pinwydden yr Alban
Pisgwydden (dail mawrion a dail bach)	Piswydden	Poplysen Ddu	Poplysen wen
Rhosyn gwyllt	Ysgawen	Ywen	

Am restr o goed brodorol Cymru, darllenwch Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs *gan Forest Research (parthau 303 a 304 sy'n berthnasol)*

Enghreifftiau o goed wedi'u llafn blannu

Coeden aeddfed sydd wedi hunan-hau



Coeden ifanc sydd wedi'i llafn blannu



Llewys Coed Rhag Cwningod
Cod yr Eitem: L019

Cyfradd Talu: £0.58 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Llewys Coed rhag Cwningod'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Llewys coed sbeiral yw'r ffordd fwyaf cyffredin o amddiffyn coed rhag cwningod a llygod.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Gofalwch fod pob llawes goed sbeiral yn cael ei chynnal gan wialen bambwˆ.
  Peidiwch â:
- Defnyddio llawes sy'n dalach na'r goeden y mae'n ei hamddiffyn adeg ei phlannu.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Mae llewys cwningod sbeiral wedi'u gwneud o blastig ac ar gael mewn tri maint (45cm, 60cm a 75cm).
- Yn ddelfrydol, dylech wthio'r wialen bambŵ i'r ddaear wrth ochr y goeden. Yna weindiwch y deunydd plastig o amgylch y goeden a'r wialen er mwyn cadw mamaliaid bach allan.

Plannu Perth/Gwrych Newydd
Cod yr Eitem: L020

Cyfradd Talu: £9.39/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Plannu Perth/Gwrych" newydd. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Dylech ddefnyddio cymysgedd o goed a llwyni brodorol sy'n cynnwys o leiaf tair rhywogaeth perth, ond ni ddylai'r un rhywogaeth gyfrif am fwy na 75% o'r cyfanswm.
- Plannwch blanhigion perth sydd o leiaf 45-60cm o uchder a dylai fod ganddynt egin tyfu cryf.
- Dylech blannu 7 planhigyn bob metr mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng pob rhes.
- Gofalwch nad oes chwyn yn tagu'r planhigion newydd.
- Diogelwch berthi newydd eu plannu rhag da byw.
- Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.
- Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r planhigion newydd.
- Gofalwch fod y berth yn gallu tyfu at 3m o led. Gofalwch fod o leiaf 3m o fwlch rhwng y ddwy ffens. Os ydych yn plannu perth wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.
- Gofalwch eich bod yn cael caniatâd eich cymydog i osod y ffens ar ei dir os ydych yn plannu perth newydd ar y ffin rhyngoch.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (Hymenoscyphus fraxinea).
- Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.
- Niweidio unrhyw glawdd hanesyddol wrth baratoi'r pridd, plannu na ffensio.

Gofynion a chyngor ychwanegol, yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffynfa rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Rhowch y cyfle gorau iddynt oroesi trwy blannu planhigion newydd yn y berth ym misoedd y gaeaf o fis Tachwedd tan fis Mawrth. Cadwch beli gwreiddiau'n llaith cyn eu plannu, a'u dyfrhau'n drylwyr mewn cyfnodau sych nes eu bod yn cydio.
- Dewiswch blanhigion sydd â gwreiddiau datblygedig. Argymhellir planhigion 3-4 oed.
- Paratowch y pridd trwy naill ai trwy ei rotofatio neu ei balu yn ystod yr haf blaenorol. Peidiwch â difrodi cloddiau hanesyddol wrth baratoi'r pridd felly palwch â llaw.
- Os ydych yn plannu planhigion perth ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru.

- Plannwch fathau o goed brodorol sy'n gyffredin yn eich ardal chi os medrwch. Os medrwch, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi ac i gynnal mwy o anifeiliaid brodorol.
- Gallwch reoli chwyn trwy ddefnyddio mwlts o sglodion coed neu drwy osod shîten o bolythene du (500-gauge), 1-2m o led wrth fôn y planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio cemegau i ladd porfa, ysgall, dail tafol a llysiau'r gingroen.
- Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label wrth ei ddefnyddio.
- I annog tyfiant newydd, dylech drimio'r planhigion rydych yn eu trawsblannu.
- Sefydlwch o leiaf 1 – 2 o goed perthi bob 100m. Naill ai plannwch goed ifanc (o leiaf 1m o daldra) neu gadwch goed ifanc yn y berth all datblygu'n goed. Byddai'n beth doeth ichi dagio'r goeden gan y bydd hynny'n eich helpu i'w hosgoi pan fyddwch yn tocio'r berth. Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.
- Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

Bondocio Perthi/Gwrychoedd a Chau Bylchau
Cod yr Eitem: L021

Cyfradd Talu: £8.82/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Bondocio Perthi/Gwrychoedd a Chau Bylchau'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.
Pwysig: nid yw defnyddio peiriant ffustio i docio perth/gwrych yn bodloni'r gofyn yn y fanyleb dechnegol o ran bondocio perth at y lefel a nodir isod. Byddwn yn gwrthod prosiectau Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau os mai'r cyfan rydych wedi'i wneud yw torri'r berth yn ôl ychydig.

Bondocio
Peidiwch â bondocio unrhyw berthi heblaw am berthi traddodiadol. Ni ddylech fondocio llinellau o goed, fel coed sy'n tyfu ar lan afon. Mae gwaith bondocio'n cael ei wneud fel arfer pan fydd coesyn mewn perth/gwrych yn rhy lydan (mwy na 10cm o led) ichi allu ei phlygu'n iawn. Weithiau, bydd y bonion mor drwchus, bydd yn rhaid ichi gael Trwydded Gwympo'r Comisiwn Coedwigaeth. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr a oes angen neu beidio.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Bondociwch y berth hyd at 7.5cm neu lai o'r llawr a gadael i'r coesyn ailegino.
- Cadwch bob coeden fawr aeddfed, yn enwedig y rheini sydd â thyllau, holltau, craciau neu sydd o dan drwch o iorwg gan eu bod yn cynnig mannau clwydo i ystlumod.
- Plannwch gymysgedd o o leiaf tair rhywogaeth o goed a llwyni brodorol. Ni ddylai unrhyw elfen o'r gymysgedd fod yn fwy na 75% o'r cyfanswm.
- Plannwch blanhigion perth sydd o leiaf 45-60cm o uchder ac sydd ag egin tyfu cryf.
- Plannwch 7 planhigyn bob metr mewn rhes ddwbl am yn ail, gydag 20cm rhwng pob rhes.
- Gofalwch nad oes chwyn yn tagu'r planhigion newydd.
- Diogelwch berthi newydd eu plannu rhag da byw.
- Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.
- Gofalwch eich bod yn tynnu unrhyw hen weiren neu ddarnau o ffens.
- Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r planhigion newydd.
- Gofalwch fod y berth yn gallu tyfu at 3m o led. Gofalwch fod o leiaf 3m o fwlch rhwng y ddwy ffens. Os ydych yn bondocio perth sydd wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.
- Gofalwch eich bod yn cael caniatâd eich cymydog i osod y ffens ar ei dir os ydych yn plannu perth newydd ar y ffin rhyngoch.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (Hymenoscyphus fraxinea), naill ai ar gyfer coetir neu wrth sefydlu neu adfer perth.
- Achosi niwed i glawdd wrth baratoi'r pridd, plannu neu ffensio.
- Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Gan ddibynnu faint o goed y bydd gofyn ichi eu cwympo, efallai y bydd angen ichi ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded gwympo.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych

y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Gofalwch eich bod yn cynnal gwaith adfer y berth rhwng y dyddiadau a ganiateir gan y Rheolau Trawsgydymffurfio.
- Byddai cyfyngu'r dyddiadau adfer perthi ymhellach i fisoedd Tachwedd-Mawrth yn gwneud hyd yn oed mwy o les i fywyd gwyllt fel pathewod.
- Rhowch y cyfle gorau iddynt oroesi trwy blannu planhigion newydd yn y berth ym misoedd y gaeaf o fis Tachwedd tan fis Mawrth. Cadwch beli gwreiddiau'n llaith cyn eu plannu, a'u dyfrhau'n drylwyr mewn cyfnodau sych nes eu bod yn cydio.
- Byddai ychwanegu 1 metr at y bôn rhwng y berth a'r ffens (yn ychwanegol at y 3 metr gofynnol) yn creu cynefin ychwanegol i fywyd gwyllt.
- Defnyddiwch yr amrywiaeth ehangach o rywogaethau er mwyn creu'r dewis mwyaf o fwyd i anifeiliaid gwyllt.
- Dewiswch blanhigion sydd â gwreiddiau datblygedig. Argymhellir planhigion 3 – 4 oed.
- Mae'r gelynnen a'r ddraenen ddu'n blanhigion addas. Paratowch y pridd trwy naill ai ei rotofatio neu ei balu yn ystod yr haf blaenorol. Peidiwch â difrodi cloddiau hanesyddol wrth baratoi'r pridd felly palwch â llaw.
- Os ydych yn plannu planhigion perth ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru.
- Plannwch fathau o goed brodorol sy'n gyffredin yn eich ardal chi os medrwch. Os medrwch, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi ac i gynnal mwy o anifeiliaid brodorol.
- Ni ddylai'r un rhywogaeth yn y cymysgedd gyfrif am fwy na 75% o'r cyfanswm.
- Mewn perthi sydd heb eu bondocio o'r blaen, cliriwch unrhyw lystyfiant o'r bylchau a thorri'r berth yn ôl er mwyn caniatáu tyfiant iach bob ochr iddi.
- Gallwch reoli chwyn trwy ddefnyddio mwlts o sglodion coed neu drwy osod shîten o bolythene du (500-gauge), 1-2m o led wrth fôn y planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio cemegau i ladd porfa, ysgall, dail tafol a llysiau'r gingroen. Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label wrth ei ddefnyddio.
- I annog tyfiant newydd, dylech drimio'r planhigion rydych yn eu trawsblannu.
- Sefydlwch o leiaf 1 – 2 o goed perthi bob 100m. Naill ai plannwch goed ifanc (o leiaf 1m o daldra) neu gadwch goed ifanc yn y berth all datblygu'n goed. Byddai'n beth doeth ichi dagio'r goeden gan y bydd hynny'n eich helpu i'w hosgoi pan fyddwch yn tocio'r berth. Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.
- Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.
- Dylech gadw pob coeden fawr ac aeddfed wrth ymgymryd â gwaith adfer perthi, ac yn arbennig os gall y gwaith ddarparu safleoedd clwydo ar gyfer ystlumod.
- Lle y mae gofyn gwneud gwaith i goeden lle gwyddoch fod ystlumod yn clwydo yno (un ai oherwydd eich bod yn gwybod bod ystlumod yno neu lle y mae arwyddion pendant bod ystlumod yn ei defnyddio), mae'n rhaid cael trwydded Rheoliadau Cynefinoedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Plygu Perth/Gwrych
Cod yr Eitem: L022

Cyfradd Talu: £15.38/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Plygu Perth/Gwrych'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod yn tynnu unrhyw hen weiren neu ddarnau o ffens.
- Plygwch y berth trwy led-dorri coesynnau coed yn agos at eu bôn ar ongl o ryw 30°.
- Plygwch y coesynnau hyn mor agos at y llawr ag y medrwch, a'u rhwymo yn eu lle.
- Wrth adfer perth, cadwch bob coeden fawr aeddfed, yn enwedig y rheini sydd â thyllau, holltau, craciau neu sydd o dan drwch o iorwg gan eu bod yn cynnig mannau clwydo i ystlumod.
- Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r gwaith plannu newydd.
- Rhaid i'r berth dal allu tyfu hyd at 3m o led. Gofalwch fod o leiaf 3m o fwlch rhwng y ddwy ffens. Os ydych yn plannu perth sydd wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.
- Rhaid sicrhau bod lled gyfan y berth yn cael ei phlygu. Os yw rhan o led y berth yn perthyn i rywun arall, ni ddylech gynnwys y berth hon oni bai'ch bod wedi cael caniatâd ysgrifenedig eich cymydog.
- Gofalwch eich bod yn cael caniatâd eich cymydog i osod y ffens ar ei dir os ydych yn plannu perth newydd ar y ffin rhyngoch.


Peidiwch â:

- Defnyddio weiren na chordyn bêls i glymu'r pyst na'r brigau wedi'u torri.
- Plannu coed ynn fel rhan o gymysgedd plannu oherwydd clefyd y coed ynn (Hymenoscyphus Fraxinea) mewn coedlan nag wrth sefydlu neu adfer perth.
- Niweidio cloddiau wrth baratoi'r tir ar gyfer plannu neu ffensio.
- Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Gan ddibynnu faint o goed y bydd gofyn ichi eu cwympo, efallai y bydd angen ichi ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded gwympo.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

- Gofalwch eich bod yn cynnal gwaith adfer y berth rhwng y dyddiadau a ganiateir gan y Rheolau Trawsgydymffurfio.
- Byddai cyfyngu'r dyddiadau adfer perthi ymhellach i fisoedd Tachwedd-Mawrth yn gwneud hyd yn oed mwy o les i fywyd gwyllt fel pathewod.
- Dylai'r coesynnau a blygir fod rhyw 5 – 10cm o drwch yn eu bôn a 2.5 – 3.5m o hyd. Dylech ystyried bondocio unrhyw beth mwy na hynny.
- Byddai ychwanegu 1 metr at y bôn rhwng y berth a'r ffens (yn ychwanegol at y 3 metr gofynnol) yn creu cynefin ychwanegol i fywyd gwyllt.
- Os ydych yn plannu bylchau, defnyddiwch yr amrywiaeth ehangach o rywogaethau er mwyn creu'r dewis mwyaf o fwyd i anifeiliaid gwyllt.
- Yr amser gorau ar gyfer plygu perth yw misoedd y gaeaf, rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth.
- Lle medrwch, dylech ddilyn y dulliau a'r arferion sy'n draddodiadol yn eich ardal chi.
- Er lles bioamrywiaeth, torrwch dim ond cymaint o goed ysgaw ag sy'n angenrheidiol a thorrwch unrhyw fieri a thyfiant dringo arall allai amharu ar y gwaith plygu.
- Plygwch y berth am i fyny'r llethr ac i'r un cyfeiriad os medrwch.
- Cadwch unrhyw goed ynn os medrwch.
- Dylech gadw pob coeden fawr ac aeddfed wrth ymgymryd â gwaith adfer perthi, ac yn arbennig os gall y gwaith ddarparu safleoedd clwydo ar gyfer ystlumod.
- Lle y mae gofyn gwneud gwaith i goeden lle gwyddoch fod ystlumod yn clwydo yno (un ai oherwydd eich bod yn gwybod bod ystlumod yno neu lle y mae arwyddion pendant bod ystlumod yn ei defnyddio), mae'n rhaid cael trwydded Rheoliadau Cynefinoedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.



Trawsddraeniau
Cod yr Eitem: L023

Cyfradd Talu: £178.20/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Trawsddraeniau'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Pwrpas trawsddraen yw gwahanu dŵr glân a dŵr brwnt ar fuarth a thraciau fferm. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru wrth i ddwˆr lifo iddynt oddi ar dir amaethyddol, gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy ddal dŵr glân at ei ddefnyddio wedyn a'i rwystro rhag llifo i ddŵr brwnt/budr ar fuarth y fferm, bydd llif y dŵr brwnt yn haws ei reoli a'i ddal ichi allu delio ag e' yn ôl y gofyn.

Gallwch ddefnyddio trawsddraen i ddal y dŵr glân ar draciau a buarthau glân sydd uwchlaw buarthau/traciau brwnt/budr. Gall y dŵr glân hwn gael ei sianelu i ffos, pant neu drap gwaddodion. Neu gallwch ddefnyddio'r trawsddraen i ddal y dŵr brwnt islaw'r buarth/trac. Rhaid sianelu'r dwˆr brwnt i storfa slyri addas. Mae'n hawdd clirio unrhyw silt a baw all fod wedi crynhoi yn ffos agored y trawsddraen. Peidiwch â gadael i ddŵr brwnt lifo i gyrsiau dŵr neu dir.

Os ydych yn gosod trawsddraen ar fuarth i ddal dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Opsiwn 901 Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw ac Opsiwn 911 Nwyddau Dwˆr Glaw – Pibellau Glaw.


Cewch wneud cais am nifer o drawsddraeniau ar gyfer traciau/buarthau llydan neu am nifer o haenau o drawsddraeniau ar draws traciau y mae llawer o ddŵr yn llifo ar eu traws.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Gosodwch drawsddraeniau sydd wedi'u hadeiladu at y pwrpas ac y gellir clirio unrhyw sbwriel oddi arnyn nhw ac sy'n gallu cynnal peiriannau araf trwm.
- Gofalwch fod trawsddraeniau wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.
- Dylai'r gwaith concrit gael ei wneud yn unol â'r Safonau Prydeinig BS 8000 a BS 8500 perthnasol, fel y'u diwygiwyd.
- Gofalwch fod dŵr glân o'r trawsddraen yn cael ei sianelu at allanfa ddraenio sefydlog fel ffos, pant neu drap gwaddodion.
- Gofalwch fod dŵr brwnt (budr) yn cael ei ddargyfeirio i storfa slyri addas.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

Sut i osod trawsddraen – yr arfer gorau
Bydd y gwaith yn cynnwys prynu a gosod system drawsddraenio gyda gratin. Dylai'r sianel allu cynnal pwysau peiriant trwm araf, a dylai fod yn hawdd ei gadw'n glir a glân.
- Palwch ffos ar draws y trac neu ar hyd rhan o'r buarth, at ddyfnder a lled sy'n ddigon ar gyfer gosod gwely ac ochrau o goncrit.
- Gofalwch fod y ffos yn llifo i bant neu ffos addas.

- Gofalwch fod gwely'r ffos yn goleddfu at yr allanfa, ac yn ddigon dwf ar gyfer y sianel.
- Gofalwch fod unrhyw saethau ar ochr y sianel yn pwyntio tuag at yr arllwysfa, hy cyfeiriad y llif.
- Gosodwch y lefelau a rhowch y sianeli i orwedd wrth ochr y ffos, gan weithio o geg yr arllwysfa bob tro.
- Gan gychwyn wrth yr arllwysfa, arllwyswch wely o goncrit o ansawdd uchel i'r ffo.
- Gan weithio o'r arllwysfa, gosodwch y sianel yn ei lle gan ddilyn cyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr.
- Sicrhewch fod y sianel wedi'i halinio'n gywir.
- Dylai'r gratiau gael eu gosod yn llac a'u lapio mewn plastig, gan bontio'r uniad rhwng darnau unigol y sianel er mwyn sicrhau bod y cyfan wedi'i osod yn daclus.
- Wedyn dylid arllwys concrit i'r ffos o amgylch y sianel, gan gymryd gofal i beidio â'i symud o'i lle. Dylai'r concrit gyrraedd 3mm uwch ben arwyneb y sianel a'r gratiau.
- Ar ôl i'r concrit galedu, codwch y gratiau a thynnwch y plastig amddiffynnol.
- Er mwyn cynnal peiriannau trwm sy'n symud yn araf, mae angen o leiaf 200mm o goncrit ar y gwaelod a'r ochrau, oni bai bod y cyfarwyddiadau gosod yn nodi'n wahanol.



Gosod Cwrbin
Cod yr Eitem: L024

Cyfradd Talu: £52.94/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gosod cwrbin'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn?
Pwrpas gosod cwrbinau ar fuarthau ac o'u cwmpas ac ar hyd traciau yw i helpu i wahanu dŵr glân a dŵr brwnt/budr. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru wrth i ddŵr lifo iddynt oddi ar dir amaethyddol, gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed.

Gallwch ddefnyddio cwrbinau i sianelu dŵr brwnt o gylïau yn y buarth neu fannau eraill lle gallai ychwanegu at lif y dŵr ffo ac at y llygredd.

Gallwch wedyn sianelu'r dŵr brwnt i'r storfa slyri addas.

Neu gallwch ddefnyddio cwrbinau i rwystro'r dŵr glân rhag llifo i draciau/buarthau brwnt/budr. Trwy ddal dŵr glân at ei ddefnyddio wedyn a'i rwystro rhag llifo i ddŵr brwnt/budr ar fuarth y fferm, bydd llif y dŵr brwnt yn haws ei reoli a'i ddal mewn storfa slyri ac ichi allu delio ag e' yn ôl y gofyn.

Os ydych yn gosod cwrbinau ar fuarth i ddal dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Opsiwn 901 Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw ac Opsiwn 911 Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Dylai'r cwrbinau fod yn 900mm x 255mm x 125mm (gydag un ymyl ar oleddf).
- Dylai'r gwaith concrit gydymffurfio â'r safonau Prydeinig perthnasol BS 8000 a BS 8500.
- Gofalwch fod y dŵr glân sy'n cael ei ddargyfeirio gan y cwrbin yn llifo i arllwysfa draenio sefydlog fel ffos, cwlfert neu arllwysfa ddraenio arall.
- Os yw'r cwrbin yn dargyfeirio dŵr brwnt, dylid sianelu'r dŵr i storfa slyri.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

Sut i osod cwrbin – yr arfer gorau
- Mae'r cwrbin yn fwy tebygol o fod yn sefydlog os ydy'r ffos yn cael ei phalu yn y trac at o leiaf 300mm o ddyfnder.
- Llenwch y ffos â choncrit a gosod cwrbinau arno, i godi o wyneb y trac.
- Tamprwch y concrit ar yr ochr tu allan i fyny at ymyl dop y cwrbin.
- Cadwch y concrit ar yr ochr fewnol (yr ochr a fydd yn dargyfeirio'r dŵr) yn fflat, ac yn is nag ymyl dop y cwrbin.

Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd
Cod yr Eitem: L025

Cyfradd Talu: £38.60/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn?
Pwrpas dargyfeirydd dŵr yw helpu i wahanu dŵr glân a dŵr brwnt/budr ar fuarth a thraciau fferm. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru wrth i ddŵr lifo iddynt oddi ar dir amaethyddol, gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed.

Trwy ddal dŵr glân at ei ddefnyddio wedyn a'i rwystro rhag llifo i ddŵr brwnt/budr ar fuarth y fferm, bydd llif y dŵr brwnt yn haws ei reoli a'i ddal mewn storfa slyri ac ichi allu delio ag e' yn ôl y gofyn.

Gallwch ddefnyddio dargyfeirydd dŵr i ddal y dŵr glân ar draciau a buarthau glân sydd uwchlaw buarthau/traciau brwnt/budr.

Neu gallwch eu defnyddio hefyd i ddal y dŵr brwnt islaw'r buarth/trac. Rhaid ichi sianelu'r dŵr brwnt i storfa neu storfa slyri addas.

Trwy osod dargyfeirydd dŵr ar draws traciau fferm, byddwch yn gallu dal a sianelu'r dŵr ffo, gan leihau'r llif i lawr rhiw a thrwy hynny helpu i rwystro erydiad ar draciau fferm. Trwy gymryd camau i arafu llif y dwˆr ffo, gallwch leihau'r difrod y mae dŵr yn ei wneud i draciau, lleihau erydiad ar bridd a lleihau'r perygl o lygru dŵr.

Os ydych yn defnyddio dargyfeirydd dŵr ar fuarth fferm i ddal dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Opsiwn 901 Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw ac Opsiwn 911 Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Dylai'r dargyfeirydd godi i uchder sydd o leiaf 150mm yn uwch na lefel y llwybr a dylai allu cynnal peiriant trwm araf.
- Dylai unrhyw waith concrit fod yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, BS 8000 a BS 8500, fel y'u diwygiwyd.
- Dylid cyfeirio dŵr glân o'r dargyfeiryddion dŵr at ollyngfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu ollyngfa draenio arall.
- Dylai unrhyw ddŵr brwnt gael ei sianelu i storfa slyri addas.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y fanyleb uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.
- Bydd y dargyfeirydd dŵr yn fwy tebygol o fod yn sefydlog os oes ffos yn cael ei phalu yn y trac at o leiaf 100mm o ddyfnder. Yna arllwyswch concrit i'r ffos hyd at o leiaf 150mm o uchder.

Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw)
Cod yr Eitem: L026

Cyfradd Talu: £17.42/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn?
Pwrpas nwyddau dŵr glaw newydd yw helpu i gadw dŵr glaw glân a dŵr brwnt (budr) ar wahân ar fuarthau fferm a'u cyffiniau. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol. Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy rwystro dŵr glaw rhag cymysgu â dŵr brwnt ar lefel buarthau'r fferm, bydd lefelau haws dygymod â nhw o ddŵr brwnt yn casglu mewn storfeydd slyri i'w trin yn briodol.

Gellir defnyddio cafnau glaw i ddargyfeirio a chasglu dŵr glaw oddi ar doeon adeiladau'r fferm. Gellir sianelu'r dŵr glân hwnnw i ddraen dŵr glân neu ei ollwng i ffos, pant gwlyb neu drap gwaddodion. Neu fe allech ei gasglu i'w ddefnyddio ar y fferm.
Mae taliadau ar gael ar gyfer darparu a gosod nwyddau dŵr glaw newydd (cafnau glaw a phibellau) lle nad oes rhai yn bodoli ar hyn o bryd, neu lle bo'r rhai sydd yn bodoli yn aneffeithiol, ac yn arwain at ollwng dŵr glân ar fuarthau brwnt.

Mae'r opsiwn hwn ar gael ar gyfer adeiladau traddodiadol a modern sydd eisoes yn bodoli ar y buarth, sydd heb nwyddau dŵr glaw neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi dirywio ac angen eu hadnewyddu. Nid yw tai ac adeiladau anamaethyddol yn gymwys.

Nid oes grant ar gael i osod nwyddau dŵr glaw ar adeiladau newydd sydd ar fin cael eu hadeiladu gan y dylai nwyddau dŵr glaw fod yn rhan o'u dyluniad eisoes.

Nid yw'r opsiwn hwn ar gael ar gyfer adeiladau rhestredig.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Defnyddiwch gafnau, fel cafnau PVC hanner cylch 150mm a bracedi. Rhaid i'r holl nwyddau fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, e.e. BS EN 607, BS EN12200 a BS EN 1462.
- Dylai'r gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, e.e. BS 5502 a BS EN1917.
- Gofalwch fod yr holl nwyddau glaw wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.

Peidiwch â:
- Gosod cafnau glaw plastig ar adeiladau rhestredig.

Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw)
Cod yr Eitem: L027

Cyfradd Talu: £13.73/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn?
Pwrpas nwyddau dŵr glaw newydd yw helpu i gadw dŵr glaw glân a dŵr brwnt (budr) ar wahân ar fuarthau fferm a'u cyffiniau. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol. Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy rwystro dŵr glaw rhag cymysgu â dŵr brwnt ar lefel buarthau'r fferm, bydd lefelau haws dygymod â nhw o ddŵr brwnt yn casglu mewn storfeydd slyri i'w trin yn briodol.

Gellir defnyddio pibellau glaw i ddargyfeirio a chasglu dŵr glaw oddi ar doeon adeiladau'r fferm. Gellir sianelu'r dŵr glân hwnnw i ddraen dŵr glân neu ei ollwng i ffos, pant gwlyb neu drap gwaddodion. Neu fe allech ei gasglu i'w ddefnyddio ar y fferm.

Mae taliadau ar gael ar gyfer darparu a gosod pibellau glaw lle nad oes rhai yn bodoli ar hyn o bryd, neu lle bo'r rhai sydd yn bodoli yn aneffeithiol, ac yn arwain at ollwng dŵr glân ar fuarthau brwnt.

Mae'r opsiwn hwn ar gael ar gyfer adeiladau traddodiadol a modern sydd eisoes yn bodoli ar y buarth, sydd heb nwyddau dŵr glaw neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi dirywio ac angen eu hadnewyddu. Nid yw tai ac adeiladau anamaethyddol yn gymwys

Nid oes grant ar gael i osod nwyddau dŵr glaw ar adeiladau newydd sydd ar fin cael eu hadeiladu gan y dylai nwyddau dŵr glaw fod yn rhan o'u dyluniad eisoes.

Nid yw'r opsiwn hwn ar gael ar gyfer adeiladau rhestredig.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Defnyddio pibell law 110mm a braced sy'n bodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd e.e. BS EN 607, BS EN12200 a BS EN 1462.
- Dylai'r gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd, e.e. BS 5502 a BS EN1917.
- Gofalwch fod yr holl nwyddau glaw wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.
- Dylai unrhyw waith draenio dan ddaear fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd e.e. BS 8000, BS EN 752 a BS EN 1610.

Peidiwch â:
- Gosod nwyddau dŵr glaw o blastig ar adeiladau rhestredig.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Lle gwelwch fod nwyddau dŵr glaw mewn perygl o gael eu difrodi gan dda byw, dylech osod rhywbeth addas i'w hamddiffyn.

Plannu Perth/Gwrych Newydd ar Gyfer Pryfed Peillio
Cod yr Eitem: L028

Cyfradd Talu: £9.39/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Plannu Perth/Gwrych newydd ar gyfer pryfed peillio'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Plannwch gymysgedd o dair rhywogaeth fan leiaf o goed a llwyni brodorol. Rhaid i o leiaf 90% o'r gymysgedd fod o'r rhywogaethau canlynol: draenen ddu, draenen wen, coed crabas, eirin gwyllt neu geirios gwyllt. Ni ddylai un elfen o'r gymysgedd fod yn fwy na 75% o'r cyfanswm.
- Plannwch blanhigion perth sydd o leiaf 45 – 60cm o daldra. Dylai fod ganddynt egin tyfu cryf.
- Dylech blannu 7 planhigyn bob metr mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng
- pob rhes.
- Gofalwch nad oes chwyn yn tagu'r planhigion newydd.
- Diogelwch berthi newydd eu plannu rhag da byw.
- Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.
- Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r gwaith plannu newydd.
- Gofalwch fod y berth yn gallu tyfu hyd at 3m o led a bod o leiaf fwlch o 3m rhwng y ddwy ffens.

Peidiwch â:
- Phlannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea).
- Niweidio unrhyw glawdd hanesyddol wrth baratoi'r pridd, plannu neu ffensio.
- Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffynfa rhag llifogydd. Gofalwch hefyd fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd, neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd, a'u dangos pan ofynnir ichi.
- Os ydych yn chwistrellu plaladdwyr fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod yn cael unrhyw ganiatâd y gallai fod ei angen arnoch.
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Rhowch y cyfle gorau iddynt oroesi trwy blannu planhigion newydd yn y berth ym misoedd y gaeaf o fis Tachwedd tan fis Mawrth. Cadwch beli gwreiddiau'n llaith cyn eu plannu, a'u dyfrhau'n drylwyr mewn cyfnodau sych nes eu bod yn cydio.
- Dewiswch blanhigion sydd â gwreiddiau datblygedig. Argymhellir planhigion 3 – 4 oed.

- Paratowch y pridd trwy naill ai trwy ei rotofatio, ei aredig neu ei balu yn ystod yr haf blaenorol. Peidiwch â difrodi cloddiau hanesyddol wrth baratoi'r pridd felly palwch â llaw.
- Os ydych yn plannu planhigion perth ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru.
- Plannwch fathau o goed brodorol sy'n gyffredin yn eich ardal chi os medrwch. Os medrwch, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi ac i gynnal mwy o anifeiliaid brodorol.
- Gallwch reoli chwyn trwy ddefnyddio mwlts o sglodion coed neu drwy osod shîten o bolythene du (500-gauge), 1 – 2m o led wrth fôn y planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio cemegau i ladd porfa, ysgall, dail tafol a llysiau'r gingroen.
- Gofalwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label wrth ei ddefnyddio.
- I annog tyfiant newydd, dylech drimio'r planhigion rydych yn eu trawsblannu.
- Sefydlwch o leiaf 1 – 2 goeden berth bob 100m. Naill ai plannwch goed ifanc (o leiaf 1m o daldra) neu gadwch goed ifanc yn y berth all datblygu'n goed. Byddai'n beth doeth ichi dagio'r goeden gan y bydd hynny'n eich helpu i'w hosgoi pan fyddwch yn tocio'r berth. Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.
- Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

Adfer Wal Gerrig Sych
Cod yr Eitem: L029

Cyfradd Talu: £33.42/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Wal Gerrig Sych'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae waliau cerrig yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i stoc.

Ni fydd pob wal gerrig yn dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at ei phwysigrwydd hanesyddol a thirweddol.

Mae cael eu taro gan gerbydau, eu dwyn gan ladron a'u rhwbio gan anifeiliaid i gyd yn gallu difrodi walydd.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Adfer wal gerrig sych sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y wal yn adlewyrchu uchder a llinell y wal sy'n weddill. Gweler canllawiau isod ar sut i ddilyn yr arferion gorau wrth adfer wal gerrig sych:
- Rhaid i'r holl gerrig a ddefnyddir i adfer waliau cerrig sych fod yn debyg i'r rheini sydd yn y wal sy'n weddill.
- Cadwch a/neu ailgodwch bob camfa garreg, cwter ddefaid, cwlfert a nodwedd traddodiadol arall.
- Rhaid ichi fynd ag unrhyw gerrig sydd dros ben ar ôl adeiladu'r wal o'r safle ac adfer y tir o gwmpas i'r hyn ydoedd cyn dechrau.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Defnyddiwch y garreg leol os medrwch ond peidiwch â dwyn cerrig o fannau anaddas fel adfeilion neu waliau eraill. Os ydych yn mewnforio cerrig o ardal arall, gofalwch eu bod yn dod o'r ardal honno.
- Penderfynwch a ydych am roi weiren ar frig y wal cyn dechrau adfer y wal.
- Sylfeini – yr haenen gyntaf o gerrig mawr wrth droed y wal. Dylai'r sylfeini gynnwys dwy res o'r cerrig mwyaf y medrwch gael gafael arnyn nhw wedi'u gosod mewn ffos 15cm i 30cm o ddyfnder. Ar dir meddal iawn, bydd angen sylfeini dyfnach. Dylech lenwi'r bwlch rhwng y ddwy res o gerrig sylfaen â cherrig afreolaidd eu siâp. Os ydych yn ailgodi wal, gofalwch fod y sylfeini gwreiddiol yn gadarn a chael rhai yn eu lle os ydynt yn simsanu, yn camu llinell y wal, ar dro neu'n malurio.
- Y Goleddfiad – y goleddfiad am i mewn o waelod y wal i'w brig. Dylai dwy ochr y wal dapro'n gymesur i'r top. Dylai maint ongl y goleddfiad ddibynnu ar y math o stoc fydd yn pori nesaf at wal. Ar gyfer wal 1.3m o uchder, dylai'r gwaelod fod 70cm i 90cm o led gan dapro i 30cm i 40cm o led o dan y garreg gopa, gan ddibynnu ar faint y cerrig a'r math o gerrig a ddefnyddir yn yr ardal.

- Wynebfeini – dylid codi'r wal ag iddi ddau wyneb sy'n wastad â'i gilydd ac yn dilyn y goleddfiad. Gosodwch y wynebfeini gan gadw'r rheolau canlynol mewn cof:

  – rhowch y cerrig mwyaf yn y gwaelod, a'r lleiaf ar y top

  – adeiladwch y wal fesul haen (oni bai ei bod yn draddodiad peidio â gwneud)

  – gosodwch bob carreg fel bod ei hochr hiraf yn mynd i mewn i'r wal

  – dylai cerrig yr haenen nesaf orwedd dros bob bwlch rhwng cerrig yn yr haenen oddi tani. Ni ddylech allu gweld unrhyw raniadau fertigol

  – peidiwch â gosod y cerrig eu hunain ar oleddf i mewn am y wal

  – rhaid i wyneb y wal fod yn llyfn heb gerrig yn ymwthio allan, heblaw am y 'cerrig pwyth

  – rhaid gosod y cerrig ar eu hyd ar hyd llinell y wal hyd yn oed os ydy'r wal ar lethr

  – Rhaid gosod lletemau (cerrig bychain i gloi cerrig mwy) ar du fewn y wal, nid y tu allan.

- Canol y Wal – defnyddio cerrig bychain i lenwi a phacio'r canol. Rhaid llenwi'r bwlch yng nghanol y wal rhwng wynebfeini dwy ochr y wal â cherrig llai, afreolaidd. Peidiwch â defnyddio pridd na deunydd mân arall gan y caiff ei olchi i ffwrdd. Dylech osod y llenwad wrth i bob haen o gerrig adeiladu gael ei osod.
- 'Cerrig pwyth' – cerrig mawr trwm sy'n cael eu gosod i gydio dwy ochr y wal yn ei gilydd. Yn ddelfrydol, dylech osod dwy haenen o gerrig pwyth, 45cm a 90cm uwchlaw'r ddaear gyda 100cm rhwng y naill garreg bwyth a'r nesaf ar wal 1.3m o uchder. Os nad oes gennych ddigon o gerrig addas, dylech osod un rhes o 'gerrig pwyth' rhwng 60cm a 75cm uwchlaw'r ddaear. Rhaid i'r 'cerrig pwyth' fynd o leiaf yr holl ffordd drwy led y wal gan efallai ymestyn rai centimetrau weithiau allan o'r wal.
- Cerrig copa – cerrig ar frig y wal i selio pen y wal a phwyso arno. Dylai brig y wal gael ei adeiladu i'r un uchder a bydd y canol wedi'i lenwi. Dylai'r cerrig copa fod o'r un lled â'r wal a dylent fod 20cm i 30cm o uchder. Fel arfer dylech docio cerrig sy'n lletach na'r wal, ond os nad oes stoc pori ar un ochr y wal, mae'n iawn i'r garreg gopa ymwthio allan hyd at 5cm ar yr ochr honno. Gosodwch y cerrig copa'n ofalus fel eu bod yn dynn ac yn clymu wrth ei gilydd ac yn pwyso ar bob wynebfaen uchaf.
- Pen y wal – pen fertigol y wal. Mae iddynt haenau am yn ail o 'beniadau' (cerrig pwyth sy'n clymu dwy ochr y wal ynghyd) a cherrig ymestyn (cerrig hir sy'n cael eu gosod gydag ochr y wal). Rhaid i'r garreg gopa ar y pen fod yn garreg mawr ac yn ddigon trwm i gynnal gweddill y copa. Gofalwch nad oes cerrig yn ymwthio allan o ben y wal y gall stoc rwbio yn eu herbyn.
- Codi wal gynnal – Codir waliau cynnal ar wyneb llethr i rwystro pridd rhag llithro i lawr y rhiw. Dylech godi waliau cynnal yr un ffordd â waliau digynhaliaeth ag iddynt ddau wyneb. Nid oes angen i'r wyneb mewnol fod yn llyfn fel ag sydd ei angen ar wal ddigynhaliaeth. Dylai'r wyneb mewnol fod yn fertigol, gyda'r oleddf fel arfer ar yr wyneb allanol. Lle bo angen, gofalwch fod yna ddraenio digonol.
- Morter – Os ydych yn codi'ch wal wrth heol brysur, yn enwedig os oes lorïau trwm yn teithio arni, efallai y bydd angen ichi ddefnyddio morter i rwystro'r cryndod rhag difrodi'r wal. Bryd hynny, rhowch forter yng nghanol y wal ac ar y cerrig copa, gan adael i'r gweddill ymddangos fel wal sych draddodiadol. Os bydd y cerrig copa yn debygol o ddisgyn am fod pobl yn dringo dros y wal (e.e. wrth safle picnic), rhowch forter ar y cerrig copa. Dylech wneud hyn am o leiaf blwyddyn ar ôl adeiladu'r wal er mwyn iddi gael amser i setlo.

- Weiren dop – Gallwch osod pyst pren i mewn i'r wal i gynnal llinell o weiren bigog ar hyd y wal i rwystro stoc rhag dringo ar y wal a chreu difrod.
- Dylai'r wal orffenedig fod yn gadarn gyda dau wynebfaen tynn. O'i tharo, ni dyllai'r wal na'r canol symud.

Adfer Clawdd
Cod yr Eitem: L030

Cyfradd Talu: £10.89/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Clawdd'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae cloddiau'n nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i stoc.

Ni fydd perth (gwrych) wedi'i phlannu ar ben pob un. Ni fydd hen gloddiau'n dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol a thirweddol.

Mae cyfnod hir o dywydd cas, eu sathru dan draed stoc a'u tyrchu gan gwningod i gyd yn gallu niweidio cloddiau.


Rhaid cadw at y canlynol:
- Adfer cloddiau sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y clawdd yn adlewyrchu uchder a llinell y cloddiau sy'n weddill. Gweler canllawiau isod ar sut i ddilyn yr arferion gorau wrth adfer clawdd.
- Gofalwch nad yw anifeiliaid pori'n cael difrodi'r cloddiau ar ôl eu hadfer.
- Dylech ddefnyddio pridd rhydd neu dyweirch diangen i lenwi'r ffosydd a thyllau y codwyd pridd ohonynt. Dylai'r tir bob ochr i'r clawdd fod yn wastad a thwt.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio tyweirch o'r cae ar bwys i roi wyneb newydd ar y clawdd, ond os oes aildyfiant naturiol pan gyflwynir yr hawliad a bod ffotograffau â geotag 'ar ôl' yn dangos hyn, byddai hynny'n dderbyniol.
- Codwch yr holl dyweirch a'r pridd rhydd o'r man gwan yn y clawdd tan ichi ddod at sylfaen gref. Cadwch y pridd rhydd at ailadeiladu'r clawdd. Dylai'r ochrau'r bwlch rydych wedi'i glirio oleddfu tuag i mewn ychydig a bod yn lletach wrth y brig nag wrth y bôn. (siâp V neu drapesoid o'i wynebu). Gallwch felly ddefnyddio'r clawdd presennol fel sylfaen ar gyfer trwsio a chau'r bwlch. Tampiwch y sylfaen newydd ag erfyn llaw addas i greu arwyneb mor solet â phosibl (Gweler diagram 1).
- Dylech dorri tyweirch newydd o'r cae wrth fôn y clawdd. Mae tyweirch llai yn fwy tebygol o gyfuno ar ôl eu gosod yn eu cartref newydd.
- Mae tyweirch llai na 30cm sgwâr yn haws eu trin a bydd tyweirch sydd wedi'u torri ar oleddf yn fwy tebygol o uno na'r rheini ag ymylon sgwâr (Gweler diagram 1).
- Bydd angen sylfaen ar gyfer y tyweirch newydd cyn eu gosod yn eu lle. Defnyddiwch y pridd rhydd y gwnaethoch ei gadw ynghyd ag unrhyw bridd rhydd sydd ar ôl yn y ffos y torroch chi'r tyweirch ohoni. Gofalwch roi digon o bridd yn y clawdd gan ei adeiladu ychydig uwch na lefel pob rhes newydd o dyweirch. Dylech lenwi'r pridd yn dynn yn erbyn ochrau'r hen glawdd a'i


dampio'n dynn rhag i law trwm neu rew caled achosi'r gwaith newydd i lithro (Gweler diagram 2).

- Yr arfer gorau yw gosod y tyweirch ar bridd newydd y clawdd mewn cyfres o resi. Ni ddylai cymalau'r rhes nesaf o dyweirch gyfateb yn union o ran eu lleoliad i rai'r rhes o'i blaen. Dylai'r tyweirch oleddfu am i mewn ychydig a dylech fwrw pob tywarchen i mewn yn dynn er mwyn cuddio'r cymalau rhwng y rhesi. Gosodwch bob res ychydig bach (1-2.5cm) tuag yn ôl o'r rhes oddi tani. Bydd hynny, gyda'r oleddf, yn caniatáu beth symudiad tuag allan wrth dampio'r tyweirch ac i law allu llifo at wreiddiau pob tywarchen (gweler diagramau 1 a 2).
- I orffen, rhowch bridd rhydd ar ben y clawdd, ychydig uwchlaw lefel y tyweirch iddo allu gwaelodi. Bydd yr oleddf yn amrywio yn ôl y safle a'r amodau ond dylai bôn y clawdd fod 45 – 60cm yn lletach na brig y clawdd.
- Llenwch unrhyw fylchau mawr â phridd wedi'i gywasgu'n dynn cyn rhoi tyweirch newydd yn eu lle ar wyneb y clawdd. Bydd hynny'n dda i osgoi rhagor o erydiad. Bydd tywarchen fer ar glawdd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn helpu i gadw siâp y clawdd.

Wynebu'r clawdd (1)



Trawstoriad o'r Clawdd (2)



Adfer Clawdd Cerrig
Cod yr Eitem: L031

Cyfradd Talu: £28.10/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Clawdd Cerrig'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae waliau cerrig yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i stoc. Ni fydd perth (gwrych) wedi'i phlannu ar ben pob un. Ni fydd hen berthi a chloddiau'n dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at eu pwysigrwydd hanesyddol a thirweddol. Mae cyfnod hir o dywydd cas, eu sathru dan draed stoc a'u tyrchu gan gwningod i gyd yn gallu difrodi cloddiau a'r gwaith cerrig.


Rhaid cadw at y canlynol:

- Adfer cloddiau cerrig sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y clawdd yn adlewyrchu uchder a llinell y cloddiau sy'n weddill. Gweler canllawiau isod ar sut i ddilyn yr arferion gorau wrth adfer clawdd cerrig.
- Gofalwch nad yw anifeiliaid pori'n cael difrodi'r cloddiau ar ôl eu hadfer.
- Dylech fynd ag unrhyw gerrig a phridd dros ben o'r safle ac adfer y tir o gwmpas fel ag yr oedd.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Dylid defnyddio cerrig lleol lle bo'n bosibl, ond peidiwch â chymryd cerrig o fannau amhriodol fel hen adfeilion neu waliau eraill.
- **Sylfeini** – Mae'n rhaid clirio cerrig rhydd a phridd nes cael at glawdd cerrig da a chadarn. Dylech osod cerrig a phridd newydd yn raddol yn lle'r cerrig a'r pridd gafodd eu codi oddi yno. Yn ystod y gwaith hwn dylech adael i'r pridd waelodi bob yn gam cyn cwblhau'r gwaith. Bydd glaw yn ystod yr ailadeiladu yn cyflymu'r broses waelodi hon.
- Os byddwch yn gweld bod angen adfer y clawdd yn llwyr, dylech glirio'r holl gerrig i'r seiliau ac ailadeiladu o'r lefel honno. Ar gyfer sylfeini cadarn bydd angen gosod o leiaf un rhes o'r cerrig mwyaf sydd ar gael mewn ffos 15 – 20cm o ddyfnder. Dylech wasgu cerrig bach yn y bylchau rhwng y sylfeini. Dylai'r sylfeini'u hunain fod o leiaf 7.5cm yn lletach na gwaelod y wal. (Gweler y diagram).
- **Goleddfiad** – Goleddfiad yw'r term ar gyfer y ffordd y mae ochr y wal yn tapro am i mewn o'r gwaelod i'r brig. Os yw'r wyneb yn 70–90 cm o led ar y gwaelod, dylai fod yn 30 – 40 cm o led ar y brig. Mae'n rhaid bod digon o oleddf i'r wal fod yn sefydlog. Gall y goleddf fod yn syth, ar ffurf 'A' neu'n bantiog, gan ddibynnu ar yr arddull lleol.

- **Draenio** – Os yw dŵr ffo yn debygol o wneud y clawdd yn ansefydlog, dylech osod draen dwfn o 40 – 60cm fel sydd i'w weld yn y diagram. Dylech osod pibellau yng ngwaelod y ffos cyn ei hail-lenwi â cherrig rhydd.
- **Morter** – Os yw cloddiau cerrig yn cael eu hadeiladu ger ffyrdd prysur neu safleoedd picnic, efallai y bydd angen defnyddio morter calch mewn mannau, yn enwedig rhwng y cerrig copa ar y brig. Ni ddylech ddefnyddio morter yn y strwythur cyfan oherwydd y gall achosi problemau draenio. Dylai'r clawdd ymddangos ar y tu allan fel wal sych.
- Ar ôl eu hadfer, mae'n rhaid cynnal a chadw cloddiau cerrig yn rheolaidd i'w hatal rhag dirywio.



Adfer Ffens Lechi
Cod yr Eitem: L032

Cyfradd Talu: £28.55/m2


Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Ffens Lechi'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae ffensys llechi'n nodwedd o'r dirwedd yn yr ardaloedd hynny lle bu cloddio masnachol am lechi, sef yn ardaloedd Nantlle, Waunfawr, Llanberis a Bethesda.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Adfer ffensys llechi sy'n bod eisoes.
- Adfer y ffens fel bod o leiaf tair llechen unionsyth bob metr.
- Rhowch y llechi yn ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi.
- Dylai rhan ucha'r llechi ymestyn o leiaf 106cm uwchlaw'r ddaear.
- Clymwch lechi unigol wrth ei gilydd â weiar trwy ddrilio'r llechi a defnyddio o leiaf 3 llinyn o weiar (top, canol a gwaelod y ffens lechi). Defnyddiwch 2 weiren a'u troi'n gylch o gwmpas y llechi, fel y gwelir yn y diagram. Os oes bwlch mwy rhwng pob llechen, dylech ddrilio tyllau ym mhob llechen a thynnu'r weiren fel y gwneir ar ffens postyn a weiren gyffredin o bren.
- Dylai'r holl lechi a ddefnyddir fod yn debyg i'r llechi a ddefnyddir mewn nodweddion sy'n bod eisoes.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Yr arfer gorau yw gosod y llechi o leiaf 60cm yn y pridd i'w sefydlogi.

Enghraifft o ffens lechi



Weiren Ar Ben Wal Gerrig
Cod yr Eitem: L033

Cyfradd Talu: £2.49/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Weiren ar ben wal gerrig'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Rhaid i bren y ffens fod naill ai yn bren caled neu'n bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd.
- Rhaid i'r pren, y wifren, y netin a'r staplau a ddefnyddir i adeiladu'r ffens i gyd fod yn newydd.
- Rhaid bod gan y pyst ddiamedr o 6.5cm fan leiaf a rhaid eu gosod bob 3m (o'u canol) neu lai.
- Cysylltwch o leiaf un llinyn o weiar (plaen 4mm o drwch neu weiren bigog deulinyn 2.5mm o drwch) wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.
- Tynnwch unrhyw hen ffens sydd ar y wal.

Peidiwch â:

- Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard
Cod yr Eitem: L034

Cyfradd Talu: £125 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Yn y gorffennol, byddai bron pob fferm yn tyfu amrywiaeth o ffrwythau at ddefnydd y tŷ ac i'w gwerthu yn y farchnad leol. Wrth i'r coed heneiddio, chafodd coed newydd ddim eu plannu yn eu lle; mae'r ychydig enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd unigryw yng nghefn gwlad ac yn aml maen nhw'n werthfawr iawn o ran bywyd gwyllt.

Dylai cadw hen goed ffrwythau gael blaenoriaeth dros ailblannu gan fod hen goed yn bwysig o ran eu bioamrywiaeth a gellir eu tocio i estyn eu hoes.


Rhaid cadw at y canlynol:
- Dylech ddefnyddion gwreiddgyff M25 neu MM111 er mwyn creu coed llawndwf o faint 'Safonol' traddodiadol.
- Plannwch hyd at 100 o goed yr hectar a'u plannu ryw bellter oddi wrth ei gilydd.
- Rhaid i goed ifanc gael eu clymu wrth bostyn a'u gwarchod rhag da byw sy'n pori drwy ddefnyddio giard coed.
- Rhaid i unrhyw gardiau sydd wedi'u gwneud o reiliau pren fod o leiaf 1.2 metr o uchder ac wedi'u gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau.) Dylai diamedr pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren sydd â diamedr o o leiaf 10cm x 5cm ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin galfanedig o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau galfanedig.
- Os mai defaid yw'r unig dda byw, mae giard trionglog yn dderbyniol. Dylai'r ochrau fod o leiaf 1.2m o uchder, wedi'u gosod o leiaf 1m o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid. Cofiwch, wrth i'r goeden dyfu, efallai y bydd angen lledu'r giard.
- Defnyddiwch bren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled.
- Rhaid i unrhyw bren, netin a styffylau fod o ddeunyddiau newydd.

Peidiwch â:
- Defnyddio gwreiddgyff corachu.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Plannwch amrywiaeth o goed gan gynnwys mathau sy'n blodeuo'n gynnar ac yn hwyr er mwyn helpu o ran peillio a lleihau problemau a achosir gan rew neu haint. Mae ychwanegu nifer fach o goed eirin, coed eirin hirion (damsons) neu goed gellyg at berllan coed afalau yn cynnig ychydig o amrywiaeth.
- Fel rheol y fawd, dylech blannu'r coed 6m oddi wrth ei gilydd.
- Wrth adeiladu giardiau, defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch weiar netin o'i amgylch i atal da byw rhag dod i mewn. Bydd y rheiliau llorweddol yn atal y pyst rhag cael eu llacio. Mae'n bosibl y caiff y berllan ei defnyddio

gan amrywiaeth o dda byw felly rhaid i'r giardau fod yn ddigon cryf i ymdrin â'r sefyllfa waethaf posibl a allai godi. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst tuag allan. Bydd hynny yn ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le.

- Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y ffens am fod hyn yn annhebygol o atal anifeiliaid rhag pwyso drosodd, a bydd yn anos ichi fynd i mewn i'r 'clos' i drin y goeden.
- At hynny gellir gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu.



Cynnal Bwlch Cae â Rwbel
Cod yr Eitem: L035

Cyfradd Talu: £9.36/m2
Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Cynnal Bwlch Cae â Rwbel'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y Gweithgarwch hwn?
Mae'r pridd o gwmpas bylchau caeau a mannau eraill sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan dda byw a cherbydau fferm mewn perygl o gael eu cywasgu a'u herydu. Mae tir wedi'i gywasgu'n draenio'n wael a bydd dŵr yn crynhoi'n byllau.

Gall dŵr ffo o gae gael ei sianelu trwy fwlch cae. Mae llawer o afonydd a nentydd yng Nghymru wedi cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar gaeau gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy roi rwbel wrth fwlch cae, fe welwch lai o gywasgu, erydiad a llif dŵr.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Gosodwch o leiaf 200mm o ddyfnder o gerrig ar draws y bwlch gan geisio creu pad gwastad rheolaidd o rwbel.
- Trwsiwch ar unwaith unrhyw ddifrod neu hôl traul yn sgil y cynhaeaf neu ddigwyddiadau naturiol.

Peidiwch â:
- Defnyddio concrit i osod y cerrig yn eu lle.
- Defnyddio'r rwbel fel lleoliad ar gyfer cafnau bwyd, cafnau yfed neu i gadw cerbydau a pheiriannau

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

Ffens Postyn a Weiar gyda Netin
Cod yr Eitem: L036

Cyfradd Talu: £8.33/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.
- Defnyddiwch naill ai bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan bwysau.
- Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.
- Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Rhaid gosod y pyst tynnu'n ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.
- Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwthio allan.
- Rhaid cysylltu'r netin wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.
- Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaid yn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail linyn o weiren uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan y netin. Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.
- Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.

Peidiwch â:


- Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 1m o dan ddaear i'w sefydlogi.
- Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin,

felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bro yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.



Opsiwn Atodol ar gyfer Netin Ffensys Cwningod

Cod yr Eitem: L037

Cyfradd Talu: £2.37/m

Mae'r opsiwn hwn yn atodol a dim ond yn erbyn yr opsiynau a ganlyn y gellir ei ddefnyddio lle y maent hefyd yn cael eu gosod:
L009 – Ffens Postyn a Rheilen
L010 – Ffens Postyn a Weiren
L013- Giardiau Coed Parcdir

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffensys Cwningod'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Gellir defnyddio ffensys cwningod i rwystro difrod i safleoedd archeolegol neu i nodweddion penodol ar y dirwedd, fel coed neu berthi newydd eu plannu.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Rhaid cysylltu'r netin a'r weiar wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.
- Defnyddiwch weiren netin wedi'i galfaneiddio sydd o leiaf 1.05m o uchder, a rhwyll sydd heb fod yn fwy na 3cm.
- Gofalwch fod ymyl dop y netin o leiaf 0.75m o'r llawr.
- Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.
- Cysylltwch y netin wrth y ffens a chladdu ymyl isa'r netin yn ddigon dwfn i rwystro cwningod rhag tyllu dano. Rhaid cysylltu o leiaf dau linyn o weiar uwchlaw'r netin a dylai'r weiren dop fod o leiaf 1.05m o'r llawr.
- Lle bo angen, rhowch linynnau o weiar i ategu'r ffens.
- Rhaid diogelu pob gât yn y ffens rhag cwningod a sgyfarnogod hefyd.
- Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.

Peidiwch â:


- Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor ychwanegol yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Rhwystrwch gwningod rhag tyllu oddi tano trwy gladdu'r netin 15cm yn y pridd a'i droi allan 15cm arall gan ei angori'n ddiogel.
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. Dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd) a'u dangos pan ofynnir ichi. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

- Lle bo gweithgareddau Ffermio Bron yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.

Diagram o Ffens Gwningod



Gwlypdir Mewn Ffos

Cod yr Eitem: L082

Cyfradd Talu: £244.28 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gwlypdir mewn Ffos'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Ffos yw 'Gwlypdir mewn Ffos" sydd wedi cael ei lledu i greu gwlypdir llydan bas. Bydd y llystyfiant ynddi'n arafu llif y dŵr, fel bod mwy o waddodion o ddŵr sy'n llifo iddi oddi ar y tir ac o ddraeniau caeau a ffosydd yn cael eu dal ynddi.

Pwrpas gwlypdir mewn ffos yw:

- Gwella ansawdd dŵr: Mae gwlypdir mewn ffos yn dal gwaddodion sydd yn y dŵr sy'n llifo oddi ar gaeau a thir fferm a fyddai fel arall yn llygru afonydd a llynnoedd ymhellach i lawr y cwm.
- Lleihau llifogydd: Mae gwlypdir mewn ffos yn arafu llif y dŵr trwy greu lle gwerthfawr lle gall dŵr o'r tir lifo iddo, gan ddarparu storfa ar gyfer llifddwr a helpu i leihau llifogydd i lawr y cwm.
- Creu cynefin bywyd gwyllt: Mae gwlypdir mewn ffos yn cynnig manteision ychwanegol o ran cadwraeth natur (cynefin nythu i adar y dŵr fel bras y gors, telor y gors, telor yr hesg a thelor Cetti) a gwerth tirwedd ar raddfa fferm.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Dewiswch leoliad lle ceir ffosydd caeau artiffisial ar ychydig yn unig o oleddf a bod y tir bob ochr i'r ffos o dan eich rheolaeth. Enw arall ar y ffosydd hyn yw ffosydd Cam 1 lle nad oes llif barhaus trwy'r flwyddyn. Mae'r diagram isod yn dangos rhwydwaith nodweddiadol o ffosydd.
- Ewch ati i ledu'r ffos fel ei bod o leiaf 10m o hyd a dim mwy na 3m o led a lefelwch y gwely.
- Adeiladwch argae pridd a gosod piben ynddo i gario dŵr o'r ffos. Dylai'r argae fod yn lletach na'r ffos. Dylai top yr argae fod yn lefel ac o leiaf 50cm uwchlaw lefel y dŵr. Dylai ochrau'r argae fod ar ychydig o oleddf. Ar ôl cwblhau'r gwaith, gofalwch na all dŵr llawn gwaddodion lifo i'r cwrs dŵr.
- Gosodwch un neu ddwy biben oferu o fewn yr argae i gario'r dŵr o'r ffos. Dylai fod ganddyn nhw ddiamedr o 8 – 10" a'u gosod 30cm (12") islaw brig yr argae.
- Mae'n bwysig estyn pen y biben y tu hwnt i fôn yr argae rhag i'r dŵr erydu bôn yr argae wrth lifo am ben isa'r cwm.
- Plannwch hesg, brwyn a chyrs brodorol, neu goed helyg neu wern. Yn achos hesg, brwyn a chyrs, plannwch 3 phlanhigyn bob m2.

Peidiwch â:

- Chreu gwlypdir mewn ffos ar gyrsiau dŵr naturiol.
- Niweidio cynefinoedd eraill fel gwelyau cyrs i greu gwlypdir mewn ffos.


- Creu'r opsiwn hwn rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y fanyleb uchod:


- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn gweithio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'u dangos pan ofynnir ichi**. Gweler yr Amodau a'r Telerau am ragor o fanylion.
- Peidiwch â chynnal yr opsiwn hwn ar gwrs dŵr naturiol. Mae deddfwriaeth ynghylch caniatáu i bysgod allu symud yn rhydd.
- Cynhaliwch yr opsiwn pan fydd y ddaear mor sych ag y gall fod rhwng Medi a Chwefror. Codwch argae dros dro i rwystro'r llif dŵr os oes angen. Bydd hynny'n ei gwneud hi'n haws ichi fynd at y tir i'w gloddio a'i blannu.
- Taenwch y deunydd sydd wedi'i balu yn denau ar ben y glannau er mwyn atal chwyn megis danadl, ysgall y maes ac ati, rhag tyfu'n drwchus. Gofalwch nad yw'r silt yn gallu llifo yn ôl i'r ffos.
- Wrth adeiladu'r argae, codwch yr uwchbridd a chrafu'r isbridd i wella'r sêl rhwng yr argae ac wyneb y pridd. Adeiladwch y clawdd fesul haenen 15cm o drwch a chywasgu bob haenen yn ei thro.
- Gofalwch wrth gynnal yr opsiwn hwn nad oes dŵr llawn gwaddodion yn cael llifo i'r cwrs dŵr sy'n derbyn.
- Peidiwch â phlannu coed gwern na helyg os ydych yn disgwyl llawer o waddodi.
- Plannwch y gwely â phlanhigion sydd eisoes yn tyfu yn yr ardal. Peidiwch â chasglu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod na'u casglu o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), hynny yn unol â'r rheoliadau Trawsgydymffurfio.
- Ar gyfer coed helyg, plannwch 1 planhigyn bob m2 ac ar gyfer coed gwern, 1 planhigyn bob 2m2.
- Bondociwch y coed helyg a gwern bob 3-5 mlynedd. Dylech dorri'r hesg, brwyn a chyrs bob yn ail flwyddyn i'w rhwystro rhag tagu'r gwlypdir. Torrwch nhw yn nechrau'r gwanwyn cyn bod yr adar yn dechrau nythu er mwyn sicrhau cymaint o orchudd â phosib i adar glwydo ynddo yn y gaeaf.

Dewiswch leoliad yr opsiwn hwn a'i reoli fel nad oes perygl o lifogydd.


Gwlypdir o fewn ffos



Gwlyptir mewn ffos (croestoriad o glawdd pridd)



Camau cwrs dŵr



Gwaith Peiriannu Meddal ar Lannau Afonydd

Cod yr Eitem: L083

Cyfradd Talu: £115.96/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gwaith Peiriannu Meddal' Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Mae glannau afonydd a chylchfa'r dorlan sydd union tu ôl glan yr afon, yn gynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt sy'n gallu cynnal amrywiaeth eang o wahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid. Maen nhw'n cynnig cysgod, bwyd a lloches ac yn diogelu'r afon rhag dŵr ffo o'r tir. Mae llystyfiant glan yr afon a'u gwreiddiau gwydn yn helpu i sefydlogi'r lan, ac yn atal llifogydd i lawr yr afon a rhagor o erydu trwy leihau ynni'r afon.

Mae erydiad naturiol yn broses bwysig ar lan afon. Mae'n arafu ynni llif yr afon, yn gwasgaru gwaddodion ac yn creu mannau nythu i adar fel gwenoliaid y tywod a glas y dorlan. Fodd bynnag, gall gweithgarwch dyn achosi mwy o erydiad. Er enghraifft, mae da byw sy'n sathru glan yr afon ac yn ei dinoethi'n ansefydlogi'r lan honno ac mae gwaith peiriannu fel carthu am raean, ailbroffilio a gwaith peiriannu caled yn gallu cynyddu ynni'r afon ac erydiad.

Mae gwaith peiriannu meddal (neu fiobeiriannu) yn defnyddio prosesau naturiol i leihau erydiad negyddol gan adael i'r llystyfiant aildyfu ac i'r pridd ailsefydlogi. O'u cymharu ag amddiffynfeydd 'caled' traddodiadol (e.e. creigiau, concrit a chaergewyll), mae deunydd o bren yn creu cynefinoedd mwy amrywiol ar gyfer planhigion, infertebratau a physgod. Mae mesurau peiriannu meddal yn wytnach dros y tymor hir gan fod y deunyddiau'n fwy hyblyg ac yn amsugno ac yn chwalu grymoedd erydu yn hytrach nag yn adlewyrchu ac yn gwasgaru'r ynni fel ag y gwneir gan amddiffynfeydd caled. Hefyd, gellir bondocio gwaith peiriannu meddal yn y dyfodol i gyflenwi ffynhonnell barod a rhwydd o ddeunyddiau ar gyfer safleoedd cyfagos.

Mae gwaith peiriannu ar afonydd yn anodd ac mae'n werth gofyn am gyngor arbenigwr ynghylch pa dechnegau i'w defnyddio. Gallai'r ymddiriedolaeth afonydd lleol, y Ganolfan Adfer Afonydd (www.therrc.co.uk/) neu Cyfoeth Naturiol Cymru argymell y dull mwyaf priodol neu roi mwy o gyngor.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gosod y swm cywir o waith peiriannu meddal ar lan afon sydd wedi'i difrodi neu wedi cael ei herydu, gan ddefnyddio digon o byst a gwiail i greu strwythur sefydlog a chryf. Disgrifir isod sut i ddewis ac adeiladu'r math cywir o waith peiriannu meddal.

Peidiwch â:

- Gadael i dda byw bori'r gwaith peiriannu meddal.
- Defnyddio'r gwaith peiriannu meddal fel wal gynnal.

- Gadael i'r gwaith peiriannu meddal atal llif y dŵr o nentydd sy'n llifo i'r brif afon.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'u dangos pan ofynnir ichi.** Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.
- Mae sawl ffordd i amddiffyn glannau gan ddefnyddio pren marw a byw, gan ddibynnu ar y safle. Dewiswch pa rai o'r technegau hyn (neu gyfuniad ohonyn nhw) sy'n addas ar gyfer eich safle, a dilyn y cyfarwyddiadau isod.
  - 'Spiling'. Techneg draddodiadol yw 'spiling' sy'n golygu gosod 'wal wiail' i sefydlogi glannau sy'n erydu. Mae'n golygu plethu gwiail helyg byw rhwng stanciau neu byst helyg byw fertigol sydd wedi'u gosod yn rheolaidd yn y lan i greu ffens neu wal gynnal fyw. Yna llenwir y gofod rhwng y ffens wiail a'r lan â phridd fel bod yna rywbeth i'r helyg wreiddio ynddo. Mae dau fath o wal wiail – ffens â phleth dynn o dan ddŵr a phleth lac ar gyfer wal wiail uwch y dŵr.
  - Clwydi – gellir eu defnyddio yn lle 'wal wiail' os yw natur y safle yn golygu ei bod yn beryglus neu'n anaddas creu'r ffens yn y fan a'r lle.
  - Ffaglau (gwiail neu brysglwyni helyg sydd wedi'u clymu'n bwndeli). Gallwch eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu gyda wal wiail neu glwydi, gan ddibynnu ar natur y safle. Bwndeli o helyg neu brysglwyni yw ffaglau sydd wedi'u clymu wrth ei gilydd a'u defnyddio ar gyfer sefydlogi a chynnal. Mae ffaglau'n arafu llif dwˆr ac yn trapio silt a gwaddodion, ac yna mae'r canghennau sy'n cael eu claddu yn helpu i gryfhau'r gwaddodion rhag rhagor o erydu.
- Peidiwch ag wal wiail mewn cynefin lle gallai cynnydd yn y gorchudd o helyg ei niweidio e.e. ffeniau, glaswelltir gwlyb heb ei wella, gwaun wlyb, rhos bori, cors neu diroedd lle ceir adar sy'n nythu ar y llawr fel y gornchwiglen neu'r gylfinir.

Wal wiail

1a: Wal wiail â phleth dynn o dan ddŵr.


- Efallai y bydd angen contractwr arbenigol i adeiladu'r seiliau o dan ddŵr.
- Defnyddiwch byst unionsyth â diamedr o 65-100mm (2.5-4") ar gyfer wal wiail hyd at 600mm o uchder. Ar gyfer wal wiail hyd at 900mm (3') o uchder, bydd angen pyst lletach â diamedr o 100-130mm (4-5").
- Helyg brau (Salix fragilis) neu helyg gwyn (Salix alba) sy'n cynhyrchu'r pyst gorau.
- Curwch y pyst i mewn yn fertigol ar hyd llinell y wal, bob hanner metr gyda dwy ran o dair o'r postyn yn y pridd. Yna torrwch y brig i'r uchder gorffenedig.
- Defnyddiwch wiail ag iddynt ddiamedr o 10-20mm (0.25-0.75") ac sy bum gwaith hyd y bwlch rhwng y pyst o hyd, er mwyn gallu eu plethu'n dynn.


- Helygen wiail (Salix viminalis), helyg deilgrwn (Salix caprea) neu helyg llwyd (Salix cinerea) sy'n cynhyrchu'r gwiail gorau.
- Plethwch y gwiail rhwng y pyst, gan amrywio cyfeiriad y bonion bob yn ail a lapio'r ddau ben i mewn fel nad ydynt yn gwthio allan. Ar bob pen y wal, dylai droi am i mewn at lan yr afon fel bod y ddau neu dri postyn olaf o dan y ddaear yn llwyr ar ôl ôl-lenwi.
- Ar ôl ichi osod y pyst a'r gwiail yn ddiogel, llenwch y gwagle y tu ôl iddynt â phridd (ôl-lenwi) a chreu proffil y lan fel rydych am iddi fod.
- Os oes perygl y bydd yr ôl-lenwad yn golchi i ffwrdd, gosodwch ffaglau (gweler isod) y tu ôl i'r pyst.
- Adeiladwch y wal wiail rhwng Tachwedd a Mawrth (pan fydd y tymheredd ar gyfartaledd o dan 12ºC).
- Defnyddiwch bren helyg sydd newydd ei dorri ar gyfer y pyst unionsyth a'r gwiail llorweddol, fel eu bod yn gallu egino a chreu wal o wiail byw.
- Brigdociwch neu fondociwch y coed helyg sy'n tyfu ar y lan neu dociwch wal wiail hŷn, ac fe gewch ddeunydd addas o'r meintiau y gofynnir amdanynt uchod.
- Os nad oes coed helyg ar gael, gallwch ddefnyddio coed gwern. Defnyddiwch goed helyg a gwern o dras lleol os medrwch.
- Gallwch storio pyst a gwiail rhwng Tachwedd a Chwefror am hyd at dair wythnos, cyn belled â'ch bod yn eu cadw'n oer a llaith.

Y tu allan i'r tymor hwn, dylech eu defnyddio o fewn 48 awr ar ôl eu torri ac maen nhw wastad ar eu gorau ar ôl eu rhoi'n wlych mewn dŵr cyn eu defnyddio.

- Os oes posibilrwydd y gallai fandaliaid ei difrodi, rhowch weiren am y gwiail uchaf a'i staplo wrth y postyn.
- Byddai'n ddoeth cadw da byw draw am o leiaf 2 neu 3 blynedd nes bod y wal wiail wedi cydio a bod y tir wedi sefydlogi.

Enghraifft o wal wiail dynn ei phleth o dan y dŵr






1b: Wal wiail laciach ei phleth uwch lefel y dŵr

- Gosodwch y pyst fel yn 1a uchod.
- Dechreuwch blethu'r gwiail rhwng yr ail a'r trydydd postyn o'r pen gan wthio bôn y wialen i'r pridd a'i phlethu wedyn rhwng y pyst tuag at y postyn yn y pen. Gwthiwch y wialen nesaf i'r pridd a'i phlethu wrth ochr y gyntaf. Bydd bonion y gwiail yn magu gwreiddiau.
- Parhewch i'w plethu ar hyd y pyst nes bod gennych gyfres o wiail at dop y pyst.
- Gofalwch fod y gwiail uchaf wedi'u plethu'n dynn i gadw'r wal wiail yn ei lle.
- Os oes posibilrwydd y gallai fandaliaid ei difrodi, gosodwch weiren ar hyd y top neu i lawr trwy'r gwiail.
- Byddai'n ddoeth cadw da byw draw am o leiaf 2 neu 3 blynedd nes bod y wal wiail wedi cydio a bod y tir wedi sefydlogi.


Enghraifft o wal wiail lac uwch lefel y dŵr



2. Clwydi


- Adeiladwch glwydi o bren helyg neu gyll.
- Adeiladwch glwydi mor fawr ag y gellwch eu symud yn ddiogel i'w lle. Mae clwyd nodweddiadol yn 1.8m (6') o hyd wrth 1m (3.5') o uchder.
- Adeiladwch y glwyd o gyfres o bolion unionsyth a ddylai fod o leiaf 90cm o uchder a bwlch heb fod yn fwy na 25cm (10") rhwng pob un. Plethwch gyfres o wiail yn dynn yn llorweddol rhyngddynt. Disgrifir dull o'i adeiladu isod.
- Defnyddiwch ddau bostyn 1.5m (5') ar gyfer pob clwyd. Curwch y pyst i'w lle ar ochr allanol y glwyd a chysylltwch y clwydi wrth y pyst â weiren i'w dal yn eu lle.
- Ôl-lenwch y glwyd â ffaglau neu bridd.
- Adeiladwch y clwydi oddi ar y safle os ydy'r amodau gweithio ar lan yr afon yn anodd. Gofalwch felly nad yw'r clwydi'n rhy drwm i'w cludo. Dylent fod yn ddigon cryf i allu cael eu trafod a'u lleoli.
- Os medrwch, holltwch bren cyll ar gyfer y polion gan eu bod yn dal y clwydi'n well na pholion crwn. Mae pren helyg hefyd yn addas. Gwiail helyg sydd fwyaf addas ar gyfer y plethwaith llorweddol.
- Gwthiwch bolion 900mm (3') tua 300mm (1') i mewn i'r tir, a'u gosod yn gytbell mewn llinell syth fel y dangosir.
- Plethwch wiail cyll neu helyg rhwng y polion, gan blethu bob pen yn ôl arno'i hun i gloi'r darnau yn eu lle. Gwthiwch y gwiail i lawr gyda'ch troed i sicrhau plethiad tynn. Mae'n bosibl y bydd angen cysylltu'r gwiail ar y brig â weiren neu â chwlwm i atal fandaliaeth.


Codwch bob clwyd unigol ar gyfer ei chludo i'r safle. Gosodwch y clwydi yn eu lle, yn gorgyffwrdd fel ag y dangosir a'u curo i'r pridd cyn belled â'r rhes isaf o wiail.



3. Ffaglau

- Adeiladwch ffagl nad yw'n rhy fawr i ddau berson allu ei symud yn ddiogel. Mae ffagl draddodiadol tua 2m (7') o hyd gyda diamedr o 300mm (1'), wedi'u rhwymo mewn tri man.
- Rhwymwch y ffagl â gwiail helyg, cordyn bêls neu weiren.
- Rhowch y ffaglau'n sownd yn eu lle trwy eu cysylltu â physt sydd wedi'u curo'n ddwfn i'r lan. Cysylltwch y ffagl wrth y postyn â weiren. Dylech osod y ffaglau fel y dangosir yn y diagram isod neu eu gosod y tu ôl i glwydi neu wal wiail. Ystyriwch ddefnyddio helyg byw yn y gaeaf gan y byddan nhw'n debygol o fagu gwreiddiau a thyfu. Mae helyg sy'n tyfu'n ddefnyddiol gan fod eu gwreiddiau'n sefydlogi'r lan ac mae'r egin yn amddiffyn y lan rhag ei sgwrio.
- Er mwyn sefydlogi'r lan, gallwch osod y ffaglau mewn rhes sengl neu res ddwbl, gyda physt a weiren i'w dal yn sownd, fel y dangosir yn y llun. Os oes angen, gallwch ychwanegu haenen arall ar eu traws.


Ffagiau (bwndeli o frigau helyg)
Golwg o'r awyr
2m
llif yr
aron
clwyd
Dau stanc
i bob clwyd
glan


rhes sengl
glan
llif yr afon
rhes ddwbl, dwy haen
llif yr afon
ffagodennau mawr
stancio
i'r lan
lefel
dŵr isel

Adfer Pwll

Cod yr Eitem: L084

Cyfradd Talu: £7.88/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Pwll'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae pyllau dŵr a darnau bychain eraill o ddŵr yn bwysig am eu bod yn cynnal bioamrywiaeth dŵr croyw ac yn storio dŵr. Gall ardal â llawer o byllau ynddi fod yn neilltuol o bwysig am ei bod yn gynefin i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Mae pyllau'n gallu bod yn agored i'w gorfaethu, eu siltio a'u tagu gan blanhigion goresgynnol. Ymhlith y pethau allai achosi hynny yw dŵr llawn maeth yn llifo iddynt oddi ar gaeau a buarthau, stoc yn gorbori a stablad (sathru) yr ymylon, hwyaid a gwyddau'n cael eu bwydo arnynt a physgod yn cael eu stocio ynddynt. Gall rhywogaethau goresgynnol ledaenu'n naturiol neu eu cyflwyno'n fwriadol neu drwy ddamwain.

Mae yna lawer o fathau o byllau 'da' a pheidiwch â cheisio gwneud i'r holl byllau ar eich fferm edrych yn debyg i'w gilydd. Mae'r amrywiaeth fwyaf o wahanol fathau o byllau'n gartref i'r nifer fwyaf o gynefinoedd gan gynnal rhai o'n hanifeiliaid a'n planhigion prinnaf.

Os oes gennych fwy nag un pwll, bydd rheoli'r llystyfiant a'r silt bob ryw 10 mlynedd mewn cylchdro wedi'i stagro yn arwain at greu amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol. Serch hynny, mae rhai rheolau cyffredinol y dylech gadw atyn nhw. Mae gan byllau da y canlynol:

- Llawer iawn o ddŵr bas;
- Dim gormod o bysgod nac adar y dŵr;
- Dŵr clir;
- Amrywiaeth o blanhigion y dŵr a dim planhigion goresgynnol;
- Ymylon wedi'u pori'n ysgafn a dim mwy na'u hanner o dan gysgod.

Does dim rheidrwydd bod dŵr yn y pwll drwy'r flwyddyn ac mae angen pyllau dros dro ar rai anifeiliaid a phlanhigion prin lle na all ysglyfaethwyr oroesi. Fodd bynnag, rhaid caniatáu i lefelau'r dŵr amrywio'n naturiol ond dylai fod dŵr yn y pwll am o leiaf 6 mis y flwyddyn.

Peidiwch â chyflwyno anifeiliaid na phlanhigion i'ch pwll, yn enwedig o bwll yn yr ardd neu ganolfan arddio. Mae rhywogaethau brodorol yn gwasgaru'n rhwydd ac yn cyrraedd pyllau iach o ran eu hunain.

Nid yw'r mathau canlynol o byllau'n addas ar gyfer opsiwn adfer pyllau Grantiau Bach – Amgylchedd:

- Pwll â ffrwd fawr 1m neu fwy o led yn llifo i mewn ac allan ohono. Hynny, am fod cyrsiau dŵr yn aml yn cario llawer o silt a/neu lygryddion.
- Problemau mawr gydag ansawdd y dŵr nad oes modd eu datrys trwy'r mesurau adfer yma. Os ceir llygredd difrifol, bydd yn anodd cael gwared ar ddeunydd a bydd yn llawer anoddach adfer y pwll.
- Gwlypdir artiffisial neu drapiau eraill ar gyfer dŵr brwnt. Diben y pyllau hyn yw dal llygredd.

- Pyllau pysgod neu hwyaid. Mae pyllau â nifer fawr o bysgod neu hwyaid yn gynefin gwael ar gyfer bywyd gwyllt am eu bod yn hela'n drwm.
- Pyllau addurnol neu byllau â phlanhigion goresgynnol estron. Maen nhw'n gynefin gwael ar gyfer bywyd gwyllt a gallai gwaith adfer helpu'r anifeiliaid a'r planhigion goresgynnol ledaenu.

Rhaid cadw at y canlynol:
- Cynnal llain glustogi o lystyfiant hir rhwng y pwll ac unrhyw dir yr ochr uchaf iddo sy'n cael ei ffermio'n ddwys.
- Gofalu'ch bod yn rhwystro unrhyw ffynonellau llygredd neu faethynnau rhag cyrraedd y pwll gan gynnwys dŵr ffo ag ynddo wrtaith, slyri, tail, sudd silwair neu faethynnau eraill.
- Gwasgaru unrhyw silt rydych yn ei godi ar dir cyffiniol yn unol ag esemptiad gwastraff U10 ac esemptiad gwastraff D1.
- Ewch ag unrhyw sgrap, hen ffensys neu unrhyw sbwriel arall fel deunydd plastig oddi yno.
- Rhwystro da byw rhag mynd at y pwll trwy godi ffens o leiaf 1 metr o ymyl y dŵr. Mae'n iawn ichi eu gadael i fynd at hyd at 10% o arwynebedd y pwll.
- Creu patrwm cymysg o goed a llwyni o gwmpas y pwll trwy fondocio peth o'r prysgwydd a gadael goleuni i daro wyneb y dŵr gan ostwng swm y dail sy'n cwympo ar y pwll.


Peidiwch â:
- Adfer pyllau rhwng mis Mawrth ac Awst.
- Carthu mwy na thraean o arwynebedd y pwll ar unrhyw adeg.
- Gadael i silt rydych wedi'i garthu o'r pwll lifo yn ôl i'r pwll. Rhaid gwasgaru'r deunydd hwnnw ar y tir ochr isa'r pwll ond ddim os gall lifo i gwrs dŵr.
- Creu ynysoedd yn y pwll.
- Caniatáu i dda byw fynd at fwy na 10% o'r pwll i yfed.
- Cwympo hen goed o gwmpas y pwll gan y gall fod nythod adar, clwydfannau ystlumod a mwsoglau a chen prin ynddyn nhw.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:
- Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin os ydych yn gweithio wrth gwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'u dangos pan ofynnir ichi.** Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.
- Gofalwch eich bod yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop os oes gennych fadfallod dŵr cribog yn y pwll neu gerllaw iddo. Ni ddylai hyn eich rhwystro rhag gwneud gwaith adfer gan y bydd fel arfer yn fanteisiol i fadfallod y dŵr, ond mae'n bwysig caniatáu digon o amser i wneud cais.
- Mae prosiect Grantiau Bach – Amgylchedd yn cynnwys carthu hyd at draean o'r pwll. Dylech garthu dwy ran o dair arall y pwll mewn cylchdro yn y dyfodol ond nid

yw hyn wedi'i gynnwys ym mhrosiect Grantiau Bach – Amgylchedd. Bydd hyn yn sicrhau bod infertebratau'n cael goroesi.

- Peidiwch â niweidio pyllau sy'n cael eu hystyried yn gynefinoedd eisoes e.e. gwelyau cyrs, ffeniau neu byllau ar dir heb ei amgáu. Fe all fod yn bosib cael grant i adfer pwll ar gynefin sy'n bod eisoes ond bydd angen trafod ymhellach a/neu ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud yn siŵr nad oes difrod yn cael ei wneud i Gynefin neu Rywogaeth Adran 7, rhywogaeth a warchodir neu nodwedd mewn Safle a Warchodir.
- I leihau'r effaith ar fywyd gwyllt, adferwch byllau rhwng Medi ac Ionawr. Ceisiwch weithio yn ystod tywydd sych pan fydd lefelau'r pwll yn isel ac y bydd peiriannau'n llai tebygol o stablad (sathru) y pridd.
- Mae'n briodol carthu silt o dan yr amgylchiadau canlynol:
  - Os nad oes planhigion tanddwr i'w gweld, naill ai am fod y dŵr yn gymylog neu am ei bod yn amlwg bod gwely'r pwll o dan orchudd dwfn rhydd o silt neu ddail.
  - Mae'r gwaddodion yn gwbl ddu ac yn drewi o wyau wedi pydru, a bod swigod mawr o nwy yn codi i'r wyneb nawr ac yn y man.
- Os ydych yn carthu'r gwaddodion rhydd o waelod y pwll, gwnewch hynny tan y dewch at haenen galed fel clai, marl neu haenen o waddodion caletach. Byddwch yn ofalus rhag torri sêl naturiol gwaelod y pwll.
- Peidiwch â chreu ynysoedd artiffisial gan eu bod yn denu gwylanod a hwyaid sy'n dirywio ansawdd y dŵr.
- Os oes perygl y gall dŵr gael ei olchi i'r pwll o gaeau cyfagos sy'n cael eu ffermio'n ddwys, ystyriwch greu llain o lystyfiant tal wrth y pwll i ddal unrhyw ddŵr ffo.
- Cewch wybodaeth ddefnyddiol hefyd ar y wefan Million Ponds am adfer pyllau ar gyfer anifeiliaid eraill fel y Fadfall Ddŵr Gribog a Llygoden y Dŵr: https://freshwaterhabitats.org.uk/projects/ million-ponds/
- Cewch fwy o wybodaeth am byllau cudd a cholli ar http://ghostponds.wordpress.com/
- Mwy o wybodaeth am esemptiad gwastraff U10 (https://www.gov.uk/guidance/waste- exemption-u10-spreading-waste-to-benefit-agricultural-land)
- Mwy o wybodaeth am esemptiad D1 (https://www.gov.uk/guidance/waste-exemptions-disposing-of-waste) a chofrestru esemptiadau gwastraff.

Diagram – Croestoriad o Bwll


Coed Gwern
Coed Helyg
draeniad
Gwely crys
bae
bae
Trwyn
Lle i wartheg yfed
Glan serth
Planhigion sy'n
Dŵr clir
1m
Planhigion tanddwr
Gwaelod sy'n goleddfu'n fwyn

Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn neu Law

Cod yr Eitem: L085

Cyfradd Talu: £0.029/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn neu Law'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith. Mae'r fiaren yn rhywogaeth frodorol lwyddiannus ac ymledol. Gall greu llwyni trwchus gan lethu llystyfiant arall. Bydd mieri'n rhwystro coed rhag tyfu, felly byddai'n rhaid ei glirio cyn plannu coed. Cyn defnyddio plaladdwr (gan gynnwys chwynladdwr), ystyriwch bob tro a oes modd ei reoli heb gemegolion.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod yn trin darn digon mawr o fieri i unrhyw goed rydych yn eu plannu allu cydio heb i fieri amharu arnyn nhw.
- Gofalwch eich bod yn defnyddio glyphosate chwynladdwr sy'n addas at y diben a sut rydych am ei wasgaru. Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau ar y label a'u cadw ichi allu eu dangos pan ofynnir ichi.

Peidiwch â:

- Peidiwch â defnyddio chwistrellydd cefn i reoli llystyfiant sy'n uwch na'ch canol, nac ar gyfer clirio darnau mawr o dir. Bydd cadw trwyn y chwistrellydd uwchben y mieri yn waith blinedig, a bydd yn anodd chwistrellu'r mieri i gyd.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw gemegyn arall heblaw glyphosate. Cadwch at yr holl argymhellion a welir ar labeli'r gwneuthurwr ar chwynladdwyr.

Cewch fwy o wybodaeth ddefnyddiol yn:
Y 'Cod Gwyrdd' (Y Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel ar Ffermydd a Daliadau, MAFF, 1998)
Canllawiau UKFS: General Forest Practice www.forestry.gov.uk/ukfs
Defnyddio Chwynladdwyr
Rhaid bod cyfarwyddyd ar label y chwynladdwr rydych am ei ddefnyddio sy'n ei argymell at y diben rydych am ei ddefnyddio a sut rydych am ei ddefnyddio.

Rheoli Rhedyn (Dau Doriad y Flwyddyn â Pheiriant)

Cod yr Eitem: L086

Cyfradd Talu: £0.0059/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Rhedyn – Dau Doriad y Flwyddyn â Pheiriant'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Planhigyn lluosflwydd cryf yw'r rhedynen ac mae'n tyfu o system o risomau o dan ddaear. Uwchben y ddaear, mae ffrondiau'r rhedyn yn agored o ganol Mehefin tan fis Awst a dyma'r adeg pan fydd y planhigyn wedi llosgi'r rhan fwyaf o'r maethynnau y bydd wedi'u storio. Mae'r opsiwn hwn ar gael i glirio rhedyn er mwyn i blanhigion y llawr gael tyfu neu er mwyn i goed a pherthi newydd gael tyfu.

Rhaid cadw at y canlynol:

- Dim ond drwy eu cleisio, eu malu neu eu torri y dylech reoli'r rhedyn.
- Dylech reoli rhedyn o leiaf ddwywaith yn ystod y tymor tyfu. Mae rhagor o ganllawiau i'w gweld isod am yr amser gorau i reoli rhedyn.

Peidiwch â:

- Rheoli rhedyn drwy ddefnyddio cemegau fel 'Asulam'.
- Rheoli rhedyn drwy losgi.

Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:

- Trefnwch fod y rhedyn yn cael eu malu a'u torri pan fydd y ffrond wedi agor ond cyn i'r planhigyn gael amser i drosglwyddo'r bwyd yn ôl i'r rhisom. Mae'r planhigyn yn defnyddio llawer iawn o'i storfeydd bwyd i gynhyrchu'r ffrond a bydd ei dorri ar yr amser priodol yn ei wanhau'n fawr. Y cyfnod rhwng mis Mai a chanol mis Awst yw'r amser gorau fel arfer i falu neu dorri, gan ddibynnu ar y tywydd.
- Argymhellir y dull hwn yn gryf, yn enwedig os oes angen gofalu nad oes cemegau'n llygru cyrsiau dŵr neu'n difa planhigion sensitif fel mathau eraill o redyn.
- Ar ôl torri, dylech yn ddelfrydol roi stoc trwm, fel gwartheg, i bori'r tir cyn plannu coed gan y bydd hynny'n rhwystro'r ffrondiau rhag aildyfu.

Mae'n bwysig cofio y gall lleiniau o redyn gyfrannu at yr amrywiaeth yn y dirwedd ac maent eu hunain yn gallu bod o werth mawr i natur. Lle'u gwelir yn gymysg â llwyni a choed gwasgarog, mae rhedyn yn bwysig i adar fel crec yr eithin, y bras melyn a'r troellwr mawr. Gallai rhedyn agored ac isdyfiant o fioled gynnal poblogaethau o bili-palod teulu'r britheg. Gall hyd yn oed lleiniau trwchus a thrwch o ddeiliach marw roi cysgod i adar ysglyfaethus sy'n gaeafu fel y bod tinwen a'r dylluan glustiog, ynghyd â mamaliaid fel llygod coch, moch daear a cheirw.

Gwyndynnydd cymysg

Cod yr Eitem: L087

Cyfradd Talu: £341.00/ha

Sefydlu gwyndwn cymysg, sy'n cynnwys o leiaf 5 rhywogaeth o laswellt, 3 rhywogaeth o godlys a 3 rhywogaeth o flodau.

(Rhywogaethau nid mathau unigol o fewn rhywogaeth).

Cyfradd hau leiaf – 25kg/hectar.

Swm mwyaf o rygwellt – 6kg/hectar.

Swm mwyaf o hadau glaswellt eraill – 9 kg/hectar.

(Swm mwyaf o hadau glaswellt – 15kg/hectar).

Gofynion sylfaenol:

- Prawf pridd wedi'i gynnal yn y 3 blynedd cyn gwneud cais. (Rhaid o leiaf profi lefelau P, K a pH). Camau wedi'u cymryd i unioni unrhyw ddiffygion a welwyd yn lefelau P, K a pH cyn sefydlu'r cnwd.
- Defnyddio hadau ardystiedig yn unig ar y gyfradd hau a argymhellir.
- Rhaid i ddewis a chymysgedd y rhywogaethau fod yn briodol i'r lleoliad.
- Arwynebedd lleiaf o 1 hectar (Cewch rannu'r arwynebedd lleiaf o 1 hectar rhwng un neu ragor o barseli tir, cyn belled â bod pob parsel o leiaf 0.1 hectar).
- **Rhaid cadw gwyndwn cymysg am o leiaf 3 blynedd ar ôl dyddiad ei sefydlu.**

Sefydlu'r cnwd:

- Peidio ag aredig na thrin tir cyn 1 Mawrth.
- Hau rhwng 15 Ebrill a 31 Awst.
- Gellir sefydlu'r cnwd drwy aredig, drilio a dulliau trin traddodiadol, bras droi neu ddrilio uniongyrchol.
- Cymysgu'r hadau yn yr hopran yn syth cyn hau cymysgedd hadau rhag eu gwasgaru'n anghyfartal.
- Hau hadau ar led neu drwy ddrilio, ond dim dyfnach nag 1cm.
- Rowlio ar ôl hau i gadw'r lleithder.
- Os defnyddir bras droi neu ddrilio uniongyrchol, mae angen defnyddio chwynladdwr priodol, cymeradwy i ladd y borfa sydd yno eisoes. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi cael eu hardystio'n organig).
- Ar ôl sefydlu'r cnwd, peidio â defnyddio plaladdwyr, ond gellir defnyddio chwynladdwyr i sbot-chwynnu neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn caled, brwyn pabwyr, danadl neu redyn.
- Peidio â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn nesaf. (Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision amaeth-economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o'r gwyndwn amrywiol.)

- Cynnal llain glustogi o 1 metr ar hyd gwrychoedd/perthi, cloddiau neu gyrsiau dŵr.

Rheolaeth:

- Rheoli'r borfa er mwyn cynnal amrywiaeth ynddi, i annog y gwyndwn cymysg i flodeuo a hadu a'i diogelu rhag i dda byw stablad (sathru) arni.
- Dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau yn y cae, gan gynnwys dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr a dyddiadau pori neu dorri.

Bocsys nythu tylluanod gwynion

Cod yr Eitem: L088

Cyfradd Talu: £120.50 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Bocsys nythu tylluanod gwynion'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae'r dylluan wen yn hela mamaliaid bach, yn enwedig llygod pengrwn, dros laswelltir garw. Mae'n defnyddio ysguboriau tawel a cheudodau mewn coed ar gyfer nythu a chlwydo. Fel arfer, mae pelenni a thail yn arwydd bod gennych chi dylluan wen. Gan fod tylluanod gwynion yn sensitif i aflonyddwch, mae'n well gosod bocsys mewn lleoliadau tawel. Gallwch ddarparu bocs y tu mewn i ysguboriau neu ar goed neu y tu allan i adeiladau.

Mae tylluanod gwynion wedi'u rhestru o dan Atodlen 1 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), sy'n ei gwneud yn drosedd tarfu ar nyth sy'n cynnwys wyau neu dylluanod bach dibynnol. Er y gall gweithgareddau arferol fynd rhagddynt yn yr adeilad, dim ond o dan drwydded gan CNC y gellir archwilio cynnwys bocsys. Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau adar.

Rhaid i chi gadw at y canlynol

Bocsys dan do

Adeiladwaith - Dylid adeiladu'r bocsys o bren haenog 9mm fel y dangosir yn y diagram. Mae'r caead codi yn caniatáu mynediad i lanhau ar ôl i'r cywion a'r rhieni adael.

Lleoli

Rhowch y bocs mor uchel yn yr adeilad â phosibl, ond gan adael digon o le i dynnu'r caead. Mae uchder o 3m yn ddelfrydol.

Rhowch y bocs mewn lle hollol sych fel y bydd gan y dylluan lwybr hedfan clir o'r pwynt lle mae'n fwyaf tebygol o fynd i mewn i'r adeilad.

Os yw'n bosibl, gosodwch y bocs fel y bydd cywion yn gallu cerdded ar drawstiau neu arwynebau gwastad eraill. Bydd yr hambwrdd glanio ar flaen y bocs hefyd yn darparu lle i'r cywion

Nid oes angen rhoi unrhyw leinin yn y bocs gan y bydd yr wyau'n cael eu dodwy ar y deunydd pelenni sy'n cael ei adgyfogi gan y dylluan.

Bocsys awyr agored

Adeiladwaith

Dylid adeiladu'r bocsys o bren haenog 15-20mm sydd wedi cael 2 gôt o gadwolyn cyn eu cydosod. Dylid defnyddio pren haenog addas i amodau morol neu awyr agored ar gyfer bocsys a fydd yn cael eu hadeiladu y tu allan i adeiladau.

Wrth i chi greu'r bocs ffrâm A, atodwch ddarn 200 x 485mm o bren wedi'i fraslifio i'r tu mewn i'r panel cefn. Bydd y gosodiad i'r goeden yn mynd trwy'r atgyfnerthiad hwn.


Peidiwch ag atodi'r panel blaen nes bod y bocs wedi'i hongian i fyny.

Lleoli


Ceisiwch osgoi lleoli'r bocs fel bod y fynedfa'n wynebu' prifwynt neu fod glaw yn dod i mewn iddo. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu osgoi'r gorllewin a'r de-orllewin

Gellir gosod bocsys ar goed neu adeiladau. Er mwyn osgoi niweidio coed, dylid atodi astell i'r boncyff gan ddefnyddio llinyn, a hoelio neu sgriwio'r bocs i'r astell.

Bocsys nythu tylluanod gwynion - Bocs dan do



Bocsys nythu tylluanod gwynion - Bocsys awyr agored


455 mm
905 mm
875 mm
875 mm
120 mm
120 mm
225 mm
445 mm
Inspection
hatch
240 mm
890 mm
380 mm
240 mm
875 mm
890 mm

Blychau ystlumod

Cod yr Eitem: L089

Cyfradd Talu: £31.23 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Blychau ystlumod'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud blwch ystlumod

Mae blychau ystlumod ar gael ym mhob lliw a llun; isod mae manylion blwch ystlumod pren syml o'r enw Blwch Ystlumod Caint. Mae wedi bod yn llwyddiannus o ran denu ystlumod ac mae'n syml i'w adeiladu a'i lanhau ac nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw arno. Mae'r blwch hwn yn gofyn am tua 1.6m o bren garw i'w adeiladu; mae'n bwysig peidio â defnyddio pren wedi'i drin.

Mae rhagor o wybodaeth yma: Wooden bat boxes - Bat Boxes - Bat Conservation Trust

Prynu blwch ystlumod parod

Mae blychau ystlumod sydd wedi'u gwneud o gymysgedd o naddion pren a sment yn llwyddiannus iawn o ran denu ystlumod, gan fod ganddynt y fantais o insiwleiddiad thermol gwell, ymwrthedd i bydredd a difrod gan gnocellod y coed a gwiwerod ac maen nhw'n para'n hirach. Mae nifer o gyflenwyr yn gwerthu'r rhain. Mae gwahanol fodelau ar gael, yn dibynnu ar a ydych chi am eu rhoi ar goed neu adeiladau.

Lleoli blychau

Pa bynnag fath o flwch rydych chi'n ei ddewis, maen nhw'n fwyaf tebygol o gael eu defnyddio os ydynt wedi'u lleoli mewn mannau lle rydych chi'n gwybod bod ystlumod yn bwydo. Mae coetiroedd, parcdir a glannau afonydd yn lleoedd da, yn ogystal â gerddi sy'n agos at byllau, afonydd neu barciau. Dylai safleoedd fod wedi'u cysgodi rhag gwyntoedd cryfion ac i ffwrdd o ffynonellau golau artiffisial. Dylai blychau fod yn agored i'r haul am ran o'r dydd (fel arfer yn wynebu'r de, y de-ddwyrain neu'r de-orllewin) ac yn ddelfrydol o leiaf 4m uwchben y ddaear (lle mae modd eu gosod yn ddiogel). Dylid gosod blychau fel bod ystlumod yn gallu eu cyrraedd heb orfod osgoi rhwystrau megis canghennau coed.


Mae ystlumod angen amrywiaeth o amodau clwydo trwy gydol y flwyddyn. Trwy osod mwy nag un blwch, mewn ystod o leoliadau ac yn wynebu i wahanol gyfeiriadau, gall ystlumod ddewis y lleoliad clwydo mwyaf addas. Ceisiwch osgoi lleoli'r blwch fel bod y fynedfa'n wynebu i mewn i'r prifwynt neu fod glaw yn dod i mewn iddo.

Unwaith y bydd y blwch ystlumod yn cael ei ddefnyddio

Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod (neu unrhyw rywogaethau eraill a warchodir), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw glwydfan arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, rhaid i chi beidio â difrodi neu ddinistrio'r blwch ystlumod neu aflonyddu ar yr ystlumod.

Blwch Ystlumod Caint:

Design and measurements



Simple to construct, self-cleaning and low maintenance, the Kent bat box (designed by the Kent Bat Group) is a great way to encourage bats in your garden or your green space. The box should be rainproof and draught-free.

The only critical measurement is the width of the crevices: between 15-25mm. Other measurements are approximate. Timber should be approximately 20mm thick.

Measurements for one Kent bat box kit would be as follows:

Part	Quantity	Size (mm)
Roof (A)	1	x 160 x 20
Back (B)	1	x 200 x 20
Centre (C)	1	x 200 x 20
Front (D)	1	x 200 x 20
Centre Rails (E)	2	x 20 x 20
Front Rails (F)	2	x 15 x 15
Stand-offs (optional)	2	x 20 x 20

Material and Tools

This kit requires approximately 1.6m of rough wood and 25 screws (8 x 1 ½ inches) to assemble. You can rough it up by scraping with a suitable tool – possibly a saw blade or even a screwdriver but make sure you use untreated wood as some preservative chemicals can kill bats.

Pre-drill the holes to prevent the wood splitting. Alternatively you can assemble your bat box kit with nails although they tend to be less robust than boxes made with screws.

The hanging screws may either be at the edges of the front panel or in the side centre block (not in the rails!). Fixing may be by use of brackets, durable nylon cord or wires.

When installing the box, assess the risks of working at height, use the appropriate fittings and assess where the box will be located, in relation to any public access. Regular checks should be made to ensure the box remains securely fitted, especially after high winds.

Yr enghraifft uchod trwy garedigrwydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.

Arolwg ystlumod

Cod yr Eitem: L090

Cyfradd Talu: £750 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Arolwg ystlumod'.

Cefndir

Mae ystlumod yn famaliaid y nos bach sy'n gallu hedfan. Maen nhw'n bwyta pryfed ac yn defnyddio adlaisleoli i ddod o hyd i ysglyfaethau. Mae 17 rhywogaeth frodorol o ystlumod yn byw yn y DU, pob un ohonynt yn Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Fel y cyfryw, rhoddir amddiffyniad cyfreithiol llawn iddynt o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Cynefinoedd 2017 fel y'u diwygiwyd. Mae ystlumod yn aml yn ystyriaeth mewn prosiectau cynllunio a datblygu, gan eu bod yn defnyddio adeiladau a choed i glwydo ynddynt ac yn agored i effeithiau datblygu. Mae'n drosedd i ladd, anafu, dal neu aflonyddu ar ystlumod, neu i ddifrodi neu ddinistrio eu cynefinoedd clwydo (nid oes rhaid i ystlumod fod yn y cynefinoedd hynny ar y pryd), er y gall camau sydd wedi'u gwahardd gan y ddeddfwriaeth gael eu gwneud yn gyfreithlon trwy gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae'n hanfodol bod arolwg ystlumod yn cael ei gynnal cyn i unrhyw waith gael ei wneud ar unrhyw adeilad, strwythur neu goeden lle gallai ystlum glwydo.

Dylai'r arolwg gael ei gynnal gan ymgynghorydd â chymwysterau addas sydd wedi'i drwyddedu i gynnal arolygon ystlumod gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Rhaid i'r arolwg gadw at ganllawiau arferion gorau cyhoeddedig: Bat Surveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines 4th edition - Guidance for professionals - Bat Conservation Trust

Gellir cynnal arolwg rhagarweiniol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a bydd yn helpu i lywio'r gofyniad am arolygon ymddangosiad ystlumod; dim ond rhwng mis Mai a mis Medi y gellir cynnal y rhain. Bydd cynllunio ymlaen llaw yn helpu i atal oedi.

Dylai adroddiad manwl gael ei lunio gan yr ymgynghorydd ar ôl cwblhau arolygon. Rhaid i'r adroddiad hefyd gyfeirio'n glir at rif trwydded CNC y syrfewyr.

Os canfyddir ystlumod ac os canfyddir y bydd eich gwaith arfaethedig yn effeithio arnynt, efallai y bydd angen Trwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gan CNC cyn y gellir gwneud unrhyw waith. Bydd yr ecolegydd ymgynghorol yn eich cynghori ar hyn a bydd yn gallu gwneud cais am y drwydded ofynnol ar eich rhan. Ar ôl cael y drwydded, rhaid i chi gydymffurfio â'i holl amodau.

Os yw'r eitem Gwaith Cyfalaf isod wedi'u cynnwys yn eich dyfarniad grant, rhaid i chi beidio â dechrau ar y gwaith cyn i'r arolwg ystlumod a Thrwyddedau Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gael eu cymeradwyo. Os byddwch yn

dechrau ar y gwaith heb gymeradwyaeth, ni fyddwch yn cael eich talu am y gwaith ac efallai y bydd cosbau'n cael eu gosod ar eich cais.

Blychau nythu adar

Cod yr Eitem: L091

Cyfradd Talu: £21.50 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Blychau nythu adar'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud bocs adar

Mae blychau adar fel arfer wedi'u gwneud o bren, ond peidiwch â defnyddio pren wedi'i drin dan wasgedd 'arsenad copr cromad' gan y gall trwytholchion niweidio adar; mae estyll tua 2cm o drwch yn rhoi digon o gryfder ac inswleiddiad. Mae tyllau draenio yng ngwaelod y blychau yn hanfodol, a gellir trin blychau pren meddal ar y tu allan yn unig, gyda chadwolion seiliedig ar ddŵr y gwyddys eu bod yn ddiogel i anifeiliaid i ymestyn eu hoes. Gosodwch blatiau metel o amgylch tyllau mynediad blychau ar gyfer rhywogaethau llai fel amddiffyniad rhag cnocellod y coed a gwiwerod. Dylid cymryd gofal i gysgodi blychau rhag y prifwynt, glaw a golau'r haul. Mynedfa sy'n wynebu rhywle rhwng y gogledd a'r dwyrain sydd orau.

Mae gan flychau nythu y gwerth cadwraeth uchaf os cânt eu defnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu, er enghraifft, i gynyddu niferoedd golfanod y mynydd. Gallwch chwilio am gofnodion o rywogaethau adar yn eich ardal gan ddefnyddio **Aderyn**. Gall y titw tomos las a'r titw mawr drechddisodli titw'r helyg a thitw'r wern. Am y rheswm hwn, mae'n well osgoi gosod blychau mewn coetir sy'n gartref i ditw'r wern a thitw'r helyg. Gallwch ddefnyddio **Aderyn** i chwilio am boblogaethau titw'r helyg a thitw'r wern yn eich ardal chi.

Mae monitro cynnydd ymdrechion nythu'r adar gan ddefnyddio eich blychau nythu yn gallu rhoi boddhad mawr, ond mae'n gallu darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer cadwraeth hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael trwy Gynllun Cofnodion Nythu BTO.

Blychau ar gyfer adar sy'n nythu mewn tyllau

Gall y rhain gael eu defnyddio gan rywogaethau sy'n nythu mewn tyllau megis y titw mawr, y titw tomos las, y titw penddu, delor y cnau, y gwybedog brith, y tingoch, aderyn y to a golfan y mynydd.

Adeiladwaith

Mae'r blwch sylfaenol wedi'i wneud o blanc wedi'i fraslifio 130cm o hyd x 15cm o led x 2cm o drwch. Gan ddilyn y diagram torri, mae'r gwaith adeiladu yn gymharol syml. Mae'r uniadau yn cael eu dal gyda sgriwiau neu hoelion hirgrwn 5cm, ond peidiwch â hoelio'r caead i lawr gan y bydd angen ei dynnu bob blwyddyn i lanhau'r blwch. Dylid gosod y twll mynediad ar y blaen, gan ei fod yn darparu mwy o amddiffyniad i'r fynedfa gan y to uwchben, a dylai fod o leiaf 125mm o lawr y blwch.

Gellir colfachu'r caead gyda cholfach metel gwrthrwd, plastig neu rwber (darn o hen deiar beic) neu ei ddal o dan gantel metel. Yn yr achos hwn, dylid gosod bloc cadw bach addas yn y safle priodol ar ochr isaf y to. Bydd twll mynediad 3cm o ddiamedr yn addas i'r rhan fwyaf o rywogaethau:

25mm ar gyfer y titw tomos las, y titw penddu a'r titw mawr

28mm ar gyfer y titw mawr, golfan y mynydd a'r gwybedog brith

32mm ar gyfer aderyn y to a delor y cnau

45mm ar gyfer y drudwy

Lleoli blychau

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhywogaethau a restrir, gellir gosod blychau ar uchder o rhwng 1.2 a 5m ar naill ai goed neu adeiladau. Dylid asesu cyfleustra'r blychau i'w harchwilio (lle bo angen) yn ofalus, yng ngoleuni'r angen i amddiffyn blychau rhag ymyrraeth gan bobl neu ysglyfaethwyr.

Blychau blaen agored

Mae dyluniad y blwch nythu blaen agored yn addas ar gyfer y robin goch a'r siglen frith ac, o'i leoli'n ofalus, efallai y bydd y tingoch, y dryw, y siglen lwyd a bronwen y dŵr yn ei ddefnyddio.

Adeiladwaith

Mae'r diagram torri yn dangos sut mae modd gwneud y blwch blaen agored hwn o blanc o bren 2cm o drwch wedi'i fraslifio, 120cm o hyd x 15cm o led. Mae blychau blaen agored ychydig yn fwy, gydag arwynebedd llawr o 17.5cm² ac uchder ar y blaen o 22.5cm, wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ddenu bronwen y dŵr. Bydd y siglen lwyd yn defnyddio blychau tebyg sydd wedi'u lleoli'n addas.

Blaen 10cm o uchder ar gyfer y robin goch a'r siglen frith

Blaen 14cm o uchder ar gyfer y dryw

Blaen 6cm o uchder ar gyfer y gwybedog mannog

Lleoliad


Mae angen rhywfaint o ofal wrth leoli blychau blaen agored. Mae'n well gan y robin a'r dryw flychau sydd wedi'u gosod mewn safleoedd cudd ynghanol llystyfiant ar ochr boncyffion coed, waliau gardd a thai, ond gall hyn wneud y nyth yn fwy agored i ysglyfaethwyr. Bydd y siglen frith yn defnyddio blychau blaen agored mewn safleoedd mwy agored:

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Blychau Arbenigol

Mae angen dyluniadau wedi'u haddasu i weddu i adar megis y gwybedog mannog a'r dringwr bach, yn ogystal â rhywogaethau mwy fel cnocell y coed. Ewch i wefan yr RSPB **www.rspb.org.uk** am ragor o fanylion.

Diagramau torri ar gyfer blychau bach



Strapiwch y blwch i goeden neu defnyddiwch hoelion alwminiwm di-ben neu gromennog (llai niweidiol i lifiau a pheiriannau gwneud sglodion) nad ydynt wedi'u morthwylio i mewn yn llawn gan fod hyn yn caniatáu i'r goeden wthio'r bocs i ffwrdd heb hollti.

Mae'r diagramau uchod yn cael eu hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllaw BTO Rhif 23 'Nest boxes' gan Chris de Feu.

Unwaith y bydd y blwch nythu yn cael ei ddefnyddio

Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan adar (neu unrhyw rywogaeth arall a warchodir!), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw nyth arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, dylech osgoi difrodi neu ddinistrio'r blwch nythu neu aflonyddu ar yr adar.

Creu pyllau dŵr tymhorol

Cod yr Eitem: L092

Cyfradd Talu: £5.52/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Pyllau dŵr tymhorol'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Mae 'pwll dŵr tymhorol' yn bwll bach bas iawn gydag ymylon ar oleddf ysgafn sy'n darparu ardaloedd sy'n llawn pryfed ar gyfer rhywogaethau megis cornchwiglod sy'n bridio a'u cywion, yn ogystal â rhydyddion eraill sy'n bridio. Bydd lefel y dŵr yn codi ac yn gostwng yn dibynnu ar y tywydd. Yr amcan yw sicrhau bod ardal helaeth o fwd a thir gwlyb meddal lle gall y cywion fwydo trwy gydol y tymor bridio (tan ganol mis Gorffennaf).

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Yn amodol ar amodau penodol, gall eithriad FRAP fod yn berthnasol (os yw wedi'i lleoli o fewn 8/16m i brif afon/prif afon lanw. Eithriad 25 GN 044 Canllawiau Technegol: Eithriadau gweithgaredd perygl llifogydd ENG.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Paratoi ac amseru

Dylai'r gwaith o gloddio'r pwll dŵr tymhorol gael ei gwblhau erbyn canol mis Mawrth. Yn ddelfrydol, dylid cloddio'r pwll dŵr tymhorol yr hydref blaenorol, er mwyn sicrhau bod y peiriant cloddio yn cywasgu'r ddaear cyn lleied â phosibl ar ymylon y pwll a chaniatáu amser iddo lenwi ac i'r gwaelod ddod yn fwy anhydraidd.

Lleoliad

Dylid lleoli pyllau dŵr tymhorol mewn caeau mawr, agored, cymharol wastad ac isel, fel bod eu siâp, eu maint a'u lleoliad yn cyd-fynd â chymeriad y dirwedd. Caeau dros 3ha yw'r gorau.

Dylid cloddio'r pyllau mewn pantiau naturiol mewn ardaloedd llaith hysbys, yn rhan naturiol wlypaf y cae.

Ni ddylai coed fod yn hongian drostynt ac ni ddylent fod yn agos at wrychoedd, sy'n darparu clwydi neu orchudd i ysglyfaethwyr posibl.

Lleolwch byllau dŵr tymhorol o leiaf 100m o ffiniau caeau megis gwrychoedd a choetir ac i ffwrdd o linellau uwchben, i helpu i leihau'r risg o ysglyfaethu.

Fel arfer, nid yw priddoedd y mae dŵr yn llifo trwyddynt yn rhwydd yn addas, oni bai bod y lefel trwythiad yn agos at yr wyneb neu y gellir rheoli lefel y dŵr.

Dyluniad

Mae dyfnder y dŵr yn y pwll dŵr tymhorol yn bwysig. Dylai'r ymylon fod ar oleddf graddol iawn o wyneb presennol y ddaear tuag at y canol. Ni ddylai dyfnder y dŵr fod yn fwy na 50cm yn y gaeaf, gyda dyfnder cyfartalog o tua 25cm. Yn gynnar yn y gwanwyn, dylai lefel y dŵr fod rhwng 25 a 50cm yn hanner canol y pwll dŵr tymhorol, a rhwng 0-25cm yn yr hanner allanol.

Rhaid i'r ymylon fod ar oleddf ysgafn (dim mwy na 15°), gydag ymyl troellog a gorffeniad anwastad fel y gall cywion symud drostynt yn hawdd i chwilio am fwyd.



Dylai pob pwll dŵr tymhorol fod tua 5m mewn diamedr. Mae sawl pwll dŵr tymhorol bach yn well nag un mawr gan fod mwy o ymylon, sy'n nodweddion pwysig.

Dylai'r pridd sy'n cael ei symud i greu'r pwll dŵr tymhorol gael ei ddosbarthu'n eang a'i lefelu o amgylch y pwll; gallai unrhyw bentyrrau o ddaear sy'n weddill weithredu fel ardal i ysglyfaethwyr.

Ffensys ceirw

Cod yr Eitem: L093

Cyfradd Talu: £13.32/m

Dyma'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd er mwyn bod yn gymwys i gael taliadau ar gyfer 'Ffensys ceirw'.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid i brennau ffens fod wedi'u gwneud o bren caled o goetiroedd Cymru neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Rhaid i bob pren a ddefnyddir fod ag isafswm oes o 10 mlynedd.

Rhaid i'r prennau ffens, weiars, netin a staplau a ddefnyddir i adeiladu llinellau ffens cymeradwy fod yn ddeunyddiau newydd bob amser.

Rhaid i'r holl ddeunyddiau a safonau adeiladu hefyd gydymffurfio â'r manylebau manwl canlynol yn ogystal â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

Deunyddiau ac Adeiladu - Ffensys Ceirw

Dylid lleoli pyst tynnu mewn mannau lle mae'r ffens yn newid cyfeiriad (ar i fyny neu ar draws) neu o leiaf bob 200m (tua 600 troedfedd) ar linell syth.

Dylent fod wedi'u palu neu eu morthwylio o leiaf 90cm (3 troedfedd) i mewn i'r ddaear.

Dylid rhicio pwyslathau a'u hoelio i byst tynnu, a dylid eu sefydlogi gyda phlât gwthio wedi'i lifio 50cm x 38cm x 76cm (1 troedfedd 9" x 1½" x 3").

Dylid gosod pyst canol heb fwy na 5m (16 troedfedd 6") o fwlch rhyngddynt.

Rhaid i'r netin gael ei dynnu'n dynn a'i osod fel nad oes bwlch o fwy na 5cm (2") rhwng gwaelod y netin a'r ddaear.

Dylid gosod y weiren uchaf 10cm (4") uwchben top y netin.

Dylid gosod y weiar isaf i redeg ar hyd gwaelod y netin; dylai'r weiar ganol fod 1m (3 troedfedd 4") uwchben lefel y ddaear a dylai'r weiar uchaf fod ar hyd top y netin.

Dylai'r holl weiars fod wedi'u cysylltu'n ddiogel â'r netin gyda staplau cau neu rodenni cysylltu.

Peidiwch â gwneud y canlynol:


Defnyddio coed a llwyni fel pyst tynnu neu brennau ffens na'u defnyddio i gynnal weiar, staplau neu netin.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae'r taliadau safonol yn cynnwys lwfans ar gyfer datgymalu a thynnu ffensys presennol a'u gwaredu'n ddiogel.

Pyst tynnu	Isafswm diamedr top o 3m x 15cm	10 troedfedd x 6"
Pwyslathau	Diamedr top pren crwn 2.75m x 10-13cm	9 troedfedd x 4-5"
Pyst canolradd	Diamedr top pren crwn 2.75m x 8-10cm	9 troedfedd x 3-4"
Netin	Naill ai math tra hydwyth Neu fath tra hydwyth ysgafn	HT/13/190/15 LHT/13/190/15
Weiar uchaf	Weiar blaen dra hydwyth 1 x 12 ½ g	
Weiar flaen	Weiar blaen dra hydwyth 3 x 12 ½ g	
Staplau	4cm (1 ½ ") 8g	
Uchder gorffenedig	1.9m – 2m (6 troedfedd 4" - 6 troedfedd 6")	

Diagram – Ffensys Ceirw



Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a sicrhau bod y dogfennau ar gael ar gais.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Gatiau ceirw

Cod yr Eitem: L094

Cyfradd Talu: £391 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau ceirw' Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Os gwelir bod unrhyw waith rydych yn ei hawlio wedi'i wneud at safon wahanol, heb ganiatâd Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, gallai'r prosiect gael ei ystyried yn anghymwys. Bydd hynny'n golygu y caiff hawliadau eu gwrthod (neu y gofynnir ichi dalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl) ac y cewch eich cosbi yn unol â rheolau'r cynllun, oni bai ein bod yn asesu bod y gwaith wedi'i wneud at safon gyfatebol.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m gyda isafswm uchder o 1.8m.

Defnyddiwch gatiau wedi eu gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio.

Dylai'r pyst cau neu hongian fod o ddur wedi'i alfaneiddio 100mm neu o bren caled neu meddal wedi'i drin 200mm sgwâr.

Gosodwch bob postyn yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi. Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd.

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster canfod safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â:

Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Carthu Ffosydd

Cod yr Eitem: L095

Cyfradd Talu: £3.06/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Carthu Ffosydd'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes. Mae'n ddigon posibl y bydd ardaloedd arbennig ac unigryw fel Gwastadeddau Gwent yn defnyddio dulliau gwahanol, a bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnig cyngor am y dulliau hynny yn ôl yr angen.

Mae sianeli draenio yn gynefinoedd amrywiol iawn yn aml, ac yn cynnal ystod o blanhigion ac anifeiliaid sy'n ffynnu mewn dŵr. Mae dyfnder y dŵr a phroffil sianel ddraenio yn dylanwadu'n sylweddol ar ei gwerth bywyd gwyllt. Mae'r mwyafrif o blanhigion dyfrol fel arfer i'w gweld mewn dŵr bas hyd at 1m o ddyfnder, lle maen nhw'n gallu manteisio orau ar olau'r haul.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud gwaith glanhau ar un ochr i'r ffos yn unig, yn ddelfrydol ar yr ochr ddeheuol lle mae hynny'n bosibl.

Mae angen ymgorffori silffoedd ymylol neu lwybrau llifogydd lle bo hynny'n briodol.

Caniatáu i ddarnau sydd wedi'u glanhau gael eu hailgytrefu cyn mynd ati i lanhau lleiniau cyfagos.

Anelu at gylchdro o 1–10 mlynedd, yn dibynnu ar dwf llystyfiant.

Dylid cyfuno rhaglenni carthu ffosydd â rheolaeth briodol o lefelau dŵr trwy ffosydd sy'n bodoli eisoes neu ffosydd newydd. Gofynnwch am gyngor gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwneud gwaith yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 28 Chwefror, er mwyn gwarchod bywyd gwyllt. Pan fydd adar yn gaeafu neu'n bridio mewn caeau cyfagos, mae'n bosibl i'r 'ffenestr' ar gyfer gwaith o'r fath fod yn fwy cyfyng. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn gallu cynnig cyngor ar weithdrefnau.

Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y manylebau uchod:

Gall eich Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor ar sefydlu rhaglen gylchdro o garthu ffosydd. Bydd hyn yn atal unrhyw waddodion rhag cronni'n ormodol a rhwystro'r llif dŵr a llesteirio draenio. Bydd hefyd yn caniatáu i amrywiaeth o wahanol broffiliau ffosydd a dyfnderoedd dŵr ddatblygu ar draws eich tir, a thrwy hynny ddarparu'r budd mwyaf posibl i fywyd gwyllt.

Mae proffil delfrydol ffos yn ymgorffori dŵr o ddyfnderoedd gwahanol. Drwy gadw ochrau ar oleddf ysgafn neu gynnwys silff ymylol, mae'n bosibl cynnal cynefinoedd da ar yr un pryd â sicrhau bod y sianel ddraenio yn gallu gweithredu'n effeithiol.

Mae'n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Bwrdd Draenio Mewnol lleol yn gallu cynnig cyngor ar beiriannau a dulliau addas.

Blwch pathewod

Cod yr Eitem: L096

Cyfradd Talu: £21.58 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Blwch pathewod'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud blwch pathewod

Isod mae'r manylion ar gyfer blwch pren syml y gwyddom ei fod yn gweithio'n dda. Dylai'r pren a ddefnyddir fod heb ei drin:

Driliwch dyllau draenio yn y gwaelod (4 x 4mm o ddiamedr)

Atodwch baneli ochr i'r gwaelod gan ddefnyddio sgriwiau 35mm

Atodwch banel cefn gan ddefnyddio sgriwiau 35mm

Driliwch dwll mynediad yn y panel blaen (28mm o ddiamedr)

Atodwch ddwy astell i'r panel blaen, uwchben ac islaw'r twll. Dylai pob astell ymwthio allan 18mm (defnyddiwch sgriw 30mm i atodi'r estyll)

Atodwch banel blaen (gan ddefnyddio sgriw 35mm)

Torrwch neu blaeniwch ongl y drydedd astell i gyfateb i ongl y to (tua 15º)

Atodwch y drydedd astell i flaen y to (gan ddefnyddio sgriw 30mm)

Gorchuddiwch y to gyda darn o gwrs gwrthleithder fel ei fod yn hongian dros y blwch mwy na 2.5cm ar bob ymyl (gan ymestyn oes y blwch)

Rhowch un sgriw yng nghanol pob ochr (gan sicrhau nad ydynt yn ymwthio allan y tu mewn i'r bocs) fel angorau i sicrhau'r caead.

Weindiwch y wifren yn dynn o amgylch un sgriw a'i basio dros y to i'w ddal yn ei le, gan weindio'r wifren ar yr ail sgriw. Gadewch ddarn digon hir o wifren fel y gellir ei ddadweindio a'i ailweindio wrth fonitro yn y maes.

Lleoli blychau

Bydd pathewod yn defnyddio'r blychau yn ystod yr haf, i gysgu ac i fridio. Yn ystod y gaeaf, bydd y pathewod yn gaeafgysgu ar lefel y ddaear neu mewn tyllau ac agennau o dan y ddaear.

Mae gwifrau ar wahân yn cael eu defnyddio i gysylltu'r blychau â choesynnau cyll, gyda'r twll agosaf at y coesyn. Mae'r estyll ar y blaen yn rhoi bwlch rhwng y twll mynediad a'r coesyn, gan ganiatáu i'r pathewod fynd i mewn i'r blychau. Bydd y Swyddog Cymorth Maes yn cynghori lleoli'r blychau yn briodol o fewn ardal o gynefin addas.


Deddfwriaeth a monitro blychau


Mae pathewod yn cael eu gwarchod yn llym o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994 (fel y'u diwygiwyd).

Gellir defnyddio blychau pathewod i fonitro niferoedd y boblogaeth, gan ddarparu data gwerthfawr. Cysylltwch ag Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl os hoffech gynnwys eich blychau yn y Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol (NDMP).

Gellir cynnal a chadw blychau yn ystod y gaeaf pan fydd pathewod yn llai tebygol o fod yn bresennol. Mae'n werth cael gwared ar unrhyw hen ddeunydd nythu, gan gynnwys nythod adar. Mae gan nythod pathewod strwythur nodweddiadol: Hazel dormouse ecology - Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl

Diagramau ar gyfer blychau pathewod






Mae'r holl baneli wedi'u gwneud o bren 2.54cm (1") o drwch

3 x astell = 18mm x 25mm x 120mm o hyd

Gwifren ar gyfer y to = Gwifren gardd ganolig (gwyrdd)



Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio

- Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan bathewod (neu unrhyw rywogaeth arall a warchodir), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw nyth arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, rhaid i chi beidio â difrodi neu ddinistrio'r blwch neu aflonyddu ar y pathewod. Chwiliwch am arwyddion o amgylch y blychau a chadwch lygad y tu allan i'r tymor bridio am arwyddion ei fod wedi cael ei ddefnyddio.

Geodecstilau

Cod yr Eitem: L097

Cyfradd Talu: £1.05/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Geodecstilau ar gyfer llwybrau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Mae geodecstilau yn bilenni synthetig sy'n ffabrigau cryf a mân-dyllog a all fod yn ddefnyddiol wrth greu deunydd is-sylfaen. Maen nhw'n gweithio ar yr egwyddor eu bod yn gweithredu fel rhwystr ac yn atal y deunyddiau wyneb uwchlaw rhag cymysgu â'r is-radd wan islaw.

Mewn gwaith ar lwybrau troed, mae geodecstilau wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer i gynnal llwybrau agregau ar dir meddal. Buan iawn y bydd llwybr agregau sy'n cael ei osod yn uniongyrchol ar dir meddal yn methu wrth i'r garreg gael ei 'dyrnu' i mewn i'r is-radd ac wrth i ddeunydd mân o'r is-radd gael ei 'bwmpio' i fyny gan weithredoedd cerddwyr. Mae'r geodecstilau yn cadw'r haenau ar wahân a, thrwy gadw'r agregau gyda'i gilydd, yn rhoi cryfder strwythurol i'r llwybr. Mantais geodecstilau dros fathau eraill o is-sylfaen yw eu bod yn ysgafn i'w trin ac yn hawdd eu gosod.

Dim ond ar safleoedd sydd â graddiant ysgafn dros briddoedd mwynol llaith neu fawn bas y dylid ystyried yr eitem gwaith cyfalaf hon. Ni ddylid ei defnyddio ar lwybrau'r ucheldir sy'n agored i erydu.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:


Cloddiwch y llwybr i'r dyfnder gofynnol (gweler y nodiadau technegol am y gofynion penodol ar gyfer llwybrau), gan dynnu unrhyw gerrig mawr a allai aflunio'r geodecstil a gwneud wyneb mor wastad â phosibl. Yr enw ar y ffos sy'n cael ei chreu gan y gwaith cloddio hwn yw 'hambwrdd y llwybr' ('path tray').

Gosodwch y geodecstil naill ai ar draws gwaelod yr hambwrdd yn unig, neu gyda'r ymylon ran o'r ffordd i fyny'r ochrau ac wedi'u gorchuddio â thyweirch, fel y dangosir isod. Ar gyfer ardaloedd yr ucheldir lle mae twf llystyfiant yn araf, ni argymhellir dod â'r ymylon i fyny i'r wyneb er mwyn dal yr agregau yn eu lle, oherwydd hyd yn oed os yw wedi'i orchuddio â thyweirch, mae ymyl y ffabrig yn debygol o ddod i'r golwg. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, nid yw'n broblem fawr os yw agregau'n symud 'i'r ochr' i mewn i'r pridd, ac mae geodecstil wedi'i osod ar waelod hambwrdd y llwybr yn ddigonol.

Os oes angen mwy nag un rholyn arnoch, dylech eu gosod fel eu bod yn gorgyffwrdd 30cm o leiaf lle bynnag mae un mat yn gorffen ac un arall yn dechrau.

Dylid cadw geodecstilau allan o olau'r haul ac ni ddylid gyrru cerbyd dros geodecstil sydd heb ei orchuddio. Mae agregau yn cael eu tipio gan ddefnyddio lori godi, berfa

neu o hopran hofrennydd, yn cael eu lledaenu gan raddiwr neu raca a'u gywasgu gan roler neu blât sy'n dirgrynu. Gweler y nodiadau technegol perthnasol am yr hyn a ddisgwylir o ran dyfnder yr haenau sylfaen ac wyneb.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dylid cadw geodecstilau allan o olau'r haul ac ni ddylid gyrru cerbyd dros geodecstil heb ei orchuddio.

Mae agregau yn cael eu tipio gan ddefnyddio lori godi, berfa neu o hopran hofrennydd, yn cael eu lledaenu gan raddiwr neu raca a'u gywasgu gan roler neu blât sy'n dirgrynu. Gweler y nodiadau technegol perthnasol am yr hyn a ddisgwylir o ran dyfnder yr haenau sylfaen ac wyneb.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau ei bod ar gael ar gais.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r

gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Gwair gwyrdd

Cod yr Eitem: L098

Cyfradd Talu: £407.367/Ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gwair Gwyrdd'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddog Cymorth Maes yn nodi ardaloedd lle gallai cyflwyno gwair gwyrdd fod yn fuddiol ac yn dynodi'r gymuned darged i'w hadfer.

Mae'n bosibl defnyddio'r dechneg hon lle mae glaswelltir cyforiog o rywogaethau (y safle rhoi) o fewn dim mwy na 2 awr i'r safle sy'n cael ei adfer (y safle derbyn).

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Paratoi'r Safle Derbyn

Y nod yw creu bylchau yn y borfa i ganiatáu i hadau egino a sefydlu heb gystadleuaeth. Dylai'r safle fod â phorfa fer trwy dorri neu bori, gydag o leiaf 50% o dir moel wedi'i greu trwy bori gan dda byw neu drwy lyfnu ag oged bŵer, oged safonol neu oged ddisg.

Rhaid paratoi'r safle derbyn yn briodol fel ei fod yn barod erbyn y cyfnod torri gwair (diwedd Gorffennaf i ddechrau Awst).

Pori gan Anifeiliaid Trwm

Mae gwartheg yn effeithiol wrth greu bylchau, gan fod eu carnau yn torri'r borfa yn hawdd.

Dewis y Safle Rhoi

Dylai'r safle rhoi fod yn debyg o ran nodweddion i'r safle derbyn, er enghraifft math o bridd, pH y pridd a hydroleg. Yn y pen draw, dylai safleoedd mwy cyforiog o ran rhywogaethau roi canlyniadau gwell.

Ymhlith y ffactorau pwysig i'w hystyried mae safle rhydd o chwyn ac un sy'n cynnwys nifer o rywogaethau dymunol. Mae'n arfer dda i dynnu dim mwy na hanner glaswellt/llystyfiant safle.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma.

Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Paratoi'r Safle Rhoi

Dylid cynnal y gwaith i gyd ar yr un diwrnod, er bod modd gadael y glaswellt a dorrwyd yn ei le am un diwrnod (cyn ei godi) i leihau'r pwysau a'r swmp. Gallai hyn arwain at golli peth cribell felen a rhywogaethau eraill sy'n aeddfed iawn adeg amser y cynhaeaf.

Torrwch y gwair pan fydd hadau'r prif weiriau, fel peiswellt coch a rhonwellt y ci, yn llawn hadau aeddfed, a hadau cribell felen yn dal ar y planhigion (Gorffennaf i ddechrau Awst).

Dull sy'n cael ei awgrymu:

Defnyddiwch beiriant torri gwair heb gyflyrydd i dorri'r glaswellt.

Cribiniwch y glaswellt a dorrwyd yn rhesi/rhenciau.

Codwch y glaswellt gyda chynaeafwr porthiant a'i drosglwyddo i beiriant chwalu tail o'r cefn, a fydd yn hwyluso'r gwaith o'i wasgaru ar y safle derbyn. Mae'n bosibl defnyddio peiriant chwalu tail troelli hefyd.

Fel arall, casglwch y glaswellt a chreu hyd at chwech o fyrnau crwn ar y tro.

Llwythwch y byrnau ar drelar a'u cludo i'r safle derbyn.

Llwythwch y byrnau unigol i dorrwr gwellt; torrwch a gwasgaru'r glaswellt a dorrwyd ar draws y cae ar gymhareb o 1:3 o leiaf (ar gyfer pob hectar a dorrwyd ar y safle rhoi, gwasgaru dros ddim mwy na thri hectar ar y safle derbyn).

Os nad yw'r gwair yn cael ei dorri'n fân, rhaid ei daenu'n denau a pheidio â'i adael mewn pentyrrau ar y safle derbyn.

Mae'n bosibl addasu'r dechneg hon ar gyfer safleoedd bach, gan ddefnyddio peiriannau sydd ar gael ar y fferm, neu wneud y gwaith â llaw. Mae modd defnyddio peiriannau gwthio e.e. byrnwr bach, tociwr llwyni neu beiriant torri porfa petrol, ar gyfer cynaeafu gwair gwyrdd.

Yn fuan ar ôl taenu'r gwair, mae angen cyflwyno pori ysgafn neu rolio ysgafn i helpu hadau i ymsefydlu. Dylid cadw'r borfa'n fyr yn yr wythnosau ar ôl taenu er mwyn i olau dydd gynorthwyo gyda'r egino.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gadael i'r gwair yn y byrnau sefyll am fwy nag awr i atal y byrnau rhag cynhesu a'r hadau rhag dirywio.

Gosod wyneb caled

Cod yr Eitem: L099

Cyfradd Talu: £23.62/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Gosod wyneb caled'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

Mae taliadau ar gael am osod wyneb caled lle mae angen darparu:

Pad bwydo ar laswelltir wedi'i wella, wedi'i leoli mewn modd sy'n helpu i warchod nodweddion archeolegol neu gynefinoedd a allai gael eu heffeithio gan arferion presennol.

Arwyneb solet mewn bwlch cae neu o amgylch cafn dŵr wedi'i leoli mewn modd sy'n atal gwaddodiad mewn cyrsiau dŵr cyfagos.

Maes parcio ar gyfer nodwedd mynediad caniataol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosod wyneb caled ar badiau bwydo

Dylid adeiladu padiau bwydo mewn tri cham:

Ffurfio proffil

Haen sylfaen

Haen wyneb

Gellir ffurfio ffosydd ochr wrth gyflawni'r gwaith lle bo angen.

Rhaid i'r dimensiynau fod o leiaf 20 metr sgwâr ac o leiaf 2.5m o led.

Ffurfio Proffil

Dylid cloddio'r ddaear i gael gwared ar yr holl lystyfiant a phridd i ddyfnder o 15cm o leiaf neu i lawr i wyneb caled naturiol, p'un bynnag yw'r lleiaf. Gellir lledaenu llystyfiant a sborion ar ymylon y pad, ar yr amod eich bod yn cael caniatâd ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Dylid cloddio pocedi meddal yn y proffil, eu draenio a'u llenwi â deunydd craidd caled wedi'i gywasgu'n dda. Dylid tocio'r proffil i'r dimensiynau gofynnol cyn cywasgu.

Mae gwahanol fathau o ddaear yn gallu cynnal gwahanol bwysau. Ni ddylid lleoli wyneb caled ar fawn dwfn. Mae'r tabl canlynol yn rhoi syniad o ddyfnder y garreg sydd ei angen i ffurfio proffil ar y gwahanol fathau hyn o bridd.

Math o ddaear	Dyfnder y garreg	Sylwadau
Siâl cadarn	Dim angen carreg, deunydd yn caledu ei hun	Gan y gall siâl olchi allan yn rhwydd, dylech osgoi llethrau serth

Pridd brown a siâl gwannach	20-30cm	
Clai trwchus	30-45cm	Ar ôl ffurfio, dylech ‘dywodi’ neu orchuddio cerrig mân cyn ychwanegu cerrig mwy bras i roi cryfder

Haen sylfaen

Ni ddylai’r haen sylfaen fod yn llai na 15cm o drwch a dylid ei hadeiladu mewn haenau, heb fod yn fwy na 12.5cm o drwch ar ôl cywasgu. Mae’r trwch a nodwyd yn cyfateb i ddyfnder cyfartalog craidd caled wedi’i gywasgu, gan gynnwys y deunydd tywodi. (Mae craidd caled yn cael ei ddosbarthu fel ‘MOT Math 1’ ac mae’n amrywio o 37mm o ddiamedr i lawr i lwch.)

Dylai wyneb yr haen sylfaen ddisgyn i un ochr neu i ddwy ochr y wyneb caled neu’r maes parcio. Y cwymp neu’r cambr a argymhellir yw 1 mewn 25.

Haen wyneb

Dylai wyneb yr haen sylfaen gael ei orchuddio â haen wynebo o ddeunydd rhwymo craidd caled cymysg a dylid ei gywasgu’n dda. Mae cydrannau’r haen wyneb yn cael eu dosbarthu fel ‘MOT Math 2’ ac yn amrywio o ddiamedr o 18mm i lawr i lwch. Dylai dyfnder cywasgedig yr haen wyneb orffenedig fod yn o leiaf 2.5cm ond dim mwy na 5cm.

Meysydd parcio

Fel ar gyfer wyneb caled ar gyfer padiau bwydo, bydd y rhain wedi’u hadeiladu o gerrig wedi torri, ond bydd yn cynyddu dyfnder yr haen sylfaen i 30cm, wedi’i gosod mewn haenau o ddim mwy na 15cm.

Nodiadau Ychwanegol

Mae lled yr wyneb caled yn cael ei fesur ar draws top yr haen wyneb nid lled yr haen sylfaen.

Dylid defnyddio rholer ffordd trwm neu roler dirgrynol i gywasgu’n ddigonol.

Gosodwch garreg i ddyfnder o 200mm o leiaf ar draws y bwlch cae ac yn yr ardal sy’n arwain ato i greu pad craidd caled gwastad.

Rhaid atgyweirio unrhyw draul neu ddifrod gormodol, fel y difrod neu’r draul a achosir gan gynaeafu neu ddigwyddiadau naturiol, i ardal o graidd caled ar unwaith.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio tarmacadam wedi’i orchuddio, asffalt neu arwyneb bitwminaidd arall neu goncrit.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau ei bod ar gael ar gais.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen cydsyniad hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.

Rheoli Grug: Llosgi

Cod yr Eitem: L100

Cyfradd Talu: £195/Ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Llosgi'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol ar y safon gael cymeradwyaeth Swyddog Cymorth Maes.

Mae tân wedi cael ei ddefnyddio gan reolwyr tir ers miloedd o flynyddoedd. O'i gynllunio'n ofalus, mae llosgi dan reolaeth yn gallu bod yn adnodd gwerthfawr i gadw trefn ar gynefinoedd. Fodd bynnag, mae llosgi anghyfrifol yn weithgaredd peryglus sy'n gallu achosi niwed a difrod i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Mae llosgi rhy aml a llosgi cynefinoedd sensitif yn gallu achosi niwed i'r llystyfiant a'r bywyd gwyllt cysylltiedig.

Dylid defnyddio llosgi dan reolaeth yn bennaf fel adnodd rheoli ar rostir sych lle mae grug, '*Calluna vulgaris',* yn tyfu'n helaeth. Ar dir is, mae hefyd yn bosibl llosgi rhostir gyda chymysgedd da o grug, grug y mêl ac eithin mân. Dim ond fel rhan o gynllun adfer y dylid llosgi ardaloedd diraddiedig iawn o rostir sych.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cytuno ar ardaloedd i'w llosgi gyda Swyddog Cymorth Maes.

Cytuno ar hyd y cylchdro gyda Swyddog Cymorth Maes.

Cytuno gyda Swyddog Cymorth Maes ar drefn bori briodol ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u llosgi.

Llosgi pan fydd y grug yn cyrraedd 20-30cm o daldra

Gofalu eich bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt 2008.

Cydymffurfio â'r rheolau a amlinellir yn y llyfryn 'Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru', a chwblhau'r adran 'Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru'.

Dylid cadw cyfran o'r llystyfiant heb ei dorri/heb ei losgi i ddatblygu'n grug talach a hŷn lle mae'r canghennau yn agor allan a chaniatáu mwy o olau i gyrraedd y brigdwf i annog tyfiant mewn haenau.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi.

Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i losgi:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth ar dir isel

Peidiwch â gwneud y canlynol:

llosgi'r un darn o lystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

llosgi yn y parthau canlynol:

Coetir, ymylon coetir a phrysgwydd

Mae coetir llydanddail a chonwydd, prysgwydd a choed bach, fel coed bedw, ynn, y ddraenen wen a helyg, yn gynefinoedd gwerthfawr. Nid yw tân yn adnodd rheoli priodol ar gyfer coetir a phrysgwydd ac mae lledaeniad tanau i'r cynefinoedd hyn yn debygol o fod yn niweidiol iawn, yn enwedig os yw meryw yn bresennol gan na fydd yn ail-egino ar ôl llosgi.

Corsydd, ffeniau a rhostir gwlyb

Mae gorgors yn ffurfio lle mae mawn yn datblygu dros ardaloedd eang a chymharol wastad o ucheldir, gan eu gorchuddio â mawn i bob pwrpas. Mae rhostir gwlyb, cyforgors a ffeniau i'w gweld ar yr ucheldir a'r iseldir. Mae rhostir gwlyb yn datblygu lle mae draeniad yn cael ei lesteirio, yn aml ar fawn bas. Mae ffeniau a chorsydd yn aml yn datblygu ar loriau dyffryn dirlawn.

Mae ffynhonnau, mignedd a phyllau yn aml yn digwydd oddi mewn i gynefinoedd eraill mwy helaeth ar yr ucheldir a'r iseldir. Maen nhw'n aml yn cynnwys mwsoglau arbenigol, planhigion talach, infertebratau ac amffibiaid, sy'n arbennig o sensitif i losgi.

Rhostir yr arfordir

Mewn amodau arforol bregus, mae'n hawdd i briddoedd tenau gael eu difrodi, a'r rhostir yn araf iawn i adfywio.

Ardaloedd lle mae erydiad pridd

Mae erydiad pridd yn gallu digwydd yn naturiol, ond mae ar ei fwyaf cyffredin yn sgil gweithgaredd dynol ar yr ucheldir a'r iseldir. Enghreifftiau cyffredin ar yr ucheldir yw torlannau mawn a rhigolau erydu. Gallai llosgi ar fawndir danio'r mawn, gan greu risg uchel o danau gwyllt.

Ardaloedd lle mae'r pridd yn denau iawn

Mae'r Cod Llosgi Grug a Glaswellt yn diffinio'r rhain fel ardaloedd sydd â thrwch pridd o lai na 5cm (2 modfedd) dros y graig waelod. Maen nhw'n codi ledled yr ucheldir, yr iseldir ac ar yr arfordir, yn naturiol a lle mae gweithgaredd dynol wedi achosi erydiad pridd helaeth. Yn aml, maen nhw'n hawdd i'w hadnabod oherwydd presenoldeb creigwely yn ymwthio trwy'r pridd. Mae rhostir arfordirol yn arbennig o sensitif i losgi. Mae'r amodau yn aml yn rhy sych ar gyfer llosgi gan fod y pridd yn draenio'n gyflym iawn.

Llethrau serth a cheunentydd

Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu diffinio fel llethrau gyda graddiant o 1 mewn 2 neu lai. Mae tanau yn cymryd mwy o amser i ledaenu ar lethrau serth, gan arwain at dân poeth ac araf sy'n niweidio'r haen mwsogl ac yn rhwystro ailddyfiant, lle mae mwy o berygl o erydiad. Maen nhw hefyd yn anodd eu rheoli ac yn gallu ehangu wrth symud i fyny'r llethr.

Mae ceunentydd yn nodweddion cyffredin ar ucheldir Cymru. Maen nhw'n gallu ymddwyn fel simnai, gan gynyddu dwyster a chyfradd lledaenu tân yn sylweddol.

Ardaloedd o fewn 10m i gyrsiau dŵr

Mae amrywiaeth o gyrsiau dŵr naturiol (e.e. nentydd) ac artiffisial (e.e. ffosydd) i'w gweld ledled yr ucheldir, ac ar rostir a glaswelltir ar dir isel. Dylai unrhyw losgi orffen o fewn 10m i'r cwrs dŵr er mwyn sicrhau bod llystyfiant y glannau'n gyflawn, gan greu coridor i fywyd gwyllt a 'chlustog' ar gyfer dŵr ffo o wyneb y tir.

Rhywogaethau sensitif

Mae llosgi yn fygythiad mawr i rai ardaloedd prin iawn o rostir sych cyforiog o rywogaethau. Mae'n bosibl adnabod y cynefinoedd hyn trwy eu haenau trwchus o fwsoglau coch tywyll ynghyd ag amrywiaeth o redyn, rhostir a phlanhigion byr eu tyfiant. Ni ddylid llosgi ardaloedd sy'n cynnwys meryw chwaith.

Ardaloedd gyda brigiadau creigiog a chlogfeini

Rhaid i raglenni llosgi dan reolaeth sicrhau eu bod yn cadw'n glir o ardaloedd o frigiadau creigiog, clogfeini a sgri.

Rhagor o wybodaeth

Am arweiniad pellach, mae taflenni gwybodaeth a llyfrynnau ar gael gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/cod-llosgi-grug-a-glaswellt.pdf

Canllawiau UKFS

Y Gymdeithas Gwarchod Adar www.rspb.org.uk

Rheoli Grug: Torri

Cod yr Eitem: L101

Cyfradd Talu: £65/Ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Torri'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad ar y safon gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Torri Grug

Mae'n bosibl defnyddio torri fel dewis amgen i losgi ym mhobman lle byddai llosgi fel arfer yn cael ei ganiatáu. Gallai torri fod yn ddull rheoli gwell ar safleoedd lle na ddylid llosgi, lle mae'n anodd rheoli tân, neu le nad yw rheolwyr tir yn gallu cydymffurfio â chanllawiau llosgi. Fodd bynnag, gallai newid o losgi i dorri arwain at oblygiadau i gyfansoddiad y llystyfiant. Dim ond ar orgors lle mae'r gorchudd grug yn sylweddol iawn (>85%) ac yn mygu plu'r gweunydd unben y dylid ystyried torri grug.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i dorri:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth mewn mannau eraill

Cytunwch ar gynllun rheoli torri llystyfiant pum mlynedd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn unol â'r rheolau canlynol:

Torri clytiau rhwng 0.25 ac 1ha.

Torri i uchder o ddim llai na 5cm a dim mwy na 10cm.

Torri i annog aildyfiant rhostir corlwyni amrywiol fel bod yr ardal dorri yn cynnwys o leiaf ddau o'r canlynol o fewn pum mlynedd; grug, grug y mêl, llus, llus coch, creiglus neu grug croesddail.

Osgoi torri'r un darn o lystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

Osgoi torri llystyfiant rhostir byr (<10cm) neu rostir â thrwch pridd tenau (dyfnder <5cm) neu ar lethrau serth (1 mewn 2 neu lai), neu le mae dros 50% yn greigiau neu'n sgri.

Osgoi torri safleoedd lle mae meryw wedi'u cofnodi.

Dylid cadw cyfran o'r llystyfiant heb ei dorri/heb ei losgi i ddatblygu'n grug talach a hŷn lle mae'r canghennau yn agor allan a chaniatáu mwy o olau i gyrraedd y brigdwf i annog tyfiant mewn haenau.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA

hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri mwy na thraean o'r llystyfiant rhostir yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

Caniatáu torri i annog glaswelltir sur neu redyn i ledaenu.

Caniatáu torri i gynyddu gorchudd eithin mân uwchlaw 50%.

Torri ardaloedd o rostir arfordirol ataliedig, agored yn agos at y môr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond pan mae'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y rhoddir caniatâd;

nid yw rheoli torri yn gwrthdaro ag unrhyw amcanion strategol ar gyfer y safle

mae rhaglen dorri hirdymor wedi'i chytuno gyda'r tirfeddiannwr neu'r rheolwr tir

mae cyfundrefn bori briodol ar waith.

Mae'n bosibl defnyddio torri yn yr ardaloedd canlynol hefyd:

Ar gyfer torri ardaloedd o rostir ucheldir gyda dim neu fawr ddim grug, e.e. rhostir gyda thrwch o laswellt y gweunydd neu frwyn, er mwyn annog twf grug a rhywogaethau eraill sy'n nodweddiadol o rostir a chorsydd.

Ar gyfer creu rhwystrau tân ar ardaloedd o grug coediog ei natur, lle mae risg sylweddol o danau gwyllt neu golli gafael ar waith llosgi dan reolaeth.

Ar rostir lle mae eithin mân yn tyfu'n helaeth, a dim neu fawr ddim grug a grug y mêl yn tyfu.

Fel dewis amgen i sbot-losgi eithin mân.

Ar gorsydd a rhostir gwlyb a llaith lle mae cyfran uchel o laswellt y gweunydd a/neu drwch o figwyn yn bresennol.

Ar gyfer creu brêc rhag tân wrth ochr coetir a choedwigoedd.

Wrth ymyl pocedi o redyn, ond mae angen monitro lleiniau a dorrwyd am olion o oresgyniad rhedyn ac atal torri pellach os bydd hyn yn digwydd.

Rheoli Grug: Torri a gwaredu

Cod yr Eitem: L102

Cyfradd Talu: £148.2936/Ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Torri a Gwaredu'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond mae rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Torri a Gwaredu Grug

Mae'n bosibl defnyddio torri fel dewis amgen i losgi ym mhobman lle byddai llosgi fel arfer yn cael ei ganiatáu. Gallai torri fod yn ddull rheoli gwell ar safleoedd lle na ddylid llosgi, lle mae'n anodd rheoli tân, neu le nad yw rheolwyr tir yn gallu cydymffurfio â chanllawiau llosgi. Fodd bynnag, gallai newid o losgi i dorri arwain at oblygiadau i gyfansoddiad y llystyfiant. Dim ond ar orgors lle mae'r gorchudd grug yn sylweddol iawn (>85%) ac yn mygu plu'r gweunydd unben y dylid ystyried torri grug.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i dorri:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth mewn mannau eraill

Cytunwch ar gynllun rheoli torri a gwaredu llystyfiant pum mlynedd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn unol â'r rheolau canlynol:

Torri clytiau rhwng 0.25 ac 1ha.

Torri i uchder o ddim llai na 5cm a dim mwy na 10cm.

Torri i annog aildyfiant amrywiaeth o rostir corlwyni fel bod yr ardal dorri yn cynnwys o leiaf ddau o'r canlynol o fewn 5 mlynedd; grug, grug y mêl, llus, llus coch, creiglus neu grug croesddail.

Osgoi torri'r un darn o lystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

Osgoi torri llystyfiant rhostir byr (<10cm) neu rostir â thrwch pridd tenau (dyfnder <5cm) neu ar lethrau serth (1 mewn 2 neu lai), neu lle mae dros 50% yn greigiau neu'n sgri.

Osgoi torri safleoedd lle mae meryw wedi'u cofnodi.

Dylid cael gwared ar lystyfiant a dorrwyd o'r safle, naill ai trwy ddefnyddio cynaeafwr porthiant neu drwy fyrnu'r llystyfiant. Bydd gwaredu'r llystyfiant a dorrwyd yn helpu i

annog aildyfiant, a hefyd yn parhau â'r broses o ddisbyddu maethynnau sy'n cynnal amodau rhostir.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri mwy na thraean o'r llystyfiant rhostir yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

Caniatáu torri i annog glaswelltir sur neu redyn i ledaenu.

Caniatáu torri i gynyddu gorchudd eithin mân uwchlaw 50%.

Torri ardaloedd o rostir arfordirol ataliedig, agored yn agos at y môr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond pan mae'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y rhoddir caniatâd;

nid yw rheoli torri a gwaredu yn gwrthdaro ag unrhyw amcanion strategol ar gyfer y safle

mae cytundeb yn ei le gyda'r tirfeddiannwr neu'r rheolwr tir ar raglen dorri hirdymor

mae cyfundrefn bori briodol ar waith.

Mae'n bosibl defnyddio torri yn yr ardaloedd canlynol hefyd:

Ar gyfer torri ardaloedd o rostir ucheldir gyda dim neu fawr ddim grug, e.e. rhostir gyda thrwch o laswellt y gweunydd neu frwyn, er mwyn annog twf grug a rhywogaethau eraill sy'n nodweddiadol o rostir a chorsydd.

Ar gyfer torri brêc rhag tân ar ardaloedd o grug coediog ei natur, lle mae risg sylweddol o danau gwyllt neu golli gafael ar waith llosgi dan reolaeth.

Ar rostir lle mae eithin mân yn tyfu'n helaeth, a dim neu fawr ddim grug a grug y mêl yn tyfu.

Fel dewis amgen i sbot-losgi eithin mân.

Ar gorsydd a rhostir gwlyb a llaith lle mae cyfran uchel o laswellt y gweunydd a/neu drwch o figwyn yn bresennol.

Ar gyfer creu brêc rhag tân wrth ochr coetir a choedwigoedd.

Wrth ymyl pocedi o redyn, ond mae angen monitro lleiniau a dorrwyd am olion o oresgyniad rhedyn ac atal torri pellach os bydd hyn yn digwydd.

Llewys rhwyll coed unigol: >1.2m

Cod yr Eitem: L103

Cyfradd Talu: £38.51 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.2m'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys rhwyll coed yn amddiffyn coed unigol, megis coed mewn parcdir a phlaniadau amaeth-goedwigaeth, trwy atal anifeiliaid sy'n pori rhag difrodi'r goeden.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch lawes rwyll wedi'i gwneud o rwyll wifrog alfanedig wedi'i weldio.

Dylai'r llawes fod wedi'i gweithgynhyrchu o rwyll trwch 12 (2.5mm) 50x50mm neu 25mmx75mm.

1.2m o uchder o leiaf.

Dylai diamedr y llawes fod o leiaf 40cm

Defnyddiwch o leiaf ddau bostyn pren sydd â diamedr o 10cm x 10cm o leiaf i gadw'r llawes rwyll yn ei lle. Defnyddiwch staplau galfanedig i osod llewys rhwyll ar y pyst.

Defnyddiwch byst sy'n cynnwys pren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau'n rhai newydd sbon.

Tynnwch neu newidiwch y llewys coed cyn iddynt effeithio ar dwf coed.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gellir cynnwys pyst ychwanegol i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol i'r llawes rwyll.

Gallai rhwyll wifrog gynnwys 'pigau'. Dim ond mewn ardaloedd heb fynediad cyhoeddus a lle mae'r effaith ar dda byw wedi'i hasesu y mae'r eitem hwn yn addas.

Cynnal y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu a/neu mae'r risgiau o ddifrod gan anifeiliaid sy'n pori wedi stopio

Dylech fonitro a chynnal a chadw'r coed, y llewys rhwyll a'r pyst cynnal yn rheolaidd. Dylech dynnu a newid y llawes rwyll a'i physt cynnal os ydynt yn difrodi'r goeden.

Llewys rhwyll coed unigol: >1.8m

Cod yr Eitem: L104

Cyfradd Talu: £43.52 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.8m'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys rhwyll coed yn amddiffyn coed unigol, megis coed mewn parcdir a phlaniadau amaeth-goedwigaeth, trwy atal anifeiliaid sy'n pori rhag difrodi'r goeden.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch lawes rwyll wedi'i gwneud o rwyll wifrog alfanedig wedi'i weldio.

Dylai'r llawes fod wedi'i gweithgynhyrchu o rwyll trwch 12 (2.5mm) 50x50mm neu 25mmx75mm.

1.8m o uchder o leiaf.

Dylai diamedr y llawes fod o leiaf 40cm

Defnyddiwch o leiaf ddau bostyn pren sydd â diamedr o 10cm x 10cm o leiaf i gadw'r llawes rwyll yn ei lle. Defnyddiwch staplau galfanedig i osod llewys rhwyll ar y pyst.

Defnyddiwch byst sy'n cynnwys pren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau'n rhai newydd sbon.

Tynnwch neu newidiwch y llewys coed cyn iddynt effeithio ar dwf coed.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gellir cynnwys pyst ychwanegol i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol i'r llawes rwyll.

Gallai rhwyll wifrog gynnwys 'pigau'. Dim ond mewn ardaloedd heb fynediad cyhoeddus a lle mae'r effaith ar dda byw wedi'i hasesu y mae'r eitem hwn yn addas.

Cynnal y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu a/neu mae'r risgiau o ddifrod gan anifeiliaid sy'n pori wedi stopio

Dylech fonitro a chynnal a chadw'r coed, y llewys rhwyll a'r pyst cynnal yn rheolaidd. Dylech dynnu a newid y llawes rwyll a'i physt cynnal os ydynt yn difrodi'r goeden.

Bylchau cae newydd

Cod yr Eitem: L105

Cyfradd Talu: £135 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Bylchau cae newydd'.

Mae'r eitem gwaith cyfalaf hwn i'w ddefnyddio lle mae lleoliadau'r bylchau cae presennol yn peri risg uchel o greu problemau llygredd o ddŵr ffo dros y pridd. Trafodwch hyn gyda'ch Swyddog Cymorth Maes a chytunwch ar ardal addas i adleoli'r bwlch cae.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid adleoli'r gât bresennol i fan lle mae llai o risg o lygredd o ddŵr ffo pridd.

Cyn agor bwlch cae newydd, gofalwch fod gennych bob cydsyniad, caniatâd neu drwydded gywir, gan y bydd angen caniatâd cynllunio ar unrhyw fylchau cae newydd sy'n agor i briffyrdd. Gofalwch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddwyd.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Agorwch fwlch ar gyfer gosod bwlch cae newydd mewn safle addas fel y cytunwyd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Gallai hyn olygu tynnu rhan o wal, gwrych neu glawdd trwy ddefnyddio peiriannau priodol.

Os oes angen, defnyddiwch y grant gwaith cyfalaf 'gosod wyneb caled' i greu ardal o wyneb caled yn y bwlch cae newydd ac o'i gwmpas.

Gellir cynnwys grantiau gwaith cyfalaf ychwanegol hefyd os oes angen gât newydd.

Dylid llenwi'r bwlch a grëwyd o ganlyniad i symud yr hen fwlch cae i ffurfio rhwystr lled-athraidd, gan ddefnyddio deunyddiau ffin yn unol â thraddodiadau lleol. Gellir ychwanegu gwaith cyfalaf ychwanegol, gan gynnwys plannu gwrychoedd neu adeiladu waliau cerrig, er enghraifft.

Dylid ailgyfeirio llwybrau sy'n gysylltiedig â'r bwlch cae a gwella'r rhannau nas defnyddir ar hyn o bryd.

Lle bo'n bosibl, cadwch a/neu ailddefnyddiwch y pyst gât o garreg.

Coed perllan: impio ac impio blagur

Cod yr Eitem: L109

Cyfradd Talu: £47 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed Perllan: Impio ac Impio Blagur'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Dull o luosogi coed ffrwythau newydd gan ddefnyddio blagur neu frigau yw impio. Mae'n cynnwys cyfuno impyn o goeden a'i asio i gangen neu goesyn coeden arall (y gwreiddgyff). Mae gwahanol wreiddgyffion yn cael eu dewis yn ôl maint, addasrwydd i safle a'u gallu i oddef amodau pridd penodol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae impio ac impio blaguryn coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gwblhau cwrs hyfforddi.

Dewis Gwreiddgyff

Chwiliwch am egin-goed iach, rhydd o blâu a chlefydau.

Torrwch o blanhigion sy'n tyfu'n gadarn.

Defnyddiwch ddarnau un coesyn.

Dechreuwch ddyfrio a chwynnu wythnos cyn impio neu impio blagur.

Impio

Mae darn byr o impyn yn cael ei gysylltu â'r gwreiddgyff ar ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn.

Dewis Impyn (Toriadau)

Gofalwch ddefnyddio impyn o'r cyltifar o'ch dewis.

Mae angen iddo ddod o famgoeden iach, rhydd o blâu a chlefydau.

Defnyddiwch flaen aeddfed o egin, yn ddelfrydol gyda llygaid ymwthiol.

Casglwch o'r canghennau canol, yn hytrach na'r brig neu'r bôn, ac o ganghennau sy'n 6 i 12 mis oed.

Dylai'r diamedr fod yn debyg i ddiamedr y gwreiddgyff (oddeutu trwch pensil).

Torrwch impynnau 15 i 20cm o hyd, er mwyn gallu eu torri'n fyrrach wrth impio.

Rhaid i impyn gael 3 i 4 llygad blagur ar gyfer impio llwyddiannus.

Tynnwch yr holl ddail i leihau anweddu.

Cludwch impynnau mewn lliain llaith glân, eu cadw'n glaear ac mewn cysgod. Blwch oeri yw'r dull gorau.

Mae cyfraddau impio ac impio blagur llwyddiannus ar eu gorau os yw'r impynnau'n ffres. (Wedi'u cadw am 2 i 3 diwrnod)

Glendid

Glanhewch eich offer a'ch dwylo sawl gwaith, cyn ac yn ystod y gwaith (defnyddiwch ffwngladdwr trwyadl neu ddiheintydd cartref ar gyfer sterileiddio).

Gwnewch yn siŵr nad yw'ch dwylo na'r impynnau yn cyffwrdd â'r pridd tra byddwch chi'n impio.

Torrwch yr impynnau a'r gwreiddgyff gydag un toriad clir.

Peidiwch byth â chyffwrdd â thoriad yr impyn neu'r gwreiddgyff.

Paratoi'r Gwreiddgyff ar gyfer Impio

Dewiswch wreiddgyff gydag un coesyn cadarn ei ffurf, ac wedi'i ddyfrio'n dda.

Torrwch y gwreiddgyff yn ôl i 15-30cm, gan ddefnyddio toriad croeslin ar

ongl o 45º.

Cymharwch ddiamedr eich impynnau. Rhaid i ddiamedr yr impyn a'r gwreiddgyff fod yr un fath.

Paratoi'r Impyn ar gyfer Impio

Tynnwch unrhyw ben o'r impyn sy'n sych.

Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw un o'r toriadau. Chwiliwch am impyn sydd union yr un diamedr â'ch gwreiddgyff.

Gwnewch doriad 45º sy'n cyfateb i'r toriad ar y gwreiddgyff. Dylai'r toriadau fod yn llyfn ac yn syth.

Atodi'r Impyn i'r Gwreiddgyff

Atodwch yr impyn yn llyfn i'r gwreiddgyff. Peidiwch â phwyso'n rhy gryf na chyffwrdd y toriad.

Y rheol rhisgl i risgl (gwreiddgyff ac impyn): Gofalwch fod rhisgl yr impyn a'r gwreiddgyff yn cydweddu'n iawn. Mae'r canlyniad gorau yn debygol os yw'r ddwy ochr yn cyfateb yn llwyr. Ni fydd yr impio'n llwyddo os nad oes o leiaf un ochr i'r impyn a'r gwreiddgyff yn cydweddu. Dim ond rhannau meddal yr impyn a'r gwreiddgyff o dan y rhisgl (cambiwm) sy'n gallu tyfu dros y rhwyg a'i wella.

Clymu'r Uniad â Thâp

Er mwyn amddiffyn yr uniad impio rhag dŵr, clefyd a sychder, rhaid ei glymu gyda stribyn polythen tenau. Clymwch yn syth ar ôl impio.

Dylai'r stribyn fod yn 25cm o hyd ac 1cm o led.

Dechreuwch glymu ar y gwreiddgyff islaw'r uniad impio a weindio'r tâp am i fyny.

Mae angen ochrau'r tâp orgyffwrdd i atal dŵr rhag mynd i mewn.

Gorchuddiwch yr uniad impio tuag at frig yr impyn.

Pan mai dim ond 6 neu 7cm o dâp sy'n weddill, mae angen ei weindio am i lawr, gan ofalu bod y tâp yn gorgyffwrdd eto.

Seliwch y tâp gyda chwlwm syml, neu gorchuddiwch y toriadau'n llwyr â chwyr garddwriaethol.


Amddiffyn yr Impyn a'r Uniad Impio

Gorchuddiwch yr impyn a'r uniad impio gyda bag polythen tryloyw i gyfyngu i'r eithaf ar golledion dŵr.

Gorchuddiwch yn syth ar ôl impio

Mae'n bwysig trin y goeden wedi'i himpio yn ofalus. Os ydych chi'n symud y cynhwysydd, gafaelwch yn ei waelod. Dyfrwch yr holl goed wedi'u himpio yn syth ar ôl eu himpio.

Peidiwch â gadael yr impiadau yn llygad yr haul neu mewn gwynt cryf.



Impio Blaguryn

Mae impio blaguryn yn ffordd arall o luosogi llystyfiant, lle mae un blaguryn yn cael ei atodi at wreiddgyff sy'n tyfu yn ystod yr haf. Mae'n dilyn yr un egwyddor ag impio, ac mae'n gofyn am yr un glendid, sgiliau a mewnbwn.

Yn lle impyn gyda 3 i 4 llygad blagur, dim ond un sy'n cael ei ddefnyddio wrth impio blaguryn. Mae'r meini prawf ar gyfer casglu impyn yr un fath ag ar gyfer impio.

Dim ond os yw rhisgl y gwreiddgyff a'r impyn yn feddal ac yn codi'n hawdd y mae impio blaguryn yn bosibl. Mae'r toriad impio yn edrych fel llythyren T.

Mae impio blaguryn yn gyffredin ar gyfer lluosogi cyltifarau sitrws ac eirin gwlanog.

Dulliau Cyffredin o Impio Blaguryn

Impio blaguryn mewn toriad siâp T ac mewn toriad siâp T ben i waered

Impio blaguryn gyda rhan o'r coesyn.

Paratoi'r Gwreiddgyff ar gyfer Impio Blaguryn

Defnyddiwch wreiddgyff dethol (coesyn unigol, ffurf dda, wedi'i chwynnu a'i ddyfrio). Dylai'r planhigyn gwreiddgyff fod tua 45cm (1.5 troedfedd) o daldra.

Peidiwch â thorri'r gwreiddgyff. Gadewch y gwreiddgyff gyda brig y coesyn nes bod yr impio blaguryn wedi gafael.

Os oes gan y gwreiddgyff lawer o ddail, tynnwch rai o'r dail isaf sy'n agos at y ddaear.

Wrth impio blaguryn, mae'r gwreiddgyff yn aml yn cael ei dyfu mewn gwelyau, nid mewn cynwysyddion.

Ar goesyn y gwreiddgyff, dewiswch leoliad sy'n llyfn, heb lygaid ac sydd oddeutu 30cm (1 troedfedd) o daldra.

Torrwch siâp T yn y rhisgl, gyda dau doriad syth. Mae'r maint yn dibynnu ar ddiamedr y gwreiddgyff (gweler diagram 4)

Codwch y rhisgl meddal yn ofalus o goesyn pren y gwreiddgyff, heb ei ddifrodi.

Peidiwch â chyffwrdd â'r toriad.

Cadwch bridd neu lwch rhag mynd i mewn i'r toriad.

Paratowch y llygad ar unwaith.

Paratoi'r Llygad

Dylai'r impyn y mae'r llygaid yn cael eu torri ohono, y brigyn blagur, gynnwys tyfiant y tymor presennol neu'r tymor blaenorol. Peidiwch â defnyddio'r blagur sy'n datblygu ar ddiwedd cangen na'r rhan aeddfed o ganghennau gyda rhisgl cryf.

Daliwch y brigyn blagur gydag un llaw, gyda'r brig yn wynebu eich corff.

Dewiswch un llygad i'w thorri. Dechreuwch dorri o 0.5cm o dan y llygad.

Torrwch drwy'r rhisgl ac ychydig i mewn i bren y brigyn blagur. Nawr gwnewch doriad syth o dan y llygad. Pasiwch y toriad o dan y llygad ac yna arwain y gyllell am i fyny. Wrth gyrraedd y rhisgl meddal, tynnwch y llygad i ffwrdd.

Peidiwch â chyffwrdd toriad y llygad.

Gyda blaen eich cyllell, tynnwch ran bren fewnol y llygad yn ofalus iawn. Peidiwch â tharfu ar y llygad ei hun. (Gweler diagram 1 i 3)

Mewnosod y Llygad Blagur yn Nhoriad T y Gwreiddgyff

Mewnosodwch y llygad yn y toriad siâp T yn y gwreiddgyff, gan ei wthio'n ysgafn o'r brig i lawr.

Rhaid i'r llygad aros yn yr un safle ag yr oedd yn tyfu ar y brigyn blagur. Peidiwch â'i mewnosod yn y gwreiddgyff wyneb i waered.

Rhowch y llygad tua 1.5cm i mewn yn rhisgl y gwreiddgyff.

Tynnwch risgl y llygad sy'n gorgyffwrdd trwy ailadrodd toriad llorweddol y siâp T. (Gweler diagram 6 a 7)

Clymu'r Llygad i'r Gwreiddgyff

Clymwch y llygad gyda thâp polythen, gan weithio o'r gwaelod i'r brig.


Tynhewch y tâp yn gadarn ar waelod a brig y llygad.

Gorchuddiwch frig y toriad T. Mae angen weindio'r tâp fel ei fod yn gorgyffwrdd, cyn newid cyfeiriad am i lawr.

Peidiwch â gorchuddio'r llygad. Gadewch ychydig bach o le i'r blagur egino. Tynhewch y tâp ar y brig gyda chwlwm syml. (Gweler diagramau 8 a 9)

Gafaelwch yn yr egin-goeden yn ofalus

Dyfriwch bob cynhwysydd neu wely sy'n cynnwys egin-goed yn syth ar ôl impio blagur. Peidiwch â gadael y coed yn llygad yr haul neu mewn gwynt cryf.



Yn ystod y gwanwyn canlynol, tociwch flaen y gangen gwreiddgyff cyn gynted ag y bydd y blagur impio yn dechrau tyfu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd gan bron pob fferm berllan, yn tyfu llawer math o ffrwyth at ddefnydd domestig ac ar gyfer marchnadoedd lleol. Wrth i'r coed heneiddio, roedd y perllannau hyn yn aml yn dirywio. Mae'r enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd neilltuol yng nghefn gwlad ac yn aml yn meddu ar werth sylweddol i fywyd gwyllt.

Mae impio ac impio blagur yn annog unffurfiaeth a chyltifarau o safon. Ar y cyfan, mae dwyn ffrwyth yn digwydd 3 i 4 blynedd yn gynharach. Mae'r ddwy dechneg hefyd yn cael yr effaith o greu coed ffrwythau llai, sy'n hwyluso'r gwaith o gynaeafu ffrwythau.

Mae impio ac impio blagur coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gwblhau cwrs hyfforddi. Gall eich Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor am hyfforddiant.

Coed perllan: adfer trwy docio

Cod yr Eitem: L110

Cyfradd Talu: £70.50 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Coed Perllan trwy Docio'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylid tocio coed afalau a gellyg rhwng mis Hydref a mis Ebrill, gan osgoi tywydd oer, a gwneud y gwaith yn y fath fodd fel ei fod yn ymestyn bywyd y goeden.

Rhaid tocio coed ceirios, eirin duon ac eirin rhwng mis Mai a mis Medi i leihau'r risg o haint y ddeilen arian.

Rhaid torri'r goeden yn lân gyda thoriadau ar ongl fel eu bod yn gwyro i ffwrdd o'r brigdyfiant ac yn caniatáu i'r dŵr redeg ymaith.

Dylid pentyrru pren wedi'i docio mewn lleoliad lled-gysgodol o fewn y berllan.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri drwy'r gangen hanner ffordd ar hyd ei hyd

Tynnu mwy na chwarter y brigdwf mewn blwyddyn

Llosgi unrhyw bren heb ganiatâd ysgrifenedig gan Swyddog Cymorth Maes, gan y gallai mwsoglau a chennau gwerthfawr fod yn bresennol yn y tocion, tra bod y gwres y mae tanau'n ei gynhyrchu yn gallu bod yn niweidiol iawn i goed ffrwythau a'u bywyd gwyllt cysylltiedig.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd gan bron pob fferm berllan, yn tyfu llawer math o ffrwyth at ddefnydd domestig ac ar gyfer marchnadoedd lleol. Wrth i'r coed heneiddio, roedd y perllannau hyn yn aml yn dirywio. Mae'r enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd neilltuol yng nghefn gwlad ac yn aml yn meddu ar werth sylweddol i fywyd gwyllt.

Mae coed ffrwythau sydd wedi sefydlu yn elwa ar docio rheolaidd. Mae hyn yn annog cynhyrchu ffrwythau, yn cynnal brigdyfiant agored sy'n lleihau'r posibilrwydd o glefydau, ac yn atal coed rhag mynd yn bendrwm ac yn fregus yn wyneb gwyntoedd yr hydref. Mae tocio coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cymorth proffesiynol neu gwblhau cwrs hyfforddi. Gall Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor i chi am gontractwyr lleol a chyrsiau hyfforddi. Mae angen tocio coed ffrwythau sydd wedi cael eu hesgeuluso yn raddol dros o leiaf dair blynedd, er mwyn osgoi niweidio'r goeden a chynnal ffrwytho. Ar ôl eu hadfywio, mae'n rhaid cynnal y coed trwy docio rheolaidd.

Amcanion Tocio

Dod â golau i ganol y goeden i helpu i aeddfedu'r ffrwythau ac ysgogi cynhyrchu egin newydd.

Annog aer i symud trwy'r canghennau i leihau clefyd.

Creu cydbwysedd iach o hen bren ffrwytho ac egin ifanc i'w ddisodli.

Y Flwyddyn Gyntaf

Yn ystod blwyddyn gyntaf y tocio, mae angen tynnu:

crachgoed sy'n tyfu o'r gwaelod neu islaw'r impiad, sy'n debygol o fod yn dod o'r gwreiddgyff.

canghennau marw mawr a changhennau isel sy'n ymyrryd â phori neu dorri gwair, gan eu torri'n ôl i fonyn byr neu gangen addas. Peidiwch â thorri trwy'r gangen hanner ffordd ar ei hyd.

canghennau mawr sy'n croesi yng nghanol y brigdyfiant neu'n rhwbio yn erbyn ei gilydd.

tyfiant unionsyth cadarn.

pren heintiedig.

Y nod yw ail-greu fframwaith o 5-12 cangen neu brifgainc rheiddiol tra'n dal i gynnal siâp naturiol y goeden. Y prifgeinciau yw'r sgerbwd naturiol sy'n cynnal canghennau ffrwytho ochrol a cheinciau. Os bydd cyflawni'r siâp hwn yn gofyn am gael gwared ar fwy na chwarter y brigdwf, mae angen ymestyn y cam tocio dros 2 flynedd neu fwy.

Mewn Blynyddoedd Dilynol

Tociwch y brigdyfiant trwy deneuo unrhyw ganghennau ochrol trymlwythog a cheinciau sydd wedi gordyfu, gan adael bonion bach tua 1cm o hyd Bydd egin newydd sy'n tarddu o waelod y toriadau hyn yn dwyn ffrwyth yn y pen draw.

Ewch ati i dynnu neu fyrhau canghennau sy'n wynebu am i mewn.

Mae'n bosibl hyfforddi unrhyw egin ifanc cryf, sydd wedi'u lleoli'n dda ac yn tyfu'n agos at ganol y goeden, i fod yn brifgeinciau newydd.

Gwâl dyfrgwn

Cod yr Eitem: L111

Cyfradd Talu: £105 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Gwâl dyfrgwn'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae dyfrgwn bellach yn bresennol ar lawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru ar ôl cwymp yn eu niferoedd yn y 1950au. Bydd darparu gwâl dyfrgwn yn galluogi dyfrgwn i ddefnyddio ardaloedd heb y gorchudd trwchus sydd ei angen i orwedd yn ystod y dydd a thrwy hynny'n sicrhau mwy o ardaloedd iddynt eu defnyddio heb gael eu tarfu.

Gall prysgwydd ar hyd glan afon, llystyfiant sy'n bargodi a choed aeddfed â systemau gwreiddiau gwag i gyd ddarparu cysgod angenrheidiol. Gall darparu gwâl dyfrgwn artiffisial wella hyn ymhellach ac mae'n ffordd gyflym ac effeithiol o ddarparu safle gorffwys.

Mae angen i chi gadw at y canlynol:

Cyn adeiladu gwâl artiffisial, mae'n bwysig gwerthuso cynefinoedd presennol. Gellir diogelu cynefinoedd da ger cyrsiau dŵr trwy wneud y canlynol:

Gadael gwlyptiroedd heb eu draenio

Ffensio prysgwydd

Annog llystyfiant hir i dyfu trwy dorri yn llai aml a thorri ardaloedd mewn cylchdro

Ffensio ochrau glannau i amddiffyn coed a glannau rhag da byw sy'n pori. Mae dyfrgwn yn aml yn defnyddio ceudodau gwreiddiau mawr mewn coed aeddfed fel safleoedd gorwedd.

Caniatáu i goed adfywio ar lannau afonydd

Lleihau lefelau aflonyddwch, yn enwedig gan bobl a chŵn

Osgoi llygredd.

Gellir creu cynefin newydd i ddyfrgwn trwy:

Ffensio a phlannu ystumiau afon a chorneli caeau gyda helygen, draenen wen a draenen ddu

Plannu glannau moel gyda choed, yn enwedig derw, sycamorwydd, gwern, llwyf a helyg i greu safleoedd ar gyfer gwalau dyfrgwn yn y dyfodol neu ganiatáu i orchudd prysgwydd ddatblygu'n naturiol.

Adeiladu gwâl artiffisial os nad oes safleoedd addas eraill ar gael.

Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth adeiladu gwâl artiffisial:

Lleoliad

Adeiladwch yn agos at ymyl y dŵr, lle gall dyfrgwn ddringo'r lan yn rhwydd

Dewiswch safle nad yw pobl a chŵn yn tarfu arno braidd dim

Mewn Ardaloedd Draenio Mewnol, gofalwch nad yw gwâl yn cael ei gosod o fewn stribedi cynnal a chadw 7m

Deunyddiau

20-25 o foncyffion tua 1m o hyd a 30-40cm mewn diamedr

Nifer o bolion a changhennau coed eithaf syth, tua 3–10cm mewn diamedr x 3m o hyd. (Gellir defnyddio unrhyw bolion byrrach i fewnlenwi bylchau.)

Tocion, llawer iawn o ganghennau bach o wrychoedd neu goed conwydd.

Yn ddelfrydol, dylid cymryd pren mwy o goed sydd wedi cwympo neu goed wedi'u teneuo fel rhan o raglen rheoli coetir wedi'i gynllunio.

Adeiladwaith

Mae'r gwaith adeiladu yn digwydd mewn tri cham. Y nod yw darparu sawl siambr dywyll a sych sy'n cysylltu â'i gilydd. Mae'r siâp cyffredinol yn dibynnu ar y safle a gall fod yn siâp petryal, yn sgwâr neu'n grwn:

Rhowch y boncyffion i ffurfio 6-8 siambr tua 1 metr sgwâr yr un. Gadewch fylchau tua 15–20cm o led fel mynedfeydd. Dylai un neu ddwy fynedfa fod ar ymyl y dŵr gyda mynedfeydd eraill ar yr ochrau tir.


Rhowch y polion ar draws y siambrau i ffurfio'r to. Llenwch y bylchau gyda darnau bach o bren i wneud y siambrau yn dywyllach a gwella eu gallu i wrthsefyll y tywydd.

Pentyrrwch y tocion ar y top i guddio'r boncyffion a'r polion yn llwyr a gadewch y siambrau'n sych ac yn dywyll. Dylai canghennau orwedd yn wastad a chael eu gwasgu i lawr. Gosodwch goesynnau canghennau i mewn gyda'r canghennau/ffrondau llai yn gorgyffwrdd â'r boncyffion a'r polion i ffurfio ymyl allanol.

Os yw'r safle yn agored i lifogydd, ymestynnwch netin defaid dros y tocion a defnyddiwch bolion i ddal y netin i lawr ar ddwy ochr y wâl gan gymryd gofal i sicrhau na all weiren finiog achosi anaf. Rhowch fwy o'r tocion ar y top i guddio'r weiren.


Cam 1

Adeiladwch strwythur sylfaenol gyda boncyffion 3 metr ar draws. Defnyddiwch stanciau i'w cadw yn eu lle:




Cam 2

Gosodwch bolion trwchus i ffurfio to



Cam 3

Gorchuddiwch â changhennau



Parcdir: gatiau haearn

Cod yr Eitem: L112

Cyfradd Talu: £668.70 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau Haearn'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gât rheiliau pum bar gyda dwy set groesfarrau, un bar fertigol yn y canol a dau bostyn haearn silindrog, fel y gwelir yn y llun isod.

Bydd angen iddi fod â gorffeniad galfanedig safonol i BS EN ISO 1461.

Rhaid i'r pyst fod o leiaf 2100mm o hyd a rhaid i'r gatiau eu hunain fod rhwng 900mm a 3000mm o led.

Rhaid i unrhyw agoriadau sy'n fwy na 3000mm fod â dwy gât.

Rhaid gosod pob postyn gât 750mm i mewn i'r ddaear ac, os oes angen, gellir defnyddio morter concrit i'w gosod yn eu lle.

Dylai'r ffens fod yn 1200mm o uchder sy'n cynnwys rheilen silindrog lorweddol 20mm ar y top a 4 rheilen wastad RSF is. Mae bwlch o 1000mm rhwng pob postyn RSF fertigol ar y ddaear.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth newid hen gatiau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau du gwreiddiol.



Isod mae enghraifft o glicied gât haearn nodweddiadol. Os yw'r dyluniad yn wahanol i hyn, bydd yn dderbyniol cyn belled â'i fod yn cyd-fynd â dyluniad gwreiddiol yr ardal



Wrth ailosod hen reiliau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau gwreiddiol. Fel arfer, byddant wedi'u paentio'n dywyll (e.e. du) i ymdoddi i'r dirwedd.

Parcdir: ffensys rheiliau haearn

Cod yr Eitem: L113

Cyfradd Talu: £63.45/m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Parcdir: Ffensys Rheiliau Haearn'. Rhaid i unrhyw amrywiad o'r safonau a nodir gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliad safonol ar gael ar gyfer ffensys parcdir metel traddodiadol sy'n gysylltiedig â rheoli bywyd gwyllt a nodweddion tirwedd, archaeolegol a hanesyddol. Dylai ffensys parcdir gynnal ymddangosiad agored y dirwedd fel nodwedd nodweddiadol. Fel arfer, byddant wedi'u paentio'n dywyll (e.e. du) i ymdoddi i'r dirwedd.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid i ffensys parcdir gynnwys ffens rheiliau 5 bar ddi-dor mewn gorffeniad galfanedig i BS EN ISO 1461. Rhaid i unrhyw amrywiad o'r safon hon gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Mewn tirwedd donnog, rhaid cymryd gofal wrth osod y ffens i sicrhau bod y rheiliau yn gyfochrog â'i gilydd ac â'r ddaear.

Dylai gwaith atgyweirio ddefnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth newid hen ffensys rheiliau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau du gwreiddiol.

Creu pyllau

Cod yr Eitem: L115

Cyfradd Talu: £6.54/m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Creu pyllau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Gall pyllau newydd greu manteision sylweddol i fywyd gwyllt, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd os yw'r gwaith adeiladu yn golygu dinistrio pocedi sy'n weddill o gynefin bywyd gwyllt megis glaswelltir corsiog. O gymharu â'u maint, mae pyllau yn hynod fioamrywiol. Mae pyllau yn gynefin allweddol i lawer o fathau o fywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn ffynhonnell bwysig o ddŵr ac yn lleoliad bwydo ar gyfer bywyd gwyllt daearol.

Mae adeiladu a chynnal a chadw pyllau yn waith medrus a bydd trafodaethau manwl gyda chynghorwyr arbenigol yn arwain at fuddion tymor hir a thymor byr.

Mae taliadau ar gael tuag at gost creu pyllau newydd mewn lleoliadau addas y cytunir arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cyflenwad dŵr

Dylai'r ffynhonnell ddŵr fod heb ei llygru ac, os yw'n bosibl, dylai fod ar gael trwy gydol y flwyddyn. Dylech osgoi defnyddio draeniau caeau os yw'n bosibl, gan y gall y rhain gario gwrtaith o dir cyfagos.

Adeiladwaith

Mae pyllau wrth ymyl cwrs dŵr yn darparu mwy o reolaeth dros lifogydd y gaeaf a siltio na phyllau yn y cwrs dŵr. Os ydych yn adeiladu pyllau mewn cwrs dŵr, adeiladwch bwll silt llai i fyny'r dyffryn o'r prif bwll a chlirio'r gro a'r silt yn rheolaidd.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: Chwilio cofnodion Cadw | Cadw

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau bod y ddogfen ar gael ar gais.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfanswm y dŵr. Lle gallai cyfleuster cronni dŵr newydd, neu'r broses o addasu neu dynnu cyfleuster cronni dŵr presennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfanswm y dŵr neu barhad llif y dŵr, bydd angen trwydded cronni dŵr fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgaredd wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu y gellir dangos ei fod yn weithgaredd risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech

gyfeirio at yr wybodaeth a'r rhestr wirio yma i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych yn ateb unrhyw un o gwestiynau'r rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni dŵr. Os ydych chi'n ateb pob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn gwneud cais yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Mae pridd anathraidd, megis clai, yn ddelfrydol ar gyfer cadw dŵr. Efallai y bydd angen leinin artiffisial neu glai wedi'i fewnforio ar bridd athraidd, megis siâl - gallai hynny fod yn ddrud. Cloddiwch dyllau prawf cyn dechrau ar y gwaith i wirio gallu'r pridd i ddal dŵr.

Dylid defnyddio pridd wedi'i gloddio i dirweddu'r safle lle bo'n bosibl gan y bydd symud y pridd ymaith yn ychwanegu at y gost. Gofalwch nad yw'n cael ei roi mewn lleoliad lle gall olchi i mewn i'r pwll neu i gwrs dŵr cyfagos. Bydd y gwaith adeiladu yn haws os na fydd angen arglawdd i lawr llethr.

Gellir defnyddio isbridd a gloddiwyd i dirweddu'r ardal o amgylch y pwll, neu i gapio'r leinin, os defnyddir un.

Pan ddefnyddir leinin, gofalwch fod is-haen amddiffynnol yn cael ei defnyddio uwchben ac islaw'r leinin, a dylid capio'r haen uchaf o is-haen gydag isbridd neu dywod garw i ddyfnder o 15cm o leiaf. Mae hyn yn amddiffyn y leinin ac yn darparu amgylchedd i blanhigion dyfrol wreiddio ynddo.

Maint a siâp

Bydd maint y pwll yn cael ei gytuno gyda'r Swyddog Cymorth Maes a'i gynnwys yn y Rhaglen Waith.

Rhaid i byllau bywyd gwyllt fod o leiaf 10m^2 o ran arwynebedd, gydag ymylon ar oleddf ysgafn, a rhaid iddynt ddal dŵr am o leiaf 9 mis o'r flwyddyn mewn blwyddyn o lawiad arferol.

Gall pyllau mawr ddarparu ystod ehangach o gynefinoedd, ond bydd sawl pwll bach yn ymgorffori amrywiaeth o amodau a gallant fod yn fwy gwerthfawr i fywyd gwyllt.

Cynyddwch hyd 'ymyl' y pwll trwy greu traethlin afreolaidd gyda thafodau a baeau bach i ddarparu mwy o gysgod a gorchudd i fywyd gwyllt. Bydd llystyfiant sy'n codi o'r dŵr yn darparu cysgod rhag y gwynt a'r haul.

Peidiwch â chynnwys ynysoedd gan fod y rhain yn debygol o ddenu hwyaid neu wyddau

Dyfnder a phroffil

Bydd dyfnder mwyaf y pwll yn dibynnu ar ei arwynebedd. Ni ddylai pyllau bach fod yn fwy nag 1m o ddyfnder. Gall pyllau mwy fod yn ddyfnach, ond nid oes angen i unrhyw bwll fod yn ddyfnach na 3m oni bai bod disgwyl iddo amrywio'n fawr o ran dyfnder. Dylai fod digonedd o ddŵr bas sy'n goleddfu'n raddol i ardaloedd dyfnach (hyd at 2-3 m o ddyfnder).

Y gofyniad allweddol yw bod gan y pwll ymylon ar oleddf ysgafn. Gofalwch fod proffil y pwll yn adlewyrchu hyn. Dŵr bas iawn, 20cm o ddyfnder neu lai, sydd bwysicaf i fywyd gwyllt. Dylai dyfnder mwyaf y pwll adlewyrchu'r llif i'r safle. Gall pyllau sydd â ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr (e.e. gyda dalgylch mwy neu ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr daear) fod yn fwy bas.

Bydd lefelau dŵr yn amrywio yn ystod y flwyddyn, felly mae'n well proffilio'r pwll fel ei fod ar oleddf raddol yn hytrach na bod ag unrhyw silffoedd / newidiadau sydyn mewn dyfnder.


Mae ardaloedd o ddŵr dyfnach yn llai tebygol o sychu'n llwyr yn yr haf ac yn darparu lloches i rywogaethau nad ydynt yn gallu addasu i newidiadau mawr mewn amodau.

Stocio a phlannu

Fel arfer, bydd llystyfiant yn sefydlu'n gyflym o'r ardal gyfagos a dylid gadael pyllau newydd i gytrefu'n naturiol cyn belled â phosibl. Bydd hadau yn egino o'r banc hadau, neu'n cytrefu'n naturiol. Peidiwch â phlannu planhigion pwll, gan eu bod yn aml yn cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol.

Bydd llystyfiant tal sy'n codi o'r dŵr yn yr ymylon bas megis glaswellt hir yn darparu gorchudd da i adar y dŵr. Gellir caniatáu i brysgwydd, gan gynnwys helyg, mieri ac eithin, sefydlu ar ymylon gorllewinol a gogleddol er budd bywyd gwyllt a thirwedd. Mae canghennau sy'n bargodi yn darparu clwydi da i adar.

Diagram – Trawstoriad o bwll



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dewis safle

Rhaid cytuno ar leoliad addas ar gyfer creu pwll newydd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Ystyriwch werth presennol y safle i fywyd gwyllt; efallai fod y safle'n fwy gwerthfawr heb bwll. Dewiswch ardal gymharol ddigynnwrf i ffwrdd o adeiladau a cheisiwch osgoi safleoedd sydd â risg uchel o wrtaith yn llifo o gaeau a gorfaethu. Byddwch yn ofalus rhag peryglon tanddaearol neu uwchben megis ceblau trydan.

Ceisiwch gysylltu cynefinoedd presennol megis glaswelltir heb ei wella a phrysgwydd. Mae llawer o rywogaethau pyllau megis madfallod ac amffibiaid eraill yn treulio dim ond rhan o'u bywydau mewn dŵr ac mae angen amodau addas ar dir sych arnynt i gwblhau eu cylch bywyd.

Mae'n synhwyrol osgoi lleoli pwll wrth ymyl coed tal gan y gall hyn achosi problemau o ran dail yn disgyn a lefelau siltio uwch. Bydd sicrhau bod y pwll yn agored i'r de yn caniatáu i olau'r haul gynhesu'r dŵr yn y gwanwyn, ond mae rhywfaint o brysgwydd a chysgod yn debygol o fod yn fuddiol.

Nodwch leoliad isel yn y dirwedd lle mae dŵr glân yn tueddu i gasglu. Gall lleoliadau hen byllau fod yn addas iawn - ar dir wedi'i wella, gellir eu gweld weithiau mewn ffotograffau o'r awyr (gweler y Ghost Ponds Project).

Y lleoliadau gorau yw lle mae'r pwll yn cael ei fwydo gan ddŵr daear, dŵr glaw neu ddŵr wyneb sy'n draenio o dir dwysedd cymharol isel. Mae safle heulog yn well. Mae pyllau yn addas iawn i'w cyfuno â defnydd tir dwysedd is addas, megis gwair gwyrdd a gwella porfa.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

lleoli'r pwll lle mae'n derbyn dŵr o sefyllfa llawn maethynnau, megis iard neu gae lle mae tail neu slyri yn cael ei wasgaru'n rheolaidd;

creu pwll trwy osod argae ar gwrs dŵr sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, gallwch ledu ffos cae sy'n bodoli eisoes.

lleoli'r pwll o dan neu yn agos at goed, lle bydd llawer o ddail yn cwympo i'r dŵr, oni bai bod rhywfaint o lif dŵr i mewn i'r pwll.

tynnu unrhyw goed sydd wedi cwympo i mewn i'r pwll neu'n agos ato.

cwympo neu fondocio unrhyw goed a nodwyd gan staff CNC fel rhai o bwysigrwydd allweddol i fywyd gwyllt.

aredig na thrin y tir o fewn 10m i'r pwll.

cyflwyno adar y dŵr neu bysgod.

bwydo da byw neu adar gwyllt yn agos at y pwll.

taenu gwrtaith, slyri, tail neu weddillion treuliad anaerobig o fewn 10m i'r pwll neu unrhyw ffosydd, llaciau neu lwybrau llif eraill sy'n bwydo'r pwll.

gwaredu dip defaid o fewn 50m i'r pwll.

defnyddio plaladdwyr, ac eithrio at ddibenion rheoli rhywogaethau goresgynnol neu reoli chwyn niweidiol lle mae chwynladdwyr wedi'u nodi fel yr opsiwn mwyaf effeithiol.

defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau neu i olchi cerbydau.

Canllawiau pellach

I gael rhagor o arweiniad ar greu a chynnal a chadw pwll a gwybodaeth am ganiatâd cynllunio ac ati, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw: Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw – hafan

Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa

Cod yr Eitem: L116

Cyfradd Talu: £442.05 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir gatiau cerddwyr neu gatiau ceffyl i ganiatáu mynediad i gerddwyr a marchogion.

Cyn gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa, rhaid i chi wneud y canlynol:

Cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan eich **Awdurdod Priffyrdd lleol** o dan **adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.** Mae gatiau anawdurdodedig yn cael eu trin fel *rhwystrau anghyfreithlon*.

Dilyn y gofynion "mynediad lleiaf rhwystrol". Ystyriwch a oes angen unrhyw fath o rwystr yma; a ellid gadael bwlch i gerddwyr a marchogion? Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Awdurdodau Priffyrdd (o dan **adran 69 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**) weithio ar yr egwyddor o **fynediad lleiaf rhwystrol** ac ystyried defnyddwyr sydd â chyfyngiadau symudedd.

Gât cerddwyr o fetel sy'n cau ar ei phen ei hun



Wrth osod gât fach o fetel yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât cerddwyr o fetel o fewn ffrâm H integredig.

Dylai'r gât a'r ffrâm H fod wedi'u galfaneiddio.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.0m o led a 1.3m o uchder.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad ac fel ei bod yn cau ar ei phen ei hun.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Dylai'r ffrâm H fod wedi'i gosod mewn concrit.

Gosodwch byst pren ar y naill ochr a'r llall i'r ffrâm H i atodi rheiliau / gwifrau. Rhaid i'r pyst fod o leiaf 10cm o ddiamedr.

Llyfnwch unrhyw ymylon sinc garw.

Cadwch yr holl ffitiadau yn dynn.

Gât ceffyl o fetel



Wrth osod gât ceffyl o fetel yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât ceffyl o fetel o fewn ffrâm H integredig

Dylai'r gât a'r ffrâm H fod wedi'u galfaneiddio.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.525m o led a 1.3m o uchder.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad ac fel ei bod yn cau ar ei phen ei hun.

Dylai'r ffrâm H fod wedi'i gosod mewn concrit.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Gosodwch byst pren ar y naill ochr a'r llall i'r ffrâm H i atodi rheiliau / gwifrau. Rhaid i'r pyst fod o leiaf 10cm o ddiamedr.

Gosodwch handlen hir fel bod modd agor y gât heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Llyfnwch unrhyw ymylon sinc garw.

Cadwch yr holl ffitiadau yn dynn.

Addaswch y gât fel ei bod **yn cau ar ei phen ei hun yn araf** (er diogelwch marchogion).

Gofalwch fod digon o le i ddefnyddwyr y llwybr symud.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gosod gatiau a physt ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i chael gan eich Awdurdod Priffyrdd lleol

Cloi'r gât (rhwystr anghyfreithlon)

Defnyddio weiren bigog ger y gât.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gosodwch gât sy'n gallu agor i'r ddau gyfeiriad, ac eithrio wrth ymyl ffordd lle dylai'r gât agor i ffwrdd o'r ffordd.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn gyffredin, gellir gwrthdroi'r bachyn top i atal y gât rhag cael ei chodi oddi ar y colfachau.

Cyfrifoldebau parhaus

Rhaid i chi sicrhau bod y gât bob amser:

yn ddiogel

yn hawdd ei defnyddio

yn rhydd o rwystrau

yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion symudedd

Help sydd ar gael:

Efallai y bydd **Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus eich awdurdod lleol** yn darparu cyngor neu wirfoddolwyr i helpu i osod y gât.

Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa

Cod yr Eitem: L117

Cyfradd Talu: £375.49 yr yn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir gatiau cerddwyr neu gatiau ceffyl i ganiatáu mynediad i gerddwyr a marchogion.

Cyn gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa, rhaid i chi wneud y canlynol:

Cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan eich **Awdurdod Priffyrdd lleol** o dan **adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.** Mae gatiau anawdurdodedig yn cael eu trin fel *rhwystrau anghyfreithlon*.

Dilyn y gofynion "mynediad lleiaf rhwystrol". Ystyriwch a oes angen unrhyw fath o rwystr yma; a ellid gadael bwlch i gerddwyr a marchogion? Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Awdurdodau Priffyrdd (o dan **adran 69 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**) weithio ar yr egwyddor o **fynediad lleiaf rhwystrol** ac ystyried defnyddwyr sydd â chyfyngiadau symudedd.

Gât cerddwyr o bren sy'n cau ar ei phen ei hun



Wrth osod gât cerddwyr fach o bren yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât cerddwyr a physt o bren wedi'u gwneud o bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd, a'u codi fel bod y gât yn cau ar ei phen ei hun.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.0m o led a 1.3m o uchder.

Defnyddiwch gât barod neu adeiladwch eich gât eich hun.

Rhaid i bob darn o bren a ddefnyddir ar gyfer gât fodloni'r dimensiynau canlynol:

Dylai prennau unionsyth fod o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Dylai pob rheilen fod yn 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, ac eithrio'r rheilen dop a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad.

Gofalwch fod pob darn o bren yn bodloni'r dimensiynau canlynol;

Rhaid i byst hongian fod o leiaf 15cm o ddiamedr

Rhaid i'r pyst cau fod o leiaf 12cm mewn diamedr

Rhaid gosod pyst yn ddigon dwfn yn y ddaear i sicrhau sefydlogrwydd.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Rhaid i'r glicied fod yn weladwy, rhaid bod modd ei defnyddio ag un llaw, rhaid iddi fod yn hawdd i'w gweithredu o'r ddwy ochr a rhaid iddi fod â handlen estynedig e.e. clicied hawdd.

Dylech ongli'r colfachau (y colfach top yn agos, y colfach gwaelod ymhellach allan) i wneud i'r gât **gau ar ei phen ei hun**.

Gât ceffyl o bren



Wrth osod gât ceffyl o bren yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât ceffyl a physt o bren wedi'u gwneud o bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd, a'u codi fel bod gât yn cau ar ei phen ei hun yn araf.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.525m o led (rhwng y pyst) ac 1.3m o uchder.

Defnyddiwch gât barod neu adeiladwch eich gât eich hun. Rhaid i bob darn o bren a ddefnyddir ar gyfer gât fodloni'r dimensiynau canlynol:

Dylai prennau unionsyth fod o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Dylai pob rheilen fod yn 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, ac eithrio'r rheilen dop a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad.

Gosodwch handlen hir sy'n caniatáu i'r gât gael ei hagor heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Addaswch y gât fel ei bod **yn cau ar ei phen ei hun yn araf** (er diogelwch marchogion).

Gofalwch fod marchogion yn gallu symud yn ddiogel a bod ganddynt **le i droi a phasio**.

Gofalwch fod pob darn o bren yn bodloni'r dimensiynau canlynol;

Rhaid i byst hongian fod o leiaf 15cm o ddiamedr

Rhaid i'r pyst cau fod o leiaf 12cm mewn diamedr

Rhaid gosod pyst yn ddigon dwfn yn y ddaear i sicrhau sefydlogrwydd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gosod gatiau a physt ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i chael gan eich Awdurdod Priffyrdd lleol

Defnyddio concrit i osod pyst yn y ddaear, gan y gall y pyst pren bydru ar lefel y ddaear.

Cloi'r gât (rhwystr anghyfreithlon)

Defnyddio weiren bigog ger y gât.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gosodwch gât sy'n gallu agor i'r ddau gyfeiriad, ac eithrio wrth ymyl ffordd lle dylai'r gât agor i ffwrdd o'r ffordd.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn gyffredin, gellir gwrthdroi'r bachyn top i atal y gât rhag cael ei chodi oddi ar y colfachau.

Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 70cm i mewn i'r ddaear i sicrhau sefydlogrwydd a chadw gwaelod y gât 7.5cm uwchben y ddaear.

Gofalwch fod digon o le i ddefnyddwyr y llwybr symud.

Cyfrifoldebau parhaus

Rhaid i chi sicrhau bod y gât bob amser:

yn ddiogel

yn hawdd ei defnyddio

yn rhydd o rwystrau

yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion symudedd

Help sydd ar gael

Efallai y bydd **Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus eich awdurdod lleol** yn darparu cyngor neu wirfoddolwyr i helpu i osod y gât.

Clirio prysgwydd/coed: â llaw

Cod yr Eitem: L118

Cyfradd Talu: £0.12.m2

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael Taliad ar gyfer 'Clirio Prysgwydd/Coed: Â Llaw'. Mae prysgwydd yn gallu bod yn gynefin pwysig a dymunol. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Torrwch goed a phrysgwydd ar lefel y ddaear, heb adael unrhyw foncyffion ymwthiol, gan ddefnyddio llifiau, lopwyr neu lifiau cadwyn. Fel arall, tynnwch eginblanhigion bach gan ddefnyddio offer codi gwreiddiau coed neu dynnu â llaw. Wrth dynnu, gwnewch yn siŵr bod y gwreiddyn yn dod yn rhydd yn hytrach na'r eginblanhigyn yn torri, neu bydd ailddyfiant yn digwydd.

Wrth wneud gwaith clirio prysgwydd rhannol (e.e. ar ymyl rhostir neu fawndir neu wrth dorri clwstwr trwchus o brysgwydd yn flociau llai), gwnewch yn siŵr bod ymylon y prysgwydd yn dal i edrych yn naturiol ac anwastad. Mae baeau bach a lleoliadau cysgodol eraill yn arbennig o werthfawr i loÿnnod byw a bywyd gwyllt arall.

Peidiwch â thorri dim mwy na thraean o'r prysgwydd ym mhob blwyddyn.

Rhaid i chi ofyn am gyngor gan Swyddog Cymorth Maes os yw rhywogaethau gwarchodedig fel moch daear a phathewod yn debygol o fod yn bresennol.

Dylid tynnu deunydd wedi'i dorri oni bai i chi gytuno fel arall â'r Swyddog Cymorth Maes neu fod y gwaith yn cael ei wneud i reoli coetir. Mae'n hawdd iawn i bentyrrau o goediach dagu planhigion llawr. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid pentyrru deunydd wedi'i dorri'n ofalus o dan brysgwydd sy'n weddill ac nad oes bwriad i'w waredu. Mae wedyn yn gallu cael ei adael i bydru a chynnig cysgod ychwanegol i fywyd gwyllt neu i greu cynefinoedd bychan i bryfed mewn mannau heulog. Fel arall, mae'n bosibl llosgi deunydd wedi'i dorri, ar ôl cytuno ar leoliadau ymhell i ffwrdd o glystyrau prysgwydd a choed.

Os yw prysgwydd wedi sefydlu ers sawl blwyddyn, mae'n bosibl y bydd angen cael gwared ar yr haen o domwellt sydd wedi cronni. Mae hyn yn arbennig o wir gydag eithin – mae'r dail a'r nodwyddau yn gallu creu haen drwchus iawn o domwellt.

Ni ddylid tynnu bonion/ymledyddion â llaw e.e. batog/rhaw heb i'ch Swyddog Cymorth Maes gytuno.

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r ailddyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Clirio prysgwydd yn ystod y tymor nythu adar, 1 Mawrth i 31 Awst.

Tynnu boncyffion gan ddefnyddio peiriannau trwm.

Llosgi prysgwydd sy'n sefyll heb gytundeb ysgrifenedig Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manyleb uchod:

Mae prysgwydd yn cynnwys llwyni coediog neu goed fel y ddraenen wen, helyg, eithin a bedw sy'n rhywogaethau arloesol neu fanteisgar. Mae angen rheoli a/neu waredu prysgwydd lle mae'n bygwth disodli cynefinoedd bywyd gwyllt mwy gwerthfawr, yn achosi difrod i olion archaeolegol neu'n cuddio llwybrau sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd.

Er bod taliadau cyfalaf ar gael ar gyfer clirio prysgwydd, mae llawer o ardaloedd o brysgwydd â gwerth tirwedd a bywyd gwyllt sylweddol eu hunain.

Ar ôl torri, bydd llawer o rywogaethau yn ymateb trwy dyfu egin newydd yn hytrach na marw'n llwyr. Mae'n bosibl rheoli'r twf hwn trwy bori neu dorri, ond efallai y bydd angen trin naill ai'r bonyn a dorrwyd neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas adeg y gwaith torri.

Defnyddio Chwynladdwyr

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Rhaid i unrhyw gemegyn sy'n cael ei ddefnyddio fod â label sy'n ei argymell ar gyfer trin prysgwydd (naill ai aildyfiant neu fonion a dorrwyd) a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio. Dylid glynu'n llym at holl argymhellion label y gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Dilynwch argymhellion y cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion.

Clirio Prysgwydd ar Safleoedd Archaeolegol

Mae nodweddion archaeolegol fel beddrodau, caerau, pentrefi canoloesol anghyfannedd neu gloddiau ffin syml hyd yn oed yn aml yn cael eu cadw orau o dan orchudd glaswellt neu rostir. Cyfundrefn pori neu dorri gwair ysgafn yw'r cyfan sydd ei angen i gynnal y gorchudd hwn ar ôl tynnu prysgwydd.

Rhaid i chi sicrhau nad yw'r gwrthgloddiau yn dioddef unrhyw darfu a bod gorchudd o laswellt neu rostir yn cael ei ailsefydlu'n gyflym.

Clirio prysgwydd/coed: â pheiriant

Cod yr Eitem: L119

Cyfradd Talu: £195/ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Clirio Prysgwydd/Coed: Â Pheiriant'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Torrwch brysgwydd ar lefel y ddaear, heb adael unrhyw fonion ymwthiol, gan ddefnyddio peiriannau.

Wrth wneud gwaith clirio prysgwydd rhannol (e.e. ar ymyl rhostir neu fawndir neu wrth dorri clwstwr trwchus o brysgwydd yn flociau llai), gwnewch yn siŵr bod ymylon y prysgwydd yn dal i edrych yn naturiol ac anwastad. Mae baeau bach a lleoliadau cysgodol eraill yn arbennig o werthfawr i loÿnnod byw a llawer o infertebratau eraill.

Dylid cadw deunydd wedi'i dorri ar y safle, ond i ffwrdd o gynefinoedd gwerthfawr lle bo hynny'n bosibl, oni bai i chi gytuno fel arall â'r Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi ofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru os yw rhywogaethau gwarchodedig, fel moch daear, yn debygol o fod yn bresennol.

Ni ddylid tynnu bonion/ymledyddion heb i'ch Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Clirio prysgwydd yn ystod y tymor nythu adar, 1 Mawrth i 31 Awst.

Llosgi prysgwydd heb gytundeb ysgrifenedig gan Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manyleb uchod:

Mae prysgwydd yn cynnwys llwyni coediog neu goed fel y ddraenen wen, helyg, eithin a bedw sy'n rhywogaethau arloesol neu fanteisgar. Mae angen rheoli a/neu waredu prysgwydd lle mae'n bygwth disodli cynefinoedd bywyd gwyllt mwy gwerthfawr, yn achosi difrod i olion archaeolegol neu'n cuddio llwybrau sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd.

Er bod taliadau cyfalaf ar gael ar gyfer clirio prysgwydd, mae llawer o ardaloedd o brysgwydd â gwerth tirwedd a bywyd gwyllt sylweddol eu hunain.

Ar ôl torri, bydd llawer o rywogaethau yn ymateb trwy dyfu egin newydd yn hytrach na marw'n llwyr. Mae'n bosibl rheoli'r twf hwn trwy bori neu dorri, ond efallai y bydd angen trin naill ai'r bonyn a dorrwyd neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas.

Defnyddio Chwynladdwyr

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Rhaid i unrhyw gemegyn sy'n cael ei ddefnyddio fod â label sy'n ei argymell ar gyfer trin prysgwydd (naill ai aildyfiant neu fonion a dorrwyd) a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio. Dylid glynu'n llym at holl argymhellion label y gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Dilynwch argymhellion y cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion.

Clirio Prysgwydd ar Safleoedd Archaeolegol

Mae nodweddion archaeolegol fel beddrodau, caerau, pentrefi canoloesol anghyfannedd neu gloddiau ffin syml hyd yn oed yn aml yn cael eu cadw orau o dan orchudd glaswellt neu rostir. Cyfundrefn pori neu dorri gwair ysgafn yw'r cyfan sydd ei angen i gynnal y gorchudd hwn ar ôl tynnu prysgwydd.

Rhaid i chi sicrhau nad yw'r gwrthgloddiau yn dioddef unrhyw darfu a bod gorchudd o laswellt neu rostir yn cael ei ailsefydlu'n gyflym.

Trapiau gwaddodion

Cod yr Eitem: L120

Cyfradd Talu: £208.529 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Trapiau Gwaddodion'.

Mae rhai ardaloedd e.e. traciau fferm neu goedwigaeth/coetir, llwybrau tractor neu lethrau naturiol mewn caeau yn gallu cyflymu llif trostir, gan arwain at lifogydd lleol a cholli pridd. Mae'r opsiwn hwn yn un o nifer o ddulliau sydd ar gael i helpu i leihau'r broblem hon, ond ni ddylid ei ddefnyddio ar draul rheoli eich priddoedd yn briodol.

Mae trapiau gwaddodion yn casglu dŵr ffo o draciau a chaeau trwy arafu symudiad y dŵr trwy lwybrau penodol sy'n helpu i leihau llifogydd lleol, cipio gwaddodion a lleihau'r effeithiau ar dderbynyddion sensitif. Maen nhw hefyd yn darparu manteision cadarnhaol ychwanegol i gadwraeth natur a gwerth tirwedd ar raddfa fferm.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Lleolwch y ffos, y bwnd neu'r llwybr llifogydd sy'n creu'r trap gwaddodion ger pwynt dŵr ffo fel trac fferm neu goedwigaeth/coetir, neu ar bwynt sy'n tarddu o lwybrau tractor.

Os yw'n bosibl, ceisiwch leoli trap o fewn lleiniau clustogi glaswellt presennol.

Dylai'r trap gwaddodion fod oddeutu 8 metr o hyd x 8 metr o led x 1 metr o ddyfnder (mesuriadau mewnol) ac yn ddelfrydol wedi'i greu o bridd â chynnwys clai uchel.

Mae angen atgyfnerthu ochrau'r byndiau sy'n ffurfio'r trap, er mwyn gorfodi dŵr i ymdreiddio i'r dŵr daear a thrwy hynny waredu gwaddodion.

Plannwch hadau rhywogaethau glaswellt brodorol yn y byndiau sy'n ffurfio'r trap. Mae angen tocio bob blwyddyn neu bob dwy flynedd ar ôl 31 Gorffennaf i atal tyfiant prysgwydd ac i osgoi tarfu ar adar sy'n nythu.

Gwaredwch y gwaddodion bob dwy i bum mlynedd. Bydd dyddodiad gwaddodion yn dibynnu ar gyfradd dŵr ffo, y math o bridd ac amodau tywydd. Taenwch y gwaddodion mor denau â phosibl ar dir âr neu wyndynnydd dros dro.

Dylech gael yr esemptiad gwastraff perthnasol. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi ymgynghori'n llawn â Cyfoeth Naturiol Cymru a dilyn eu hargymhellion ynglŷn â'r gwaith cyfalaf hwn. Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth hon ynghyd â'ch Ffurflen Hawlio Gwaith Cyfalaf cyn cael taliad am eich gwaith cyfalaf.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgarwch sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Tynnu gwrychoedd

Dargyfeirio dŵr ffo o briffordd gyhoeddus.

Pentyrru gwaddodion a waredwyd o'r trap mewn twmpathau, gan y byddant yn gyforiog o faethynnau, ac felly'n gyfrwng tyfu addas ar gyfer chwyn niweidiol fel danadl poethion, tafol llydanddail ac ysgall y maes.


Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae'r opsiwn hwn yn addas ar gyfer pob system defnydd tir fel tir âr, garddwriaeth, glaswelltir a choedwigaeth lle mae llif trostir a cholli pridd yn broblem.

Mae'n hawdd cynnwys lleiniau clustogi dŵr ffo mewn systemau ymylon caeau presennol heb fawr o darfu ar gynefinoedd cyfredol a'r ardal cnydau.

Mae llif dŵr ffo yn cael ei ailgyfeirio drwy gwlfertau, dargyfeiryddion dŵr ar draws y ffordd neu bantiau. Mae'r llif yn arafu, a hynny'n caniatáu i waddodion setlo yn y trap gwaddodion.

Ni ellir defnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer buarthau fferm lle mae siediau da byw, symudiadau da byw neu dail yn cael ei storio.


The Run-off Buffer Network
Swale
Grass margin
Tramline direction
Culvert or
Bund
Field
(arable or grassland)
Farm track
Sediment trap
Hedge

Rhwystr diferion

Cod yr Eitem: L121


Cyfradd Talu: £339.93 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rhwystr Diferion'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae rhwystrau diferion yn dal dŵr ffo o draciau a chaeau, a fydd yn helpu i leihau llifogydd lleol a lleihau'r effaith ar ardaloedd sensitif. Maen nhw hefyd yn ehangu ac yn ategu rhwydweithiau ymylon cae presennol ac yn integreiddio i weithrediadau amaethyddol cyfredol heb orfod ildio tir sylweddol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cytunwch ar leoliad addas gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. ***Lleoli mewn ffosydd cam 1.***





Ewch ati i greu rhwystr yn y ffos heb fod yn fwy na 4m o led ac 1m o uchder. Dylid gosod slatiau pren (wedi'u trin o dan wasgedd) naill ai'n fertigol neu'n llorweddol (os yw'n llai na 2m o led) gan adael bwlch o 1 neu 2mm rhwng pob un. Effaith hynny yw y dylai'r dŵr dreiddio trwy'r rhwystr dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig bod y dŵr yn treiddio rhwng y slatiau, er mwyn hwyluso symudiad dŵr. Mae'n bosibl defnyddio trawstiau dur wedi'u galfaneiddio fel pyst ar gyfer dal y slatiau. Gallwch ddefnyddio deunyddiau naturiol o goetir neu wrychoedd lleol, neu rwystrau o blastig wedi'i ailgylchu. Rhaid i'r slatiau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll grym llif dŵr cyflym ac yn ddigon gwydn i bara hyd y dyfarniad grant.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn

i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.


Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfaint y dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at y wybodaeth a'r rhestr wirio yma i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb bob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Trin pren gyda chynhyrchion cadw pren cemegol gan eu bod yn wenwynig i fywyd dyfrol.

Lleoli rhwystrau ger tai ac adeiladau er mwyn lleihau'r risg o lifogydd lleol.

Adeiladwaith rhwystr diferion.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dylid lleoli rhwystrau diferion mewn ffos lle mae'r tir ar y ddwy ochr iddi o dan reolaeth y ffermwr, a lle mae risg isel i dir neu eiddo pe bai'r rhwystr yn achosi llifogydd lleol.

Mae rhwystrau diferion yn gallu storio hyd at 25m^3 o ddŵr a gwaddodion, a mwy os yw'r ffos yn un â graddiant isel. Dim ond yng nghamau uchaf cyntaf ffosydd y dylid eu lleoli, ac ni ddylid eu hadeiladu ar gyrsiau dŵr naturiol. Y lleoliad gorau i'r opsiwn hwn yw lle mae'r system ffosydd yn cario llif cyflym o ddŵr yn ystod cyfnodau o law trwm. Byddai nifer y rhwystrau mewn unrhyw ffos unigol yn dibynnu ar y graddiant, gyda mwy o rwystrau ar raddiant mwy serth.

Mae'r rhain yn addas i'w lleoli wrth ymyl trac gyda ffos yn rhedeg yn gyfochrog, ac mae'n bosibl eu cysylltu â llain glustogi dŵr ffo.

Mae'r opsiwn hwn yn addas ar gyfer pob system defnydd tir fel tir âr, garddwriaeth, glaswelltir a choedwigaeth.



Rhwystr diferion ar draws ffos.

Llewys coed gwrth-gwningod: bioddiraddiadwy

Cod yr Eitem: L122

Cyfradd Talu: £1.01 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys coed gwrth-gwningod: Bioddiraddiadwy'.

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys coed gwrth-gwningod yn declynnau a ddefnyddir yn helaeth i amddiffyn coed rhag cwningod a llygod pengrwn.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai llewys coed fod yn gwbl fioddiraddadwy ac ni ddylent fod wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu a/neu y gellir ei ailgylchu.

Gofalwch fod pob llawes goed wrth-gwningod fioddiraddadwy yn cael ei chynnal gan ffon.

Cadwch y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer llewys coed bioddiraddadwy a all, yn dibynnu ar ffactorau megis eu cydrannau bioddiraddadwy a natur agored y safle, bara am gyfnodau gwahanol a/neu amrywiol o amser.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio llewys coed sy'n dalach na'r coed maen nhw'n eu hamddiffyn adeg eu plannu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yn ddelfrydol, dylid gwthio'r ffon i'r ddaear wrth ymyl y goeden sydd newydd ei phlannu. Yna caiff y llawes ei weindio neu ei throelli o amgylch y goeden a'r ffon fel bod mamaliaid bach yn cael eu cau allan.

Gât safonol (metel)

Cod yr Eitem: L123

Cyfradd Talu: £185.73 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât safonol (metel)'.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gât patrwm saith bar galfanedig 12 troedfedd newydd safonol wedi'i gwneud o ddur galfanedig dip poeth.

Dylai'r rheiliau uchaf ac isaf fod yn diwbiau â diamedr o 41mm o leiaf, a dylai'r rheiliau canol fod o leiaf 32mm. Dylai pyst hongian a bachu fod naill ai'n diwbiau dur galfanedig â diamedr o 88mm neu'n bren caled neu bren meddal wedi'i drin.

200mm sgwâr.

Pantiau

Cod yr Eitem: L124

Cyfradd Talu: £120.866 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Pantiau'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes. Mae'n ddigon posibl y bydd ardaloedd arbennig ac unigryw fel Gwastadeddau Gwent yn defnyddio dulliau gwahanol, a bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnig cyngor am y dulliau hynny yn ôl yr angen.

Mae pantiau yn dir pantiog glaswelltog sy'n arwain dŵr wyneb dros y tir. O'i gymharu â ffos gonfensiynol, mae pant yn fas ac yn gymharol lydan, gan greu lle i gadw dŵr storm dros dro a lleddfu'r llif dŵr pan mae hwnnw ar ei waethaf.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai'r gwaith gynnwys paratoi'r safle a chloddio'r pant.

Dylech adeiladu'r pant a'r cyfuchlin ar lethr hydredol, fel arfer ar raddiant o ddim mwy na 2°.

Nodwch lwybr y pant ar y ddaear a chloddio i ddyfnder canol o 750mm a lled o 2.5m o leiaf.

Dylid cadw'r uwchbridd ar wahân a'i ddefnyddio yng ngwaelod y pant ac ar y llethrau graddol.

Ni ddylai graddiant y llethrau fod yn fwy serth nag 1 mewn 3.

Cloddiwch lawr y pant am 150–250mm arall a gosod uwchbridd yn lle'r deunydd a gloddiwyd.

Mae angen sefydlu porfa o laswellt trwchus ar ochrau a llawr y pant. Dylid hau cymysgedd hadau ar gyfradd o 25g/m^2, yn cynnwys hadau rhywogaethau amrywiol o laswellt fel peiswellt coch (70%), gweunwellt llyfn (20%) a maeswellt rhedegog (10%).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae pantiau yn arafu cyfradd y dŵr ffo neu'n cynnig lle i ddal dŵr dros dro. Bydd hyn yn annog dŵr ffo i dreiddio i'r ddaear, yn dibynnu ar amodau pridd a dŵr daear ac anweddiad. Maen nhw hefyd yn trin dŵr ffo drwy ei hidlo gan lystyfiant, drwy'r isbridd a/neu dreiddio i'r pridd islaw.

Mae'n bosibl ychwanegu gwaith cyfalaf arall fel llifddorau, byndiau pridd a rhwystrau diferion i weithredu fel argaeau ataliol i leihau llif dŵr ar lethrau mwy serth. Dylai'r rhain gael eu lleoli yn rheolaidd ar hyd y pant, ond po fwyaf seth yw'r plant, y lleiaf fydd y pellter rhyngddyn nhw.

Mae’n bosibl gofyn am gyngor ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

At ddibenion hawlio grant, dylai’r gwaith mesur ddechrau ar ymyl fewnol y banc a grëwyd.

Llifddor bren

Cod yr Eitem: L125

Cyfradd Talu: £457 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llifddor Bren'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliadau ar gael ar gyfer creu neu osod llifddorau pren mewn glaswelltir, ffeniau, corsydd a gwelyau cyrs presennol, yn ogystal ag ar gyfer creu ardaloedd newydd o wlyptir. Bydd llifddor bren yn cadw'r lefel trwythiad yn uwch na lefel draenio naturiol yr ardal.

Rhaid cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn adeiladu llifddor bren, oherwydd bod dŵr yn cael ei gronni a bod llifddorau yn gallu atal symudiadau pysgod, fel mudo eogiaid.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'u dangos pan gewch gais i wneud hynny.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfaint dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at

newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at y wybodaeth a'r rhestr wirio yma i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb bob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr.

Mae'n bosibl i chi gael cyngor ar ddeunyddiau a dulliau adeiladu addas gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu eich Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Bydd y math mwyaf addas o lifddor ar gyfer eich lleoliad yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

y lefel o gywirdeb sy'n ofynnol wrth reoli lefelau dŵr;

yr ystod o ddyfnderoedd dŵr sydd eu hangen;

y llafur sydd ar gael i weithredu a chynnal a chadw'r strwythurau;


maint tebygol yr amrywiadau tymhorol ac amrywiadau eraill yn y llif dŵr;

pa mor debygol yw'r strwythurau o ddioddef fandaliaeth;

pa mor debygol yw'r strwythurau o gael eu mygu gan falurion a thyfiant planhigion.

Mae llifddorau pren yn cyflawni'r un swyddogaeth â llifddorau pibell, ond maen nhw wedi cael eu cynllunio i ymdopi â llawer iawn mwy o ddŵr. Mae tri phrif fath:

Llifddor Ystyllen Gwymp: mae'r rhain yn strwythurau cymharol syml sy'n cynnwys cyfres o estyll sy'n disgyn i orlifan rigolog (gweler y diagram). Er mwyn gwrthbwyso diferu, mae'n bosibl defnyddio dwy set o estyll cyfochrog.



Diagramau © Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Gadwraeth Prydain

Llifddor Ystyllen Gwymp

Llifddor Gât Godi: mae'r rhain yn nodweddiadol o hen systemau gweirglodd. Mae'n bosibl bod atgyweirio hen system yn ymarferol, ond byddai gosod llifddor newydd o'r math hwn yn gymhleth ac yn ddrud. Mae rheoli lefel dŵr yn anodd gyda'r math hwn o lifddor.

Llifddor Cored Godi: mae'r rhain yn gallu bod yn effeithiol, ond maen nhw'n anghyffredin. Maen nhw'n seiliedig ar gored golfachog, gyda'r gallu i'w haddasu er mwyn rheoli lefel y dŵr yn fanwl gywir. Fel gatiau codi, fodd bynnag, maen nhw'n ddrud.

Cysgod coed: 60cm gyda phostyn

Cod yr Eitem: L129

Cyfradd Talu: £2.21 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cysgod Coed: 60cm gyda Phostyn'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae angen amddiffyn coed a llwyni sydd newydd eu plannu rhag anifeiliaid (amaethyddol, ceirw ac ati) neu gallai peiriannau eu difrodi. Y ffordd rataf o amddiffyn grwpiau o goed a llwyni rhag peiriannau neu anifeiliaid mawr yw trwy godi ffens o'u hamgylch, hynny ynghyd â gosod llewys coed sbeiral i'w hamddiffyn rhag cwningod ac ysgyfarnogod.

Defnyddiwch gysgod coed unigol a physt lle byddai ffens hir yn hyll e.e. mewn parcdir.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch bostyn yn fertigol i'r pridd wrth ymyl pob coeden newydd ei phlannu. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored.

Rhaid cysylltu pob cysgod coed â phostyn gan ddefnyddio weiren neu glipiau plastig.

Gofalwch nad yw'r postyn yn dalach na'r cysgod.

Peidiwch â:

Gadael i chwyn dyfu y tu mewn y cysgodion.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Tiwbiau plastig lled dryloyw hyd at 2m o uchder gyda diamedr o hyd at 12cm yw cysgodion coed, ar gyfer amddiffyn coed ifanc. Maen nhw wedi'u gwneud o bolypropylen ymyl ddwbl.

Dylai pob cysgod ddarparu cymorth ac amddiffyniad am oddeutu 5-10 mlynedd. Pan nad oes defnydd iddynt mwyach, mae angen eu casglu a'u gwaredu'n gywir.

Er eu bod ar gael mewn amrywiaeth o liwiau, nid oes gwahaniaeth rhyngddynt o ran eu heffaith ar dyfiant y coed. Wrth blannu o dan goed sydd wedi cydio, lle bydd llai o oleuni, mae hi fel arfer yn well defnyddio tiwbiau tryloyw clir.

Mae angen i'r cysgod fod yn uwch nag uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod i 2m ar gyfer iyrchod. Gall defaid bori hyd at 1.2m–1.5m o uchder.

Mae'n hanfodol cael gwared â chwyn o amgylch y goeden ac yn y tiwb gan fod chwyn yn cystadlu am faeth a goleuni. Rhaid chwynnu o amgylch coed mewn cysgod coed yn ystod 2-3 blynedd gyntaf eu bywydau. Rhaid tynnu'r chwyn sy'n tyfu

y tu mewn i'r cysgod coed hefyd. Gellir gwneud hyn drwy godi'r cysgod ychydig a thynnu'r chwyn yn ofalus allan o'r tiwb â llaw.

Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn y llewys coed.

Cysgod coed: 60cm gyda phostyn: bioddiraddiadwy

Cod yr Eitem: L130

Cyfradd Talu: £5.63 yr un

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn: Bioddiraddiadwy'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae angen amddiffyn coed a llwyni sydd newydd eu plannu rhag anifeiliaid (da byw, ceirw ac ati) neu ddifrod gan beiriannau.

Gellir defnyddio cysgodau coed a physt unigol lle byddai ffens yn ddiolwg, er enghraifft, mewn parcdir.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai cysgod coed fod yn gwbl fioddiraddadwy ac ni ddylai fod wedi'i wneud o blastig wedi'i ailgylchu a/neu y gellir ei ailgylchu.

Rhowch bostyn (os yw dyluniad y cysgod bioddiraddadwy yn golygu bod angen postyn) yn fertigol i mewn i'r ddaear wrth ymyl pob coeden sydd newydd ei phlannu. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored.

Clymwch y cysgodau coed bioddiraddadwy wrth y postyn gan ddefnyddio gwifrau neu glymau cebl, neu rhowch y cysgod dros y goeden a'r postyn, yn dibynnu ar ddyluniad a manylebau'r cynnyrch a ddefnyddir.

Gofalwch nad yw'r postyn yn dalach na'r cysgod.

Cadwch y cysgod coed nes bod y coed wedi'u sefydlu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cysgodau bioddiraddadwy a all, yn dibynnu ar ffactorau megis eu cydrannau polymer a pha mor agored yw'r safle, bara am gyfnodau gwahanol a/neu amrywiol o amser.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gadael i chwyn dyfu y tu mewn i'r cysgodau.

Defnyddio pyst metel.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae cysgodau coed i amddiffyn coed ifanc yn diwbiau plastig tryloyw hyd at 1.8m o uchder, gyda diamedr o hyd at 12cm.

Dylai pob cysgod bioddiraddadwy ddarparu cymorth ac amddiffyniad am oddeutu 5-10 mlynedd. Pan nad oes defnydd swyddogaethol iddynt mwyach, mae angen eu gwaredu'n gywir.

Er bod cysgodau yn dod mewn amrywiaeth o liwiau, nid oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt o ran twf coed. Wrth blannu o dan goed sefydledig, lle mae dwysedd golau yn debygol o fod yn isel, mae'n well defnyddio tiwbiau tryloyw clir fel arfer.

Mae angen i gysgodau coed fod uwchben uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod, i 2m ar gyfer ceirw. Gall defaid bori ar uchder o 1.2m-1.5m.

Mae cael gwared ar chwyn o amgylch coed ac mewn cysgodau yn hanfodol gan fod y chwyn yn gallu cystadlu am faethynnau a golau. Rhaid chwynnu coed mewn cysgodau coed am 2-3 blynedd gyntaf eu hoes. Rhaid cael gwared ar chwyn sy'n tyfu y tu mewn i'r cysgod coed hefyd. Gellir gwneud hyn trwy godi'r cysgod ychydig a thynnu'r chwyn allan o'r tiwb â llaw.

Dylai unrhyw blanhigion sydd wedi'u llacio neu eu codi'n rhannol gan wyntoedd a rhew y gaeaf gael eu rhoi'n ôl yn eu lle yn ofalus gyda throed. Archwiliwch ffensys, llewys coed, pyst a chlymau cebl yn rheolaidd (llaciwch glymau tynn gan y bydd y rhain yn cyfyngu ar dwf coed) a cheisiwch atal coed rhag tyfu trwy lewys coed neu rwbio yn eu herbyn.

Lle bo'n bosibl, gofalwch fod y postyn/ffon yn is na thop y cysgod i osgoi'r goeden yn rhwbio yn erbyn y postyn a chael ei difrodi.

Trin coed (y dydd)

Cod yr Eitem: L131

Cyfradd Talu: £560/dydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Trin coed (y dydd)'. Dim ond os oes budd amgylcheddol neu gymdeithasol sylweddol y gellir ystyried yr eitem gwaith cyfalaf hon. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnwys unrhyw waith Trin Coed fel rhan o'ch cynllun reoli os yw'n berthnasol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai'r holl waith trin coed gael ei wneud gan feddyg coed â chymwysterau addas a rhaid i'r holl waith fodloni safon BS 3998:2010.

Y rhagdybiaeth yw y byddai'r gwaith a wneir o dan y fanyleb hon yn cael ei wneud o dan yr eithriad Trwydded Cwympo Coed o 5m^3/chwarter, sydd wedi'i gyfyngu ymhellach ar gyfer ymgeiswyr yr SFS i 5m^3/chwarter calendr ar gyfer chwarteri'r hydref a'r gaeaf yn unig. Pe bai'r gwaith a gynlluniwyd yn mynd dros y terfynau hyn, byddai angen caniatâd cwympo coed (naill ai trwy Drwydded Cwympo Coed neu drwy gynllun a gymeradwywyd gan y Cynllun Rheoli Coedwig/y Cynllun Cynllunio Rheoli Coetir).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwneud gwaith trin coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst er mwyn amddiffyn adar sy'n nythu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae coed yn nodweddion strwythurol pwysig yn y dirwedd ac maen nhw'n darparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer nifer o organebau eraill. Mae rhai organebau dibynnol yn brin neu'n dirywio, felly maen nhw'n cael eu diogelu gan y gyfraith. Y prif rywogaethau a warchodir sy'n debygol o gael eu heffeithio gan feddygon coed yng Nghymru yw: ystlumod (pob rhywogaeth), pathewod, madfallod cribog a dyfrgwn. Y rhywogaethau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan drin coed yw ystlumod ac adar sy'n nythu.

Mae gan amddiffyn y rhywogaethau hyn oblygiadau o ran amseru, maint neu ddull gweithrediadau rheoli coed. Mae rhywogaethau a warchodir yn aml yn defnyddio nodweddion coed penodol, a bydd meddyg coed cymwysedig wedi'i hyfforddi'n briodol i'w hadnabod ac argymell camau priodol. Rhaid cymryd gofal hefyd i leihau effeithiau ac osgoi tarfu ar adar, ystlumod a bywyd gwyllt arall. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio sut i gynnal gweithrediadau coedwig

yn gyfreithlon ym mhresenoldeb rhywogaethau a warchodir a beth i'w wneud pan na allwch osgoi niweidio rhywogaethau a warchodir neu ddifrodi eu cynefinoedd.

Gellir defnyddio'r taliad Trin Coed ar gyfer y gwaith canlynol:

Tynnu canghennau i gefnogi iechyd a hirhoedledd coed

Trin coed i hwyluso mynediad cyhoeddus i goetiroedd (e.e. codi brigdyfiant, tynnu canghennau sy'n rhwystro mynediad presennol neu arfaethedig)

Efallai y bydd angen trin coed i ymestyn oes rhai coed hynod. Gan eu bod yn arbennig o agored i straen amgylcheddol a gwaith trin coed ansensitif, dylid gwneud cyn lleied o waith trin coed ag sy'n hanfodol i gynnal a chadw'r goeden neu am resymau iechyd a diogelwch.

Mae pren marw sy'n sefyll ar ffurf canghennau a choed cyfan yn gynefin pwysig i lawer o bryfed a ffyngau. Dylech osgoi tynnu pren marw sy'n sefyll oni bai ei fod yn achosi perygl. Dylid pentyrru torbrennau a'u gadael fel pren marw mewn cymysgedd o ardaloedd heulog a chysgodol yn yr ardal ger y goeden, oni bai eich bod wedi cytuno fel arall gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Clwt-chwynnu

Cod yr Eitem: L132

Cyfradd Talu: £96.71/Ha

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Clwt-chwynnu'.

Mae clwt-chwynnu yn ddewis amgen da i chwistrellu mewn ardaloedd lle mae cynefinoedd sensitif, ac mae'n cael ei ddefnyddio i reoli rhywogaethau annymunol lle mae gwahaniaeth taldra rhwng y rhywogaeth darged a phlanhigion daear.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Wrth reoli lledaeniad rhywogaethau annymunol, dylid ystyried chwynladdwr fel dewis olaf yn unig, gan fod y cemegau cymeradwy yn chwynladdwyr sbectrwm eang a fydd hefyd yn dinistrio planhigion eraill nad ydynt yn cael eu targedu.

Defnyddiwch chwynladdwr pan fydd y rhywogaeth annymunol yn dalach (o leiaf 10cm neu 4") na'r llystyfiant arall yn y cae, gan ei daenu bryd hynny gan ddefnyddio peiriant clwt-chwynnu wedi'i osod uwchben uchder gweddill y borfa.

Rhaid i label y chwynladdwr a ddefnyddir argymell eich defnydd arfaethedig ohono a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio.

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau. Peidiwch â'i ddefnyddio o fewn 50 metr i darddiad dŵr, ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. Dylid dilyn y cod ymarfer ar gyfer chwistrellu ger cyrsiau dŵr sy'n cael ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma. Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Caniatáu i chwynladdwr niweidio cynefin sy'n llawn bioamrywiaeth, e.e. trwy ddiferu.

Clwt-chwynnu neu ddefnyddio unrhyw ddull rheoli arall ar frwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf mewn unrhyw flwyddyn.

Clwt-chwynnu pan fydd y llystyfiant yn wlyb neu pan fydd ar fin glawio. Os yw chwynladdwr yn cael ei ddefnyddio o dan yr amodau hyn, bydd chwynladdwr wedi'i wanhau yn diferu ar y cnwd/planhigion oddi tano gan arwain at ddifrod i'r cnwd.

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau. Peidiwch â'i ddefnyddio o fewn 50 metr i darddiad dŵr, ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr

Adolygiad o'r Eitemau

Prif ofynion
Rhaid prynu pob eitem o fewn 180 diwrnod ar ôl cynnig y grant ichi.
Gofalwch fod pob eitem rydych wedi'i phrynu pan fyddwch chi'n ei hawlio, ar y safle.
Ni fyddai'r prosiect yn gallu mynd yn ei flaen heb y grant.
Rhaid i ymgeiswyr ddangos hefyd bod y canlynol wedi'u bodloni.

- bod pob caniatâd, trwydded a chydsyniad sydd ei angen wedi'i gael
- eu bod wedi cydymffurfio â'r safonau a gofynion deddfwriaethol gofynnol o ran yr amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a phob safon iechyd a diogelwch perthnasol.

Amodau

- Dyfernir y grant ar sail y datganiadau a wneir gennych neu'ch cynrychiolydd ar y ffurflen gais a'r ffurflen hawlio ac unrhyw ohebiaeth wedi hynny. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol.
- Byddwch wedi prynu'r offer a chysylltu ag RPW trwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio a nodir yn y llythyr cynnig grant. Os na fyddwch wedi cysylltu ag RPW erbyn hynny, caiff y cynnig grant ei dynnu'n ôl yn awtomatig.
- Mae'n bosib y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau i adlewyrchu newidiadau a wneir i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r newidiadau hyn ar ôl i Weinidogion Cymru roi gwybod ichi amdanynt.
- Rydych yn cytuno i gydymffurfio â phob deddf neu reoliad neu gyfarwyddeb ddomestig neu ryngwladol berthnasol.
- Ni chewch newid y prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgaredd, heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
- Ni chewch gael gwared ar unrhyw offer a brynir gyda'r grant yn ystod y prosiect, na'i drosglwyddo na'i werthu, yn ystod y prosiect nac am bum mlynedd o ddyddiad olaf y contract heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru. Rhaid ad-dalu'r grant a roddir yn llawn.
- Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen a deall rheolau a chanllawiau'r cynllun perthnasol.
- Bydd y manylion y byddwch wedi'u rhoi ar geisiadau ac unrhyw ddogfennau ategol hyd eithaf eich gwybod a'ch cred yn wir, yn gywir ac yn gyflawn.
- Rydych yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys heb eithriad unrhyw gyngor a roddir ynghylch y cais ac mai chi yn unig sy'n gyfrifol am bob penderfyniad busnes a wneir.
- Bydd gofyn i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar gostau cymwys fel y'u disgrifir yng nghanllawiau'r cynllun.
- Dylid cwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Peidiwch â gwyro oddi wrth hyn heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.
- Rhaid hawlio'r grant ar ffurflen hawlio grantiau RPW Ar-lein a rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau ategol y mae'r cynllun yn gofyn amdanynt.
- Rhaid hawlio o fewn yr amserlen a nodir yn llythyr dyfarnu'r grant. Peidiwch â gwyro oddi wrth yr amseriad hwn na gwerth eich hawliad heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

- Dim ond ar wariant sydd wedi'i ysgwyddo y telir grant ichi, hynny yw, ar daliadau sydd wedi'u cymryd o gyfrif banc.
- Rydych yn ymrwymo i gael unrhyw ganiatâd cynllunio sydd ei angen.
- Rhaid ichi gadarnhau nad oes unrhyw eitem o dan y cais yn eitem rydych wedi'i hawlio fel rhan o hawliad yswiriant.
- Rhaid ichi gadarnhau nad ydych wedi ceisio arian cyhoeddus arall. Os gwelir eich bod wedi cael arian cyhoeddus o ffynhonnell arall, caiff eich hawliad ei wrthod, gallem ofyn ichi ad-dalu arian sydd wedi'i dalu i chi a gallem eich cosbi.
- Rhaid cadw pob cofnod ynghylch y cais a'r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys pob anfoneb wreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf pum mlynedd ar ôl dyddiad olaf y prosiect.
- Rhaid ichi ymrwymo i ysgwyddo unrhyw rwymedigaethau statudol megis iechyd a diogelwch; cyflogaeth; hylendid, rheoli a diogelu'r amgylchedd; iechyd a lles anifeiliaid a chnydau sy'n berthnasol dros oes y prosiect.
- Rhaid ichi ganiatáu cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu eu cynrychiolwyr i fynd ar y tir ac archwilio'r tir hwnnw ac unrhyw offer perthnasol. Pan ofynnir amdani, rhaid rhoi gwybodaeth iddynt a/neu ganiatáu iddynt weld dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Rhaid i'r wybodaeth a roddir yn y cais ac unrhyw ddogfennau ategol fodloni gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- Dylech wybod, os byddwch yn llwyddiannus, ceidw Llywodraeth Cymru'r hawl i gyhoeddi enw'ch busnes neu gwmni, faint o grant a roddwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn dod o dan yr Hysbysiad Preifatrwydd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio'ch hawliau a sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).